# Cynnwys


Rhaglen 2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 6
5a - Cyllideb 2015-16 a Strategaeth Ariannol 2015-16 - 2017-18 13
5b - Cyllideb 2015-16 a Strategaeth Ariannol 2015-16 - 2017-18 14
Atodiad 1 - Cyllideb 2015-16 a Strategaeth Ariannol 2015-16 - 2017-18 20
6. Adroddiad Rheolaeth Trysorlys 45
Atodiad 1 - 2015 Polisi ac Ymarferion 48
Atodiad 2 - Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2015-16 76
Atodiad 3 - Dangosyddion Darbodus 2015-16 94
7a - Cyllideb Refeniw Adolygiad 3ydd Chwarter 2014-15 98
7b - Cyllideb Refeniw 2014-15 - Adolygiad Trydydd Chwarter 99
Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw Ch3 2014-15 101
Atodiad 2 - Cyllideb Refeniw Ch3 2014-15 102
8a - Rhaglen Gyfalaf Adolygiad 3ydd Chwarter 2014-15 135
8b - Rhaglen Gyfalaf 3ydd Chwarter 2014-15 136
9 - Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau 142
10 - Cynnyrch Archwilio Mewnol 150
11 - Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Cloch 163
12 - Cynllun Archwilio Mewnol 2014-15 172
13 - Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2015-16 181
14 - Newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad yn dilyn y Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. 187

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AUDIT COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2.00pm DYDD MAWRTH, 17 CHWEFROR 2015**

**2.00pm TUESDAY, 17 FEBRUARY 2015**

***Nodwch ddyddiad ac amser cychwyn y cyfarfod***

***Please note meeting date and start time***

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA/CHAMBER,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENCADLYS,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS**

**01286 679020**

BethanAdams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 10-2-15

## PWYLLGOR ARCHWILIO
## AUDIT COMMITTEE

**AELODAETH/MEMBERSHIP (19)**

**Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Edward Dogan
Aled Ll. Evans
Chris Hughes
Dilwyn Morgan
Michael Sol Owen
Gethin G. Williams
John Wyn Williams
Sedd Wag / *Vacant Seat*

**Annibynnol/Independent (5)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trevor Edwards
Tom Ellis
John Brynmor Hughes
John Pughe Roberts
Angela Russell

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Anwen Davies
Aeron M. Jones
R.J. Wright

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

**Aelod Unigol / Individual Member (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Sedd Wag / *Vacant Seat*

**Aelod Lleyg/Lay Member**

Mr John Pollard

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor / Council Chairman

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2014, fel rhai cywir.

(copi yma- papur **melyn**)

## 5. CYLLIDEB 2015/16 A STRATEGAETH ARIANNOL 2015/16 – 2017/18

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **glas**)

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2015/16

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **eog**)

## 7. CYLLIDEB REFENIW 2014/15 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (RHAGFYR 2014)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **gwyn**)

## 8. RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – ADOLYGIAD DIWEDD Y TRYDYDD CHWARTER (31 RHAGFYR 2014)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **aur**)

## 9. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Panel ar 16 Ionawr 2015 (copi yma – papur **pinc**)

**10. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2014 a 31 Ionawr 2015 (copi yma – papur **llwyd**)

**11. TREFNIADAU DATGELU - YMWYBYDDIAETH O'R POLISI CANU'R GLOCH**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg (copi yma – papur **lelog**)

**12. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2014/15 (copi yma – papur **melyn**)

**13. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2015/16**

Cyflwyno Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016 (copi yma – papur **glas**)

**14. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I’R CYFANSODDIAD YN DILYN Y DEDDF PENSIYNAU GWASANAETH CYHOEDDUS 2013 A’R RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (DIWYGIAD) (LLYWODRAETHU) 2014**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid a’r Pennaeth Cyfrieithiol
(copi yma papur **eog**)

# PWYLLGOR ARCHWILIO 18/12/14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Robert J. Wright (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Eddie Dogan, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, John B. Hughes, Aeron M. Jones, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell, Gethin Glyn Williams a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Hawis Jones (Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd – ar gyfer Eitem 7 ar y rhaglen), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitem 13 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd R. H. Wyn Williams (Aelod Cabinet Gofal), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Glenda Lloyd Evans (Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaeth Pobl Hŷn) ar gyfer Eitem 5(b) ar y rhaglen.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Trevor Edwards, Sion Wyn Jones a Mr John Pollard.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Medi 2014, fel rhai cywir.

## 3. CYLLIDEB REFENIW 2014/15

### (a) GORWARIANT YM MAES GWASANAETHAU POBL HŶN (ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT)

Adroddwyd yr ystyriwyd yr adroddiad gan y Cabinet ar 25 Tachwedd 2014 a chyflwynwyd eu penderfyniad i sylw'r pwyllgor –

"a) Derbyn yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) ynglŷn â'r sefyllfa gorwariant yn y maes Pobl Hŷn (Oedolion, Iechyd a Llesiant).
b) Derbyn yr esboniad o ran tuedd dwyster.
c) Gofyn am adroddiad diwedd Chwarter 3 yn amlygu'r camau sydd ar y gweill yn y Gwasanaeth i newid diwylliant i gyfundrefn trawsnewid a galluogi.
ch) Derbyn cadarnhad ar ddiwedd Chwarter 3 bod yr egwyddor o newid diwylliant wedi cael ei fabwysiadu gan reolwyr a swyddogion yr Adran Gofal."

Croesawyd yr Aelod Cabinet Gofal a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Nododd yr Aelod Cabinet Gofal bod newidiadau wedi eu gwneud eisoes ond byddai'r newid mawr yng nghyswllt darparu gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd amser. Adroddwyd y cynhelir adolygiad 'O'r Dechrau i'r Diwedd Oedolion' er mwyn delio â'r gorwariant ac i ymateb i'r twf mewn demograffi.

Ychwanegodd bod Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfnod salwch a bod swyddogion wedi cymryd baich ychwanegol. Pwysleisiwyd bod holl aelodau'r Cyngor efo rhan i'w chwarae o ran newid y diwylliant i geisio atal y gorwariant.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y derbyniwyd cydnabyddiaeth ariannol i geisio ymateb i'r twf mewn demograffi yn y blynyddoedd diwethaf ond nad oedd effaith demograffi i'w weld tan yn ddiweddar.

Tywysodd yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod gwariant y Cyngor ar ofal nyrsio yn gymharol uwch na chynghorau eraill tebyg ac yr edrychir ar y mater;
- Ei fod yn anodd dod i gasgliad pendant ar y gwir arbediad a oedd yn deillio o'r gwasanaeth Galluogi;
- Y cynhelir adolygiad o'r gwasanaeth Galluogi;
- Bod yr uchafswm taliad wythnosol o £55 am ofal cartref yn golygu bod mwy o unigolion yn aros adref. Petai nifer o'r unigolion yma mewn cartref preswyl, byddent yn talu'n llawn am eu gofal;
- Bod cymhlethdod anghenion gofal pobl yn cynyddu;
- Yn sgil y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod angen cynnal trafodaethau anodd efo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- Bod angen rhoi cymorth i staff o ran rheoli cyllideb ac yr angen i staff reng flaen berchnogi'r rhaglen ariannol;
- Y gwneir gwaith rhagweithiol clodwiw gan swyddogion i gyfarch y gorwariant a bod angen i hyn barhau i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, nodwyd:-

- Bod tystiolaeth yn dangos bod unigolion anghymwys yn derbyn gwasanaeth Galluogi. Nodwyd bod y trefniadau stopio darparu'r gwasanaeth pan fo unigolyn ddim ei angen, angen eu gwella.
- O ran eglurder, y darperir gwasanaeth Galluogi am gyfnod hyd at 12 wythnos ac mai 6 wythnos oedd y cyfnod cyfartalog;
- Bod gwasanaethau a ddarperir gan y Trydydd Sector, megis cynllun Ffrindia' Age Cymru Gwynedd a Môn, yn werthfawr a bod angen gweithio yn fwy rhagweithiol â'r Trydydd Sector;
- Y sefydlir tîm at ei gilydd fel peilot blwyddyn yn Ysbyty Alltwen, Tremadog ar y cyd efo Iechyd, a fyddai'n trafod gydag unigolion beth sy'n bwysig iddynt;
- Bod angen arfogi staff i newid y ffordd o weithio yn hytrach na pharhau a'r arfer o ddarparu pecynnau gofal i unigolyn;
- Er mwyn llwyddo i gyrraedd y gofynion bod angen rhoi sylw i Ofalwyr a sicrhau bod cynllun wrth gefn pan fo gofalwr yn mynd yn sâl;
- O ran amserlen, y canolbwyntir ar drawsffurfio'r gwasanaethau yn ogystal â chynnal trafodaethau anodd efo Iechyd. Nodwyd y disgwylir gweld newid yn y gromlin ariannol ar ddiwedd Chwarter 3, lle dadansoddir y sefyllfa gyfredol;
- Y darperir gofal canolraddol i unigolion oedd wedi eu rhyddhau o'r ysbyty mewn cartrefi preswyl cyn iddynt ddychwelyd adref. Nodwyd bod y ddarpariaeth ar gael yn Ardal Arfon ac yn y dyfodol byddai ar gael yn Nwyfor a Meirionnydd. Bwriedir ariannu'r gwlâu ar y cyd efo Iechyd gan fod y Gronfa Ganolraddol yn dirwyn i ben.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod arwyddion cynnar bod y diwylliant yn newid yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a chaiff hyn effaith ar y cyfrifon erbyn y 3ydd chwarter, ond gan ei fod yn broses hir dymor ni ddisgwylir achubiaeth lawn ar unwaith. Ychwanegodd bod gwaith yn mynd yn ei flaen yng nghyswllt cyllideb y Cyngor ar gyfer 2015/16 ac ar hyn o bryd rhagwelir y dyrennir dros £400k yn ychwanegol i gyllideb yr Adran i'w digolledu am y gost ychwanegol oherwydd twf demograffi.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Gofal a'r swyddogion am eu cyfraniad a dymunwyd yn dda i'r Aelod Cabinet ar ei ymddeoliad o'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a derbyn penderfyniad y Cabinet.**

**(b) ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2014)**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid, a oedd yn nodi yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau y cyflwynwyd adroddiadau adolygiad cyllideb ail chwarter i'r Cabinet ar 25 Tachwedd 2014. Cyflwynodd y penderfyniadau canlynol i sylw'r pwyllgor i'w craffu -

"a) Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2014) o'r Gyllideb Refeniw.
b) Nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, a chymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.
c) Cymeradwyo cyllideb ychwanegol o £44k i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i ddod o gyllidebau Corfforaethol y Cyngor."

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed reserfau, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau ni ellir rhagweld y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ond fe fonitrir y sefyllfa bob chwarter.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid mai tanwariant wedi ei gynaeafu ar gyfer rheswm penodol oedd yn y cronfeydd wrth gefn adrannol, ac edrychir ar gyfran o'r arian yma gyda golwg ar ei roi yn y gronfa ddiswyddo. Nodwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu lefelau cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol Cymru a'u bod yn fodlon â sefyllfa Cyngor Gwynedd.

Diolchwyd i holl staff y Cyngor sy'n ymwneud â chyllidebau'r Cyngor am eu gwaith caled a manwl.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**

**4. RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (MEDI 2014)**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y rhaglen ddiwygiedig a'r ffynonellau ariannu perthnasol.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau yr ystyriwyd yr adroddiad gan y Cabinet ar 25 Tachwedd 2014 a chyflwynodd eu penderfyniad i sylw'r pwyllgor –

"PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2014) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig, sef:

- addasiad £2,699,000 gwir lithriadau o 2013/14
- lleihad £3,111,000 mewn benthyca heb gefnogaeth
- cynnydd £2,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £425,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £176,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad £351,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf

- cynnydd £417,000 mewn defnydd o gronfeydd eraill”

Nodwyd ei fod yn galonogol bod gwerth y rhaglen gyfalaf am y tair blynedd gyfredol dros £92 miliwn, a oedd yn gyflawniad sylweddol yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Adroddwyd bod cynllun Pont Briwet wedi ei graffu yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 2 Rhagfyr. Nododd aelodau o’r Pwyllgor, oedd hefyd yn aelodau o’r Pwyllgor Craffu, y derbyniwyd atebion onest a didwyll gan swyddogion yn y cyfarfod ond bod risg dal i fodoli yng nghyswllt llithriad amserlen a’r goblygiadau ariannol.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) Nodi’r sefyllfa a derbyn penderfyniad y Cabinet.**
**(ii) Gwahodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd a’r swyddogion perthnasol o’r Adran Rheoleiddio i gyfarfod nesaf y Gweithgor Gwella Rheolaethau parthed cynllun Pont Briwet.**

**5. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad o ran yr adroddiadau archwilio allanol a dderbyniwyd gyda’r atodiad yn manylu ar yr adroddiadau, y camau gweithredu a’r trefniadau craffu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi bod y Pwyllgor wedi ei fodloni bod argymhellion archwilwyr allanol yn derbyn sylw digonol.**

**6. ASESU CYNLLUNIAU ARIANNOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru.

Adroddwyd y cynhelir asesiad o gynlluniau ariannol holl awdurdodau lleol Cymru gydag adroddiad cyffredinol i’w gyhoeddi yn y dyfodol. ‘Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol y Cyngor yng ngwyneb gostyngiadau cyllidebol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol.

Daethpwyd i’r casgliad cyffredinol bod gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol effeithiol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol. Nodwyd nad oedd gan Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw gynigion ar gyfer gwella ond nodir cyfleoedd posib i’r Cyngor ystyried wrth atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio ariannol.

Awgrymwyd y dylai’r Cyngor ystyried rhoi polisi ffurfiol ar waith ynghylch y defnydd o gronfeydd wrth gefn a balansau.

Croesawodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad a nododd y rhoddir sylw i’r cyfleodd posib a nodir. O ran polisi ar gronfeydd a balansau, eglurodd y Pennaeth Cyllid nad oedd modd gwahanu’r ystyriaeth ohonynt o’r risgiau cyllidebol eraill a materion fel cyllideb wrth gefn, darpariaeth am chwyddiant, ayb.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed reserfau ysgolion, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod canllawiau pendant mewn lle ar gyfer ysgolion gyda monitro ac adolygu cyson o’r sefyllfa a rhoddir pwysau ar yr ysgolion gyda reserfau rhy uchel i’w ddefnyddio ar gyfer addysg y disgyblion. Ychwanegodd mai mater i’r Pennaeth a Llywodraethwyr ydoedd a gofynnodd i unrhyw aelod a oedd yn Llywodraethwr ysgol i godi’r mater.

Diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled a manwl roedd wedi arwain at farn gadarnhaol Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt cynlluniau ariannol. Ychwanegodd

Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod gwaith da gan staff a threfn penderfyniadau gwleidyddol effeithiol y Cyngor yn sicrhau cydnerthedd ariannol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

Cyflwynwyd y Llythyr a oedd yn rhoi crynodeb o'r archwiliad blynyddol gan Reolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru. Nododd y Pennaeth Cyllid fod y "llythyr" yn cadarnhau'r hyn adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Medi 2014.

Nododd aelod y dylai Uned Gyfathrebu'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r adroddiadau calonogol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2014 i ystyried archwiliad 'Ysgolion Uwchradd – Llywodraethu' a oedd wedi derbyn categori barn B a tri archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2014 a 12 Medi 2014 sef -

a) Cofrestr Diogelwch Staff
b) Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion
c) Cymunedau'n Gyntaf – Y Rhaglen Newydd

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y Gweithgor bod y materion a amlygwyd gan Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed archwiliad Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y byddai'n cynnwys archwiliad o bresenoldeb llywodraethwyr ar y tri cwrs mandadol yng nghynllun archwilio 2015/16. Nododd na fyddai'n ymarferol ei gynnal cyn hynny.

Nododd aelod y byddai'n hoffi amserlen dynn ar gyfer yr archwiliad, gan fod y drefn newydd mewn lle ers Medi 2013 a bod risg i'r Cyngor.

Awgrymodd y Pennaeth Cyllid y gellir anfon neges uniongyrchol at yr Adran Addysg yn gofyn iddynt roi sylw i'r mater fel blaenoriaeth a chynnal archwiliad yn 2015/16.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) anfon neges at yr Adran Addysg yn gofyn iddynt roi sylw i bresenoldeb Llywodraethwyr yn y tri cwrs mandadol fel blaenoriaeth;**
**(iii) bod Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad yn gwirio presenoldeb Llywodraethwyr yn y tri cwrs mandadol yn 2015/16.**

## 9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2014**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 15 Medi a 30 Tachwedd 2014. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 13 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 Adroddiad arall (memoranda a.y.b)
- 2 o adolygiadau grant
- 9 archwiliad dilyniant
- 1 archwiliad ymatebol

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol -

**Canolfannau Hamdden**

Nodwyd bod archwiliad wedi bod gerbron y Pwyllgor yn ddiweddar a bod y Gwasanaeth yn y broses o ail drefnu er mwyn ymdrechu i reoli a lliniaru risgiau canolfannau hamdden yn well yn y dyfodol.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod system rheoli integredig mewn lle gan y Gwasanaeth Canolfannau Hamdden a bod Archwilio Mewnol wedi cael mewnbwn wrth iddo gael ei ddatblygu. Ymhellach, gwelwyd ymarfer da yn rhai o'r canolfannau, a bod y Gwasanaeth Hamdden eisoes yn adnabod arferion da a'u rhaeadru i'r holl ganolfannau hamdden. Nodwyd gan fod yr adroddiad wedi derbyn barn archwilio 'C', yn unol â'r arferiad byddai'r adroddiad yn dod gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau.

**Archwiliadau Dilyniant**

Mewn ymateb i ymholiad, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod tri archwiliad wedi derbyn barn dilyniant anfoddhaol ac ymhelaethodd arnynt yn unigol:

- **Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion** – Rhoddwyd sylw i'r mater mewn cyfarfod o'r Gweithgor a gan fod trefniadau grant wedi symud ymlaen ni welir budd mewn edrych ar y mater unwaith eto;
- **Tocynnau Teithio Rhad** – Gan fod materion troseddol wedi codi teimlir ei fod yn gynamserol ac yn amhriodol i roi sylw i'r mater yn bresennol;
- **Porthladdoedd** – Nid oedd yr argymhellion wedi eu gweithredu ac y gellir ystyried dod a'r adroddiad gerbron y gweithgor.

**PENDERFYNWYD**

**(a) derbyn yr adroddiadau ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 15 Medi 2014 i 30 Tachwedd 2014 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**(b) bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr Tom Ellis, Dilwyn Morgan a Angela Russell i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' yn ogystal ag archwiliad dilyniant Porthladdoedd.**

**(c) Mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.**

**10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2014/15.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 30 Tachwedd 2014 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol:-

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 33 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 3 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 13 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 1 |
| Disgwyl Adolygiad | 7 |
| Adroddiad Drafft | 4 |
| Adroddiad Terfynol | 37 |
| Cyfanswm | 98 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 3 |

Nodwyd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at ddiwedd Tachwedd yn is na'r targed ac na fyddai 22 archwiliad wedi eu rhyddhau er mwyn cwrdd â'r targed chwarterol o gwblhau 59 allan o 98, sef 60%.

Adroddwyd bod y sefyllfa o dan adolygiad parhaus. Tynnwyd sylw bod cynllun effeithlonrwydd Archwilio Mewnol yn golygu gostyngiad capasiti o 3 swyddog ac o ganlyniad roedd cwrdd â'r targed erbyn diwedd y flwyddyn yn gynyddol heriol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2014/15.**

**11. RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol.

Adroddwyd bod Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn argymell y dylid hysbysu aelodau o weithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf dwywaith y flwyddyn. 'Roedd yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn arddel arfer gorau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Buddsoddi, yn ystod y chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2014, arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, ac nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian yn methu ad-dalu.

Nodwyd y cynhelir seminar i'r aelodau ar 30 Ionawr 2015, efo ymgynghorwyr o Gwmni Arlingclose, a fyddai'n darparu eglurhad manwl o newidiadau sylweddol yn y maes rheolaeth trysorlys.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.40pm

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **17 Chwefror 2015** |
| TEITL: | **CYLLIDEB 2015/16 A STRATEGAETH ARIANNOL 2015/16 – 2017/18** |
| PWRPAS: | **Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Archwilio** |
| GWEITHREDIAD: | **Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymell i'r Cyngor llawn** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn a'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor y dylid ei argymell ar gyfer 2015/16.

**2.** Gan dderbyn ei fod yn ymarfer da i osod y gyllideb yng nghyd–destun y sefyllfa ar gyfer y tymor hirach, bwriedir hefyd ymgynghori gyda'r Cyngor ynglyn a'r strategaeth ariannol i'w ddilyn ar gyfer y cyfnod i ddod (2015/16 – 2017/18).

**3.** Mae hyn yn parhau gyda'r arferiad a fu gennym bellach ers rhai blynyddoedd - arferiad sy'n cael ei ganmol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac yn talu ar ei ganfed o ystyried y sefyllfa yr ydym yn ei wynebu a chynllunio ar ei gyfer.

**4.** Bydd y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth i'r adroddiad deuddydd ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, a byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.

**5.** Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio ystyried priodoldeb ariannol y cynigion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
**19 Chwefror 2015**

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins

**Pwnc:** Cyllideb 2015/16 a Strategaeth Ariannol 2015/16 – 2017/18

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## Y Penderfyniad a geisir

1.1 Argymell i'r Cyngor y dylid sefydlu cyllideb o £228,193,060 ar gyfer 2015/16 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £168,311,989 a chynnydd yn y Dreth Cyngor o –

| Cynnydd Treth Cyngor % | Incwm Treth Cyngor £ | Bwlch i'w gyllido Drwy ddefnyddio balansau £ |
|---|---|---|
| 3.5% | 57,308,682 | 2,572,389 |
| 4.0% | 57,585,535 | 2,295,536 |
| 4.5% | 57,862,389 | 2,018,682 |
| 5.0% | 58,139,242 | 1,741,829 |

1.2 Sefydlu rhaglen gyfalaf o £19.179m yn 2015/16 a £21.270m yn 2016/17 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.4 o'r atodiad.

1.3 Parhau i ymgynghori gyda'r Cyngor am y cynigion i ddygymod gyda'r bwlch ariannol sy'n ein hwynebu am y tair blynedd nesaf.

---

## Cyflwyniad

1. Mae'n rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn i ddod (2015/16) gan sicrhau fod y gwariant yn cyd-fynd a'i incwm.

2. Yn hanesyddol, ac yn unol ag ymarfer gorau (sydd wedi'i gydnabod gan Swyddfa Archwilio Cymru) mae'r Cyngor wedi sefydlu ei gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig er mwyn sicrhau fod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.

3. Mae'r cynllunio tymor canolig hyn wedi talu ar ei ganfed i ni gan ein bod wedi medru cynllunio arbedion angenrheidiol yn rhesymegol, heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog / anghywir o ran y buddion i'r dinesydd.

4. Wedi ymgynghori mewn cyfres o seminarau a gyda'r Pwyllgor Archwilio, mater i'r Cabinet yw ystyried y strategaeth ariannol 2015/16 – 2017/18, gan argymell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2015/16.

5. Mae'r atodiad sydd ynghlwm i'r adroddiad yma yn manylu ar yr holl faterion perthnasol sydd angen eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2015/16 ynghyd a'r materion hynny sydd yn dylanwadu ar sefydlu strategaeth ar gyfer y dyfodol.

## A) CYLLIDEB 2015/16

6. Gellir crynhoi'r opsiynau ar gyfer 2015/16 fel a ganlyn –

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynnydd Treth Cyngor % | 3.50% | 4.00% | 4.50% | 5.00% |
| Anghenion Gwario 2015/16 | £236,819,647 | £236,819,647 | £236,819,647 | £236,819,647 |
| Llai incwm Grant y Llywodraeth | £168,311,989 | £168,311,989 | £168,311,989 | £168,311,989 |
| Llai incwm Treth Cyngor | £57,308,682 | £57,585,535 | £57,862,389 | £58,139,242 |
| Diffyg | £11,198,976 | £10,922,123 | £10,645,269 | £10,368,416 |
| Arbedion fydd wedi'u cyflawni | £8,626,587 | £8,626,587 | £8,626,587 | £8,626,587 |
| Y balans i'w gwrdd o Falansau | £2,572,389 | £2,295,536 | £2,018,682 | £1,741,829 |

7. Erbyn 2015/16, mae asesiad o'n anghenion gwario sylfaenol yn awgrymu fod angen cynyddu ein gwariant i £236.82m er mwyn "sefyll yn llonydd".

8. Mae hyn yn cynnwys £313,000 i gwrdd â chostau trosglwyddiadau i mewn i'r setliad ynghyd â £876,000 i gwrdd â phwysau ar gyllidebau. Rhoddir manylion llawn yn rhan 3 o'r atodiad amgaeedig.

9. Bydd hefyd angen cyfarch anghenion un-tro cyfwerth â £373,000 a ariennir drwy ddefnyddio darpariaeth wrth gefn roedd eisoes yn y gyllideb sylfaenol.

10. O fewn y gyllideb a gynigir, rhagwelir y byddwn yn cydymffurfio ag addewid cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion, ond maent yn wynebu pwysau ar eu cyllidebau dirprwyedig oherwydd cynnydd yng nghost pensiynau athrawon, a chynnydd yn y gost o integreiddio disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

11. Amlinellir yn rhan 4 o'r atodiad sut gellid arbed £952,000 o gyllidebau ysgolion yn 2015/16, gydag effaith ymylol ar y gymhareb disgybl i athro, a chadw o fewn cyfyngiadau'r "addewid".

12. Bydd y grant y byddwn yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru am 2015/16 yn lleihau 4% i £168.3m, sef gostyngiad sylweddol arall yn dilyn y lleihad 4.4% erbyn 2014/15.

13. Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol y mae hyn yn ei greu yn 2015/16 bydd modd priodoli'r arbediad £952k o'r ysgolion, galw ar £6.5m o arbedion effeithlonrwydd newydd sydd eisoes ar y gweill, ynghyd â £278k o'r hen arbedion roedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2015/16.

14. Mae Adolygiad Strategol o'r maes Priffyrdd hefyd yn rhoi cyfle i gyfrannu tuag at gau'r bwlch yn 2015/16. Bydd rhaid aros i gyfarfod dilynol o'r Cabinet ystyried yr adroddiad ar yr adolygiad cyn dod i gasgliad terfynol. Fodd bynnag, at ddibenion cynllunio ariannol, amcangyfrifir byddwn yn gallu gwneud arbediad o £550,000 fel swm ychwanegol i'r arbedion uchod.

15. Hefyd, rydym yn rhagweld y bydd yna arbedion ar gael yn 2015/16 trwy gyflawni gwerth £305,000 o "doriadau cynnar" mewn rhai gwasanaethau cefnogol ac ar rai cyllidebau corfforaethol.

16. Argymhellir y dylid cyfarch gweddill y bwlch drwy gyfuniad o gynyddu'r Dreth Cyngor a defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor. Wrth ddewis faint (%) i godi'r Dreth Cyngor, dylid ystyried yr ymhlygiadau tymor canol ar doriadau (gweler rhan B isod).

17. Yn fyr, drwy godi'r Dreth Cyngor 4.5% yn lle 3.5% erbyn 2015/16, byddai modd osgoi torri gwerth £553,707 o wasanaethau i bobl Gwynedd yn 2016/17.

18. O fewn y gyllideb a gynigir, y brif risg yw'r ffaith na fydd unrhyw gyllideb wrth gefn cyffredinol (heblaw am ddarpariaeth benodol ar gyfer chwyddiant tanwydd). Bydd yn rhaid disgyn yn ôl ar falansau'r Cyngor os ceir galwadau cyllidol annisgwyl eraill.

19. Am y tro, cyn cyflawni adolygiad mwy trylwyr o'r Cynllun Rheoli Asedau, rydym wedi ychwanegu lle'n briodol at rhaglen gyfalaf 2015/16 (addasu'r rhaglen yn sgil rhai newidiadau anorfod) a sefydlu rhaglen ar sail isafswm ar gyfer 2016/17, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 3, fydd yn golygu rhaglen o £19.18m yn 2015/16 a £21.27m yn 2016/17. Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn gwario ar gynlluniau cyfalaf ar lefel uwch na'r adnodd yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein rhaglen gyfalaf, ond ni ystyrir fod y lefel benthyca perthnasol am or-ymestyn y Cyngor.

## B) STRATEGAETH TYMOR CANOLIG

20. Adroddwyd flwyddyn yn ôl y gallasem fod yn wynebu bwlch ariannol o dros £51m dros y cyfnod 4 blynedd 2014/15 – 2017/18 gyda thafluniadau gostyngiadau grant yn gyfrifol am £20m o'r swm yma. Erbyn hyn, disgwylir colled grant dros £2.3m, felly mae'r bwlch wedi tyfu i tua £53m.

21. Pe byddai'r Cyngor yn fodlon cynyddu'r Dreth Cyngor 4.5% yn 2015/16 a 3.5% yn 2016/17 a 2017/18, gyda'r camau y bwriedir eu cymryd ynghyd â'r arbedion sydd eisoes yn cael eu gwireddu, byddai hyn dal yn golygu ein bod angen edrych am arbedion ychwanegol cyfwerth â thua £34m yn y tair blynedd o 2015/16 ymlaen.

22. Crynhoir y sefyllfa arfaethedig yn y tabl isod:

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m |
| Gofynion Gwario ychwanegol | 6.4 | 6.1 | 10.2 | 6.7 | 29.4 |
| Colled (cynnydd) grant | 6.7 | 7.1 | 3.5 | 6.1 | 23.4 |
| Y Bwlch | 13.1 | 13.2 | 13.7 | 12.8 | 52.8 |
| Treth Cyngor | -2.7 | -2.5 | -1.9 | -2.0 | -9.1 |
| Diffyg Cynlluniedig | 10.4 | 10.7 | 11.8 | 10.8 | 43.7 |
| Hen Gynlluniau Arbedion | -8.6 | -0.5 | -0.2 | 0.0 | -9.3 |
| Cynlluniau Arbedion newydd | 0.0 | -8.2 | -2.7 | -3.8 | -14.7 |
| I'w ddarganfod / defnydd balansau | 1.8 | 2.0 | 8.9 | 7.0 | 19.7 |
| | | | | | 34.4 |

23. Felly, argymhellir y dylid parhau i weithredu ar sail yr un amrediad o bosibiliadau a gytunwyd eisoes am 2015/16 – 2017/18, sef:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Cyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor o fewn amrediad 3.5% - 5% |
| Y Gyllideb Ysgolion | Rhoddi targed £4.3m i'r gyllideb ysgolion |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau | Ffigwr fydd ar ôl |

24. Mae'r strategaeth i sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd eisoes ar droed gyda £13m o gynlluniau wedi'u cymeradwyo i'w gweithredu, ac eraill dan sylw pellach.

25. Mae'r strategaeth i flaenoriaethu toriadau hefyd wedi cychwyn, a bydd rhaglen gynhwysol ar gyfer sefydlu blaenoriaethau yn parhau rhwng rwan a Hydref 2015 er mwyn ceisio sicrhau bydd y toriadau anochel yn adlewyrchu blaenoriaethau trigolion Gwynedd.

26. Tra rydym yn cyfarch yr anghenion yma nawr, mae cyfundrefnau o'r fath yn cymryd amser i'w gwireddu. Rhaid bod yn wyliadwrus nad ydym yn colli unrhyw gyfleoedd sy'n codi yn y cyfamser, a dylai'r Cabinet fanteisio ar gyfleon sy'n codi yn y cyfamser i wireddu arbedion, megis y "toriadau cynnar", Adolygiad Strategol Priffyrdd, ayb.

## Rhesymau dros argymell y penderfyniad

27. Mae'r holl strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd a chadw'r cynnydd yn y Dreth Cyngor i'r lleiafswm fyddai'n gyson gyda'r amcan hwnnw.

28. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod unrhyw arbedion y bydd yn rhaid i ni eu cyflawni yn cael eu gweithredu yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl.

29. Argymhellir ystyried cynyddu'r Dreth Cyngor uwchben 3.5% yn 2015/16 er mwyn isafu'r toriadau fydd raid wynebu'n 2016/17.

30. 'Rydym yn rhagweld y bydd yna 12 o gynghorau eraill yng Nghymru yn cynyddu'r Dreth Cyngor ar lefel rhwng 4.5% a 5% ac rwy'n ystyried fod 4.5% yn rhesymol fel cam tuag at gyfarch y bwlch enfawr yr ydym yn ei wynebu.

## Ystyriaethau perthnasol

31. Fel y nodir uchod, mae modd codi llai neu fwy o Dreth Cyngor fydd yn effeithio ar lefel y toriadau y bydd eu hangen dros y cyfnod.

32. Nid oes modd effeithio ar y grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru (er bod swyddogion ac aelodau yn barhaus yn gwneud gwaith i geisio sicrhau fod y fformiwla dyrannu yn deg). Mae modd newid y ffigyrau gwariant, ond mae yna oblygiadau i hynny, wrth gwrs.

33. Mater i'r Cyngor yw ystyried y gyllideb i'w osod yn 2015/16 ar sail y materion a nodir yn yr atodiad sydd ynghlwm, ac ystyried a ydynt yn dymuno newid unrhyw elfen, ond o'm rhan i fel Aelod Cabinet, rwy'n credu dylid ystyried cynyddu'r Dreth Cyngor i lefel rhwng 3.5% a 5%.

34. Fel rhan o broses o geisio bod yn gynhwysol, 'rwyf yn ymgynghori gyda thrwch aelodau'r Cyngor drwy gyfres o seminarau dros y dyddiau yn arwain at gyfarfod y Cabinet. Byddaf yn adrodd ar lafar ar y sylwadau a geir yn ystod y broses honno, er mwyn i'r Cabinet ystyried barn aelodau am yr opsiynau cyn gwneud argymhellion o ran y gyllideb i'r Cyngor. Mater i'r Cyngor fydd mabwysiadu'r gyllideb honno neu beidio.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

**Barn y swyddogion statudol**

**Prif Weithredwr:**
Unwaith eto eleni, mae gofyn i'r Cabinet a, maes o law, y Cyngor llawn, geisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng trethi ac arbed, a hynny ar adeg gyda'r mwyaf heriol. Rwy'n croesawu'r cynigion fel ymdrech i daro'r cydbwysedd hynny, a hefyd y camau y mae'r Aelod Cabinet Adnoddau a'r Pennaeth Cyllid yn eu cymryd i drafod eu cynigion gydag aelodau cyn eu dwyn gerbron y Cabinet a'r Cyngor.

**Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad yn amlygu ymatebion i heriau ariannol 2015/16. O fewn y strategaeth gosodir cynlluniau penodol ar gyfer cyfarch y sefyllfa yma. Wrth i'r Cabinet ffurfio argymhellion ar gyfer y Cyngor mae'n bwysig eu bod yn rhoi sylw i ofynion statudol sydd yn ynghlwm a gwireddu y cynlluniau yma ble'n berthnasol. Rhoddir arweiniad pellach yn y cyfarfod.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau**
Adroddiad Cyllideb 2015/16 a Strategaeth Ariannol 2015/16 – 2017/18

# CYLLIDEB 2015/16 a
# STRATEGAETH ARIANNOL 2015/16 – 2017/18

## 1 CEFNDIR

1.1 Mae'r atodiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw sydd ei angen ar gyfer 2015/16.

1.2 Hefyd, mae'n diweddaru'r strategaeth ariannol 4 blynedd sefydlwyd y llynedd ar gyfer y cyfnod hyd at 2017/18 yn wyneb parhad yr hinsawdd ariannol galed.

## A) CYLLIDEB 2015/16

## 2 GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad terfynol ar gyfer 2015/16, ond heb ddarparu unrhyw ffigyrau mynegol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Nodir y manylion isod yn nhabl 1.

**Tabl 1**
**Grant Cynnal Refeniw 2014/15 – 2015/16**

| | **Cyfanswm Awdurdodau Cymru** | **Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|
| *Grant y Llywodraeth 2014/15 | £4,270,160,526 | £175,270,718 |
| Grant y Llywodraeth 2015/16 | £4,124,709,257 | £168,311,989 |
| Lleihad £ | £145,451,269 | £6,958,729 |
| Lleihad % | 3.4% | 4.0% |

* addaswyd y ffigwr i gymryd y trosglwyddiadau i mewn i'r setliad i ystyriaeth

2.2 Fe welir o'r tabl uchod fod Cyngor Gwynedd yn wynebu colled grant o bron iawn £7m yn y flwyddyn nesaf sy'n ostyngiad o 4%, gyda'r cyfartaledd ar draws Cymru yn ostyngiad o 3.4%.

2.3 Un o'r rhesymau am y gostyngiad uwch na'r cyfartaledd yw fod y ffactorau sy'n bwydo'r fformiwla dyrannu adnoddau yn parhau i fynd yn ein herbyn (lleihad mewn nifer disgyblion, nifer hawlwyr cymorth incwm dan 65 oed, ayb).

3 **GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2015/16**

3.1 Nodir isod yn nhabl 2 y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen ar gyfer 2015/16.

**Tabl 2**
**Cyllideb 2014/15**

| | **£'000** |
|---|---|
| **Cyllideb Sylfaenol 2014/15** | **231,620** |
| Chwyddiant cyflogau | 1,957 |
| Chwyddiant arall | 844 |
| Praeseptau | (31) |
| Incrementau | 39 |
| Pensiynau | 166 |
| Pensiynau Athrawon | 521 |
| Llog ar falansau | (183) |
| Costau Benthyca | (67) |
| Demograffi | 294 |
| Amrywiol | 163 |
| Addasiadau cyllidebau incwm | 232 |
| Trosglwyddiadau i'r setliad | 313 |
| Pwysau ar wasanaethau | 876 |
| **Cyfanswm gofynion** | **236,820** |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2014/15** – Er mai £232m yw gwariant net 2014/15, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £370m oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau gwerth £87m ac yn codi bron i £51m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau** – Yn groes i'r arfer eleni, mae'r ffigwr (cynnydd tua 1%) y bydd ei angen ar gyfer chwyddiant tâl 2015/16 eisoes yn hysbys i ni.

3.4 **Chwyddiant arall** - Mae'r ffigwr yma yn cynrychioli darpariaeth ar gyfer chwyddiant cyffredinol o 1.25% ond gan wneud darpariaeth benodol lle tybir fod y gyfradd chwyddiant am fod yn wahanol (e.e. canran negyddol i adlewyrchu'r cwymp ym mhris tanwydd). Mae'r ffigyrau chwyddiant yma'n sylweddol is na'r hyn y bu'n rhaid ei ychwanegu mewn blynyddoedd blaenorol, oherwydd na welwyd y cynnydd mewn rhai ffigyrau chwyddiant eleni a ragdybiwyd wrth baratoi'r gyllideb, sy'n golygu nad oes angen darparu cymaint ar gyfer 2015/16.

3.5 **Incrementau** – Y ffigwr incrementau yw'r cynnydd sy'n deillio o roddi incrementau cyflog i staff, net o drosiant staff.

3.6 **Pensiynau** - Yn dilyn prisiad 2013 o'r Gronfa Bensiwn, mae Actiwari'r Gronfa wedi nodi nad oes angen cynyddu cyfraniadau am 2015/16. Serch hynny, bu newid yn natur y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n golygu fod raid darparu ar gyfer cyfraniad cyflogwr uwch.

3.7 **Pensiynau Athrawon** – Mae Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi y bydd cynnydd sylweddol ac anorfod yn lefel cyfraniadau pensiwn cyflogwr ar gyfer athrawon (cynllun pensiwn cenedlaethol ar wahân i staff eraill). O Fedi 2015 bydd cyfraniad y cyflogwr yn codi o 14.1% i 16.4%.

3.8 **Llog ar Falansau -** erbyn hyn disgwylir cynnydd ymylol iawn mewn cyfraddau llog, ond maent yn parhau i fod yn hynod o siomedig, ac yn hytrach na benthyca yn allanol, 'rydym yn defnyddio mwy o "fenthyca mewnol" sy'n lleihau'r symiau sydd ar gael i fuddsoddi. Er hynny, byddwn yn derbyn ychydig mwy o log yn 2015/16, a gellid adlewyrchu hynny yn y gyllideb.

3.9 **Costau benthyca** – 'rydym am dalu ychydig llai o gostau benthyca yn y flwyddyn nesaf wrth beidio cymryd benthyciadau newydd a "benthyca mewnol".

3.10 **Demograffi** – Erbyn 2015/16, 'rydym yn cydnabod nifer uwch yr henoed y byddem yn disgwyl darparu gwasanaeth ar eu cyfer, oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio, a'r cynnydd perthnasol mewn galw am ofal. Bydd rhaid ychwanegu £460,000 at gyllideb y Gwasanaeth Oedolion i gydnabod y niferoedd uwch.

Yn erbyn hyn, rhagwelir gostyngiad mewn niferoedd disgyblion yn ein ysgolion uwchradd sy'n arwain at ostyngiad cyllideb yn y sector honno, ynghyd â gostyngiad hefyd mewn achosion yn y Gwasanaeth Plant. Mae hyn yn gostwng cyfanswm y ffigwr net demograffi i £294,000.

3.11 **Amrywiol –** Y ffigwr a ddangosir yma yw'r casgliad o fan faterion sydd angen eu haddasu yn y gwahanol gyllidebau yn cynnwys y nifer dyddiau ysgol yn y flwyddyn ariannol, cynnydd yn y niferoedd o aelodau sy'n dewis bod yn rhan o gronfa bensiwn, a llu o fanion eraill.

3.12 **Addasiadau Cyllidebau Incwm –** Adolygir cyllidebau incwm yn flynyddol i asesu tueddiadau, a bellach fe welwyd fod angen addasu cyllideb incwm Ymgynghoriaeth Gwynedd i adlewyrchu'r ffaith fod yr incwm a ddenir yn lleihau, oherwydd prinder prosiectau cyfalaf yn y sefyllfa economaidd bresennol. Hefyd, mae angen lleihau targed incwm yr Adran Economi, yn dilyn gwarediad nifer o unedau diwydiannol ynghyd â gostyngiad incwm yn y Parciau Gwledig, ac Adnoddau Dynol oherwydd methiant yr Argraffdy i gyrraedd targedau incwm. Bydd y dyraniad ar gyfer yr Argraffdy yn amodol ar asesiad o'r achos busnes diwygiedig. Fodd bynnag, gwelir effaith bositif ar rai cyllidebau incwm eraill i'w osod yn erbyn hyn (Gofal Cartref, wedi codi'r uchafswm statudol ar gyfer cyfraniadau cleientau o £50 i £55 yr wythnos, ac hefyd ffioedd Cynllunio). Nodir yr effaith ar gyllidebau penodol isod, ffigyrau mewn cromfachau yn dangos cynnydd mewn incwm a ffigyrau heb gromfachau yn nodi gostyngiad –

- Ymgynghoriaeth Gwynedd: £175,000
- Economi – Unedau Diwydiannol,ayb: £82,000
- Adnoddau Dynol – Argraffdy: £80,000
- Oedolion – Gofal Cartref: [£75,000]
- Rheoleiddio – Rheolaeth Datblygu: [£30,000]

**3.13 Trosglwyddiadau i'r setliad -** Fel nodwyd uchod mae arian ar gyfer sawl swyddogaeth yn cael ei drosglwyddo i mewn ac allan o'r setliad eleni, fel a ganlyn –

- **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd: £144,090**
  Cynllun i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd lle mae camddefnydd cyffuriau / alcohol gan y rhieni. Mae'r gwasanaeth cyfredol wedi'i ariannu trwy grant penodol ac yn cael ei redeg gan Ynys Môn ar gyfer Gwynedd / Môn ar y cyd, ac mae cytundeb i'w ariannu yn unol â'r swm ddaw yn y setliad. Felly mi fydd angen y £144,090 yn y gyllideb er mwyn talu'r un swm i Ynys Môn.

- **Anhwylder Sbectrwm Awtistig: £40,000**
  Wedi bod yn grant penodol sydd wedi'i ddefnyddio yn y gorffennol i ariannu cynlluniau a gweithgareddau cefnogol ac ataliol, adnoddau arbenigol yn y maes, cefnogaeth ôl ddiagnostig, a hyfforddiant pellach i staff rheng flaen.

- **Cyllid Myfyrwyr Cymru: (£45,000)**
  Cyfrifoldeb am brosesu a gweinyddu ceisiadau cyllid myfyrwyr yn trosglwyddo o awdurdodau lleol i Student Finance Wales (gwasanaeth ar y cyd Llywodraeth Cymru a'r Student Loans Company). Er fod £106,800 yn trosglwyddo allan o'r setliad, nid yw gwariant Cyngor Gwynedd ar y gwasanaeth unrhyw beth tebyg i hynny, dim ond £45,000. Er ei fod o'n groes i'r ffordd "lân" o dynnu (neu adio)'r union symiau sydd yn y setliad a delio efo unrhyw weddill drwy fidiau (neu doriadau), gwneir eithriad yn fan yma oherwydd bod y swyddogaeth gyfan yn trosglwyddo allan ac ni fydd cyllideb ar ôl i dynnu'r gweddill ohono.

- **Rheolaeth Bwyd Anifeiliaid: (£20,550)**
  Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cynnal adolygiad o orfodaeth deddfwriaeth yn ymwneud â Bwyd Anifeiliaid, ac yn benodol y defnydd o arian drosglwyddwyd i awdurdodau lleol yn y setliad ar gyfer hyn dros y blynyddoedd (ar wahanol adegau rhwng 2001/02 a 2007/08). O ganlyniad i hyn, penderfynwyd tynnu cyfran o'r arian yn ôl. Mae'n debyg y caiff yr arian yma ei ail-ddyrannu ar ffurf grant penodol yn y dyfodol (ond ar sail rhanbarthol yn hytrach nag awdurdodau unigol).

- **Gwasanaeth Cofrestru Cenedlaethol: (£10,250)**
  Mae Llywodraeth Cymru yn tynnu arian allan o'r setliad er mwyn ariannu sefydlu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol newydd, fydd yn cael ei dalu drwy'r WLGA fel corff penodol. Felly, rhaid cwtogi y gyllideb Mabwysiadu yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

- **Cynllun Benthyca Ysgolion yr 21ain Ganrif: £211,920**
  Ar ben y trosglwyddiadau yma mae Llywodraeth Cymru yn datgan fod yna £211,920 yn y setliad i dalu am gynllun benthyca ar gyfer gwella ysgolion (yr 21ain Ganrif). Er nad yw hwn yn drosglwyddiad i'r setliad yng ngwir ystyr y gair, mae'n gyllideb mae'n rhaid i ni ei wario at ddibenion penodol, felly 'rwyf wedi ei gynnwys dan y pennawd yma.

3.14 **Pwysau ar Wasanaethau -**

**Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £876,000 gan Adrannau'r Cyngor am adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.**

Mae pob Adran yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. ***Nid ar gyfer datblygiadau newydd y mae'r pennawd, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.***

**Rhoddir manylion yr hyn a argymhellir yn Atodiad 1.**

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant eleni. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau a ninnau'n gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau (ar ben y gostyngiad yn ein grant).

Mae'r eitemau yma wedi cael eu herio gan y Tîm Rheoli Corfforaethol cyn eu hargymell. Mae'r cyfanswm a argymhellir eleni yn sylweddol is na'r hyn a welwyd yn hanesyddol.

Hefyd yn Atodiad 1, crybwyllir fod angen cymeradwyo "bidiau" gwerth £373,000 ar sail un-tro er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Gellir ariannu hwn trwy ddyrannu'r cyfan o'r gyllideb wrth gefn a gedwir i'r perwyl hyn.

3.15 **Polisi Cyflogau**

Mae yna ystyriaeth yn cael ei roddi ar hyn o bryd i gyflogau gweithwyr y Cyngor sydd ar yr hicyn isaf, er mwyn parhau i gyfarch y galw am gyflog byw i'r rhai ar yr hicynau hynny. Bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad ar hyn ar 19 Chwefror.

Os bwriedir gweithredu yn unol â'r argymhelliad, bydd darpariaeth ar ei gyfer wedi'i neilltuo drwy ddefnyddio elfen o arbedion uwch reolaeth y Cyngor er mwyn talu am hyn heb gynyddu'r Dreth Cyngor.

## 4 YSGOLION

4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi gwarchod grant Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau gostyngiad llai na gweddill y gwasanaethau yng nghyllidebau ysgolion. Y rhagdybiaeth yw mae'n debyg y byddem wedi gweld gostyngiad uwch na'r 4% pe na fyddent wedi rhoi'r warchodaeth yma i ni.

4.2 Hyd yma, ein hymagwedd ni tuag at hyn yw parhau i gynllunio ar sail yr hyn y byddai'r Cyngor yn dymuno ei wneud ar gyfer ysgolion gan fesur hynny wedyn yn erbyn bwriad Llywodraeth Cymru ac ystyried a oes angen addasu unrhyw beth er mwyn cydymffurfio a'r addewid.

4.3 Eleni mae'r rheol yma yn golygu fod angen sicrhau fod ysgolion yn cael cynnydd arian o +0.6%. Fel y nodwyd y llynedd, mae hyn yn codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn â pha mor rhesymegol yw hi i'r Cyngor barhau i wireddu dymuniad Llywodraeth Cymru pan fyddwn yn gorfod torri ar wasanaethau eraill er mwyn talu amdano. Ni wyddom wrth gwrs beth fyddai effaith peidio â gwireddu'r dymuniad o ran ymateb Llywodraeth Cymru na'r ysgolion.

4.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhagnodi "addewid" cyllido sy'n sicrhau y bydd ysgolion yn derbyn cynnydd yn eu cyllideb sydd 1% yn fwy na'r hyn y mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi ei dderbyn (h.y. cyllidebau ysgolion i gynyddu 0.6% yn 2015/16). Yr hyn sy'n cymhlethu pethau yw bod ysgolion am dderbyn cynnydd £521,000 am gyfraniadau pensiwn uwch i athrawon, fydd yn cyfrif tuag at y cynnydd o 0.6%, ynghyd â chwyddiant o £532,000 fydd, ymysg materion eraill fel cyfraniad refeniw £446,000 tuag at gostau adeiladu ysgolion y 21$^{ain}$ Ganrif, yn fwy na bodloni'r "addewid".

4.5 Mae trafodaethau'r Gweithgor wedi cyrraedd casgliad i gwtogi'r gyllideb o Fedi 2015 (blwyddyn ysgol), ac i gynhaeafu arbedion mwy cynaliadwy o drefniadaeth, ond yn hwyrach yn y cyfnod 2015/16 - 2017/18.

4.6 Drwy weithredu yn yr un modd ac mae sawl awdurdod arall wedi gwneud yn 2014/15, byddai modd sicrhau £952,000 o arbedion o'r gyllideb ysgolion a chadw o fewn cyfyngiadau'r "addewid".

4.7 Cofier hefyd bydd y gyllideb ysgolion yn wynebu'r addasiadau arferol sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion, gyda rhai ysgolion yn elwa a rhai yn colli, ynghyd â lleihad mewn grantiau a roddir yn uniongyrchol i'r ysgolion gan Lywodraeth Cymru, a pwysau oherwydd cynnydd mewn disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nodaf bydd y sector Uwchradd yn dioddef gostyngiadau yn y grant ôl 16 a'r grant rhwydwaith 14-19, yn ogystal â lleihad mewn dyraniad yn deillio o niferoedd disgyblion (demograffi).

4.8 Yng nghyswllt y Strategaeth Ariannol a'r targed arbedion ar gyfer ysgolion, ddaru'r Cabinet 07/10/2014 benderfynu:

> "Gosod targed arbedion o £4.3m ar gyfer ysgolion i'w gyflawni dros y tair blynedd nesaf, gan ofyn i'r Aelod Cabinet dros Addysg arwain darn o waith drwy gydweithio gyda'r Fforwm Cyllido Ysgolion i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwireddu'r targed hwnnw."

Aeth gweithgor, yn cynnwys penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion, ati i gyflwyno'r gwaith hwnnw, gyda'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Aelod Cabinet Adnoddau yn annog nhw i arddangos sut orau i ddarganfod £4.3m dros 2015/16 – 2017/18 gyda'r ardrawiad isaf ar gyraeddiadau addysgol disgyblion.

4.9 Gosodaf isod amlinelliad o gasgliadau'r Gweithgor a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar balansau cyllideb gellid gwtogi ar gyfer 2015/16, a rhaniad posibl o'r £4.3m dros y tair blynedd, sydd i'w drafod eto.

| Cyllideb Datganoledig Ysgolion: cynigion y Gweithgor / Fforwm | Arbediad Blwyddyn Gyllidol 2015/16 £ | Cyfanswm 2015/16 – 2018/19 £ |
|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | | |
| Ynni | 200,000 | 200,000 |
| Trefniadaeth - cynlluniau ar y gweill 2018/19 | 0 | 345,000 |
| Trefniadaeth - cynlluniau posib pellach | 0 | 198,000 |
| Prydau Ysgol - cynyddu pris cinio o £2.05 i £2.30 (gan gynnwys 10 ceiniog tuag at chwyddiant) Medi 2015 £2.20, Medi 2016 £2.30 | 40,833 | 105,000 |
| Glanhau – targed arbedion 6% | 15,167 | 52,000 |
| Gwanio'r gymhareb disgybl : athro ar sail "Model B" | 60,131 | 1,684,032 |
| Ysgolion Uwchradd | | |
| Ynni | 150,000 | 150,000 |
| Trefniadaeth – cynlluniau posib | 0 | 0 |
| Prydau Ysgol | 36,458 | 94,000 |
| Glanhau - targed arbedion 6% | 14,000 | 48,000 |
| Gwanio'r gymhareb disgybl : athro ar sail "Model B" | 25,771 | 721,728 |
| Ysgolion Arbennig | 0 | 0 |
| Cynllun Brecwast am ddim (Cynradd) | 29,167 | 50,000 |
| Cwricwlwm Amgen (Uwchradd) | 82,968 | 142,230 |
| Codi Safonau CA3 (Uwchradd) | 112,163 | 192,280 |
| Cronfa Maint Dosbarthiadau Mawr CA2 (Cynradd) | 185,343 | 317,730 |
| CYFANSWM | 952,000 | 4,300,000 |

4.10 Ynglŷn a'r elfen o'r arbedion sydd i ddod o'r dyraniad staff dysgu'r ysgolion ("gwanio'r gymhareb disgybl:athro") dros 2015/16 – 2017/18:

- roedd penaethiaid ysgolion cynradd yn ffafrio "Model A" fyddai'n gwtogiad £1,406,480 i ddyraniad staff dysgu y sector gynradd (gyda rhaniad tua 1:1 rhwng y sectorau), tra
- roedd penaethiaid ysgolion uwchradd yn ffafrio "Model C" fyddai'n gwtogiad £458,020 i ddyraniad staff dysgu y sector uwchradd (gyda rhaniad tua 4:1 rhwng y sectorau).

Roedd y ddau sector yn mynegi pryder am effaith addysgol unrhyw gwtogiad uwchben hynny i'w dyraniadau.

4.11 Nid oedd cytundeb terfynol rhwng y sectorau ar unrhyw "Fodel" (A, B, nac C, fel y'i cyflwynwyd) ar gyfer yr elfen staff dysgu yn y tymor canolig (2016/17 – 2017/18), a byddai cyfanswm "Model A" ar gyfer y sector gynradd a "Model C" ar gyfer y sector uwchradd yn gadael y Gweithgor £541,260 yn fyr o'r targed arbedion o £4.3m ar gyfer ysgolion. Felly, cytunwyd dylai'r Gweithgor barhau i adolygu gwasanaethau a threfniadaeth addysg er mwyn canfod gweddill y targed arbedion, ac **argymhellir i'r Cabinet barhau i ofyn sut fyddai orau i wireddu'r £4.3m cyfan.**

4.12 Ar gyfer 2015/16, nodwyd pe bai modd cyfyngu'r arbedion ar gyfer ysgolion i'r £952,000 crybwyllir uchod, roedd cytundeb yn y Fforwm Cyllido Ysgolion i'r Cyngor ymarfer disgresiwn am y tro ar sail cyfaddawd o fewn yr uchafsymiau sydd yn 4.9 uchod. Felly, **argymhellir i'r Cabinet weithredu yn unol a "Model B" (sydd gyda rhaniad tua 2.3:1 o'r arbedion staff dysgu rhwng y sectorau) yn 2015/16. Byddai hynny yn cwtogi £60,131 o ddyraniad staff dysgu y sector gynradd, a chwtogi £25,771 o ddyraniad staff dysgu y sector uwchradd.**

4.13 Byddai'r £60,131 yn y sector Gynradd yn gwanio'r gymhareb disgybl : athro o'r 20.58:1 presennol i 20.63:1, a'r effaith ar gyllidebau ysgolion yn amrediad o ddim toriad i £2,300.

4.14 Byddai'r £25,771 yn y sector Uwchradd yn gwanio'r gymhareb disgybl : athro cyfartalog o'r 15.99:1 presennol i 16.01:1, a'r effaith ar gyllidebau ysgolion yn amrediad o ddim toriad i £4,200.

## 5 CRYNODEB O SEFYLLFA 2015/16

5.1 Fe welir o'r uchod felly fod anghenion gwario'r Cyngor ar gyfer 2015/16 yn £236.82m (cynnydd o 2.1%) a byddwn yn derbyn grant o £168.31m oddi wrth Lywodraeth Cymru (gostyngiad o 4%).

5.2 Ers ein rhagdybiaethau am 2015/16 yn Chwefror 2014, mae ein ffigyrau wedi'u haddasu am setliad anffafriol Llywodraeth Cymru (£2.7m), sydd wedi'i wrthbwyso gan lefel is o chwyddiant (£1.6m) yn bennaf, a ffactorau eraill (£1.1m net).

5.3 Disgwylir i'r incwm o'r Dreth Cyngor fod rhwng £57.31m (gyda chynnydd 3.5%) a £58.14m (cynnydd 5%), felly rydym yn wynebu diffyg rhwng £11.20m (ar 3.5%) a £10.36m (ar 5%) yn 2015/16.

## 6 DYGYMOD GYDA'R BWLCH YN 2015/16

6.1 Yn ei strategaeth tymor-canolig, mae'r Cyngor wedi sefydlu cyllideb gytbwys ar gyfer 2014/15 er mwyn prynu'r amser angenrheidiol i ni lunio rhaglen o arbedion ystyrlon a synhwyrol i'w gweithredu mor fuan â phosibl.

6.2 Roedd cyllideb 2014/15 yn cynnwys defnyddio £1.7m o falansau cyffredinol y Cyngor un-tro er mwyn pontio a chaniatau amser i flaenoriaethu yn gynhwysol.

6.3 Ers hynny, bu cynnydd boddhaol gyda'r rhaglen arbedion effeithiolrwydd, sydd yn golygu bydd modd galw ar arbedion o £6.5m sydd eisoes ar y gweill er mwyn cyfarch y bwlch ariannol.

6.4 Mae Adolygiad Strategol o'r maes Priffyrdd hefyd yn rhoi cyfle i gyfrannu tuag at gau'r bwlch yn 2015/16. Er y bydd rhaid aros i'r Cabinet ystyried yr adroddiad ar yr adolygiad cyn dod i gasgliad terfynol, at ddibenion cynllunio ariannol, amcangyfrifir byddwn yn gallu gwneud arbediad o £550,000 fel swm ychwanegol i'r arbedion £6.5m.

6.5 Hefyd, rydym yn rhagweld y bydd yna arbedion ar gael yn 2015/16 trwy gyflawni arbedion gwerth £305,000 o doriadau cynnar mewn rhai gwasanaethau cefnogol a chyllidebau corfforaethol.

6.6 O ran gweddill yr arbedion hanesyddol sydd i'w chyflawni yn 2015/16 (prosiectau o'r rhaglen £16m a'r Strategaeth 1%), dengys y dadansoddiad diweddaraf fod "hen" brosiectau wedi'u cynllunio i arbed £614,210 yn ystod 2015/16, ond bydd angen addasu'r targed gwreiddiol ar gyfer sawl cynllun, gan ostwng y cyfanswm £336,040 fel adroddwyd i'r Panel Cyflawni Arbedion. Mae addasiadau fel hyn yn anorfod, wrth gwrs, wrth gyflawni cymaint o arbedion heriol, ac roedd y £336,040 oherwydd bod y prosiectau corfforaethol canlynol wedi disgyn rhywfaint yn fyr o dargedau sylweddol uwch:

- VOIP £118,550
- RAISE £116,300
- e-Gaffael £11,580
- Bwlch gweddilliol £89,610

6.7 O gyfrifo'r holl faterion uchod felly, gan gynnwys arbedion £952,000 o'r ysgolion, bydd arbedion yn cyfarch £8.63m o'r bwlch sy'n codi yn 2015/16, gan adael £2.57m ar ôl i'w ddarganfod pe bawn yn cynyddu'r Dreth Cyngor 3.5%.

## 7 Y DRETH GYNGOR

7.1 Yn wyneb y bwlch yma, y penderfyniad allweddol sydd angen ei wneud yn sgil yr ystyriaethau uchod yw sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor i'w argymell i'r Cyngor ar gyfer 2015/16.

7.2 Yn y tybiaethau a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig hyd yma, fe ddefnyddiwyd ffigwr o 3.5%, ar sail y cynnydd cyfartalog yng Nghymru, ond mae'r cyfartaledd hwnnw'n cynyddu rwan.

7.3 Yr allwedd i hyn oll, wrth gwrs, yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas a'r cynnydd sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.

7.4 Byddai 3.5% yn cynhyrchu £1.94m o incwm ychwanegol tuag at y bwlch, a bydda'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £38.89 i eiddo mewn Band D neu ychydig o dan 75c yr wythnos (byddai'r dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs). Mae ychydig dros 17% o dai yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D.

7.5 Byddai pob 0.1% uwchben 3.5% yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £55,370 (ac felly byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol £276,854 a 1% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o £553,707).

7.6 Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru ers 2008/09:

| Blwyddyn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm 2008-15** | **28.6%** | **25.2%** |
| 2014/15 | 3.9% | 4.2% |
| 2013/14 | 3.5% | 3.1% |
| 2012/13 | 3.5% | 1.9% |
| 2011/12 | 3.9% | 3.1% |
| 2010/11 | 3.9% | 3.7% |
| 2009/10 | 3.9% | 3.9% |
| 2008/09 | 3.8% | 3.7% |

7.7 Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2015/16, ond y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw mai dim ond dau o gynghorau sy'n cynllunio i gynyddu llai na 3.75% gyda 12 o gynghorau yn ystyried cynnydd o 4.5% neu uwch.

7.8 O hynny o wybodaeth sydd gan y Pennaeth Cyllid o ran sgyrsiau a gafwyd gyda swyddogion mewn cynghorau eraill, mae'n amcangyfrif y bydd y cyfartaledd ar draws Cymru o gwmpas tua 4.3%, tra bydd y canolrif yn uwch na 4.5%. Felly, ystyriaf fod 4.5% yn rhesymol fel cam tuag at y bwlch enfawr yr ydym yn ei wynebu.

7.9 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol.

7.10 O gadw at y rhagdybiaeth a wnaed y llynedd wrth sefydlu'r strategaeth ariannol bresennol felly a chynyddu lefel Treth Cyngor 3.5%, byddai hyn yn gadael bwlch o £2.57m ar ôl i'w ddarganfod. Yr unig ffordd o'i ddarganfod fyddai cael mwy o arbedion, a gan fod y Cyngor eisoes am uchafu'r arbedion o effeithlonrwydd, byddai raid darganfod y balans yma o dorri cyllidebau gwasanaethau yn 2016/17.

7.11 Ni fyddai'r arbedion yma ar gael ar 1 Ebrill 2015. Felly, byddai'n rhaid dibynnu ar falansau i bontio'r cyfnod hyd nes y bydd y penderfyniadau i weithredu toriadau o Ebrill 2016.

7.12 Byddai cyfarch y bwlch yn gyfan gwbl drwy'r Dreth Cyngor yn golygu cynnydd dros 24% sydd yn amlwg uwchben hicyn rhesymol.

7.13 Felly, dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r amrediad isod o ddewisiadau:

| Cynnydd Treth Cyngor % | Cynnydd wythnosol £ | Cynnydd blynyddol £ | Treth Cyngor 2015/16 | Toriadau yn 2016/17 / defnyddio Balansau yn 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| 3.50% | £0.75 | £38.89 | £1,149.96 | £2,572,389 |
| 4.00% | £0.85 | £44.44 | £1,155.51 | £2,295,536 |
| 4.50% | £0.96 | £50.00 | £1,161.07 | £2,018,682 |
| 5.00% | £1.07 | £55.55 | £1,166.62 | £1,741,829 |

## 8 BALANSAU

8.1 Rhagwelir y bydd gennym falansau cyffredinol o £7m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 2.2% o wariant refeniw gros y Cyngor.

8.2 'Rydym wedi nodi ar fwy nag un achlysur oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gydag unrhyw broblemau allasai godi.

8.3 Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma. Yn wir, yn absenoldeb unrhyw ddatganiad gan Llywodraeth Cymru am grantiau i'r dyfodol, mae'r risg wedi cynyddu. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol yn fwy perthnasol.

8.4 Fodd bynnag yn wyneb y bwlch ariannol fyddai gennym, ac er mwyn cael amser i ystyried er mwyn blaenoriaethu'r toriadau mewn modd cynhwysol, argymhellir ein bod yn defnyddio rhwng £1.7m a £2.6m o falansau cyffredinol i bontio hyd nes y bydd modd darganfod gweddill yr arbedion angenrheidiol yn 2016/17.

8.5 Mae gennym nifer o reserfau penodol a sefydlwyd gan y Cyngor sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol sydd gan y Cyngor. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor wrth gwrs. Er mwyn sicrhau fod pob aelod o'r Cyngor yn ymwybodol ohonynt, atodir dadansoddiad yn Atodiad 2.

8.6 Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, wrth gwrs, ac wedi ystyried faint o le sydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma, gan nodi lle nad ydym am gyflawni rhai bwriadau gwreiddiol, a symud unrhyw adnoddau a ryddheir i gwrdd â'r anghenion am adnodd i ariannu taliadau diswyddo.

8.7 Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (cyhoeddwyd 27 Ionawr 2014), mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgan (ym mharagraff 1.8):

> "Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar

rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."

8.8 Felly, dylid osgoi gwario'r balansau cyffredinol (cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy) yn "rheolaidd" i ymdrin â diffyg yn y gyllideb. Fodd bynnag, cyn belled ag y bydd Cyngor Gwynedd yn cymryd ei benderfyniadau anodd yn ystod 2015 er mwyn cyrraedd cyflwr cynaliadwy yn y tymor canolig, yna bydd y defnydd arfaethedig o gyfran o'r balansau cyffredinol yn ystod 2015/16 yn arfer dda.

## 9 CYFALAF

9.1 Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau.

9.2 Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau yn cynnwys elfen sylweddol o fenthyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), rwyf wedi cynnal adolygiad ysgafn o'r Strategaeth Asedau.

9.3 O ganlyniad, rwyf wedi addasu ychydig ar yr hyn a gytunwyd y llynedd er mwyn adlewyrchu rhai newidiadau angenrheidiol sy'n codi, oherwydd newid yn y proffil arfaethedig ar gyfer cynlluniau unigol. Manylir ar rhain yn Atodiad 3 sy'n nodi'r newidiadau arfaethedig.

9.4 Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

**Tabl 3**
**Ariannu rhaglen gyfalaf 2015/16 – 2016/17**

| | **2015/16** | **2016/17** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Gofynion Cyfalaf** | **19,179** | **21,270** |
| | | |
| **I'w ariannu drwy:** | | |
| Darpariaeth cyfalaf yn y setliad | 6,637 | 6,637 |
| Grant tuag at ysgolion | 5,503 | 5,514 |
| Derbyniadau cyfalaf | 930 | 230 |
| Cyfraniad o refeniw | 3,860 | 1,245 |
| Benthyca darbodus | 2,249 | 7,644 |
| **Cyfanswm ariannu** | **19,179** | **21,270** |

**9.5** Un agwedd o'r cynigion cyllido yw lefel y gwariant cyfalaf sydd yn parhau i gael ei ariannu o'i gymharu gyda'r gefnogaeth benodol a ddarperir yn y setliad. Mae hyn yn dangos y budd o gael cynllun hir dymor drwy'r strategaeth asedau sy'n caniatáu i ni lunio rhaglen hir dymor a cheisio uchafu'r budd a geir o fuddsoddiad cyfalaf y gellir ei wneud o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

## B) STRATEGAETH ARIANNOL TAIR BLYNEDD 2015/16 - 2017/18

## 10 CYNLLUN I DDYGYMOD Â'R BWLCH ARIANNOL 2015/16 - 2017/18

10.1 Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen llaw gan fod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed, a hyn mewn gwirionedd sy'n golygu ein bod yn medru prynu ychydig o amser er mwyn penderfynu lle yw'r mannau gorau i fod yn cyflawni arbedion er mwyn sicrhau'r ardrawiad lleiaf posibl ar bobl Gwynedd. Nid pob Cyngor sydd mewn sefyllfa i fedru gwneud hyn.

10.2 Fe nodwyd ymarferion Cyngor Gwynedd fel enghraifft o ymarfer da mewn adroddiad cenedlaethol ar gynllunio ariannol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru.

10.3 Er mwyn parhau ar y trywydd yma, ar ben sefydlu cyllideb 2015/16, gwnaed ymdrech i daflunio sefyllfa ariannol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol hefyd, fel ein bod yn gallu gosod sefyllfa 2015/16 yn ei gyd-destun ehangach a chynllunio sut yr ydym am fedru cwrdd â'r sialens o'n blaenau.

10.4 Y ffigwr sydd fwyaf ansicr yw'r ffigwr grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o 2016/17 ymlaen. Gan fod y grant yn cynrychioli tua 75% o incwm y Cyngor, yn amlwg mae'r ffigwr yma yn allweddol i'r tafluniadau. Gwyddom o ddatganiadau'r Canghellor a datganiadau a wnaed gan Weinidogion yn Llywodraeth Cymru fod dyfodol heriol o flaen Llywodraeth Leol yng Nghymru.

10.5 Mae'r strategaeth ar gyfer y dair blynedd i ddod yn gosod darlun realistig o'r hyn allasai ein taro, ond nid yw'r tybiaethau a ddefnyddiwyd na'r casgliadau wedi newid ers y tafluniad cyflwynwyd yn Chwefror a Medi 2014.

10.6 Nodir yn y tabl isod canlyniadau'r tafluniadau a wnaed, gan nodi'r arbedion hynny sydd eisoes yn cael eu cynllunio a'u gwireddu:

**Tabl 4**
**Tafluniad cynllunio ariannol ar gyfer y 3 blynedd 2015/16 – 2017/18**

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m |
| Gofynion Gwario ychwanegol | 6.4 | 6.1 | 10.2 | 6.7 | 29.4 |
| Colled (cynnydd) grant | 6.7 | 7.1 | 3.5 | 6.1 | 23.4 |
| Y Bwlch | 13.1 | 13.2 | 13.7 | 12.8 | 52.8 |
| Treth Cyngor | -2.7 | -2.5 | -1.9 | -2.0 | -9.1 |
| Diffyg Cynlluniedig | 10.4 | 10.7 | 11.8 | 10.8 | 43.7 |
| Hen Gynlluniau Arbedion | -8.6 | -0.5 | -0.2 | 0.0 | -9.3 |
| Cynlluniau Arbedion newydd | 0.0 | -8.2 | -2.7 | -3.8 | -14.7 |
| I'w ddarganfod / defnydd balansau | 1.8 | 2.0 | 8.9 | 7.0 | 19.7 |
| | | | | | 34.4 |

10.7 Adroddwyd flwyddyn yn ôl y gallasem fod yn wynebu bwlch ariannol o dros £51m dros y cyfnod 4 blynedd 2014/15 – 2017/18 gyda thafluniadau gostyngiadau grant yn gyfrifol am £20m o'r swm yma. Erbyn hyn, disgwylir colled grant dros £2.3m, felly mae'r bwlch wedi tyfu i tua £53m.

10.8 Pe byddai'r Cyngor yn fodlon cynyddu'r Dreth Cyngor 4.5% yn 2015/16 a 3.5% yn 2016/17 a 2017/18, gyda'r camau y bwriedir eu cymryd ynghyd â'r arbedion sydd eisoes yn cael eu gwireddu, byddai hyn dal yn golygu ein bod angen edrych am arbedion ychwanegol cyfwerth â thua £34m yn y tair blynedd o 2015/16 ymlaen.

10.9 Ar sail cynllunio y byddwn dal angen darganfod tua £34m dros y dair blynedd felly. Yn ystod 2015, wrth flaenoriaethu toriadau, bydd angen dod i gasgliad ar y cynnydd tybiedig yn y Dreth Gyngor am y blynyddoedd i ddod. A ydym am gadw at ein strategaeth o gynyddu'r Dreth Gyngor 3.5%, ynteu a ydym am ei gynyddu ymhellach yn wyneb goblygiadau darganfod bwlch ariannol mor enfawr ar ein gwasanaethau?

10.10 Rydym eisoes wedi gofyn i ysgolion ysgwyddo gwerth £4.3m o'r bwlch ac wrthi'n uchafu'r arbedion effeithlonrwydd gallwn eu darganfod, ond am orfod disgyn yn ôl ar doriadau fel y cam olaf (er mwyn sicrhau'r effaith lleiaf ar bobl Gwynedd).

**Tabl 5**
**Dygymod a bwlch o £34m**
**Senarios Posibl 2015/16 – 2017/18**

| | **Effeithlonrwydd eisoes wedi'i gymeradwyo** | **Effeithlonrwydd ychwanegol** | **Cadw pob opsiwn yn agored** |
|---|---|---|---|
| **Treth Cyngor** | - | - | £2m |
| **Ysgolion** | £1m | £4m | £4m |
| **Effeithlonrwydd** | £13m | £17m | £17m |
| **Toriadau** | £20m | £13m | £11m |
| | £34m | £34m | £34m |

10.11 Argymhellir felly ar hyn o bryd y dylid parhau i gadw'r holl opsiynau ar agor a gweithredu tu fewn i'r fframwaith canlynol:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Cyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor o fewn amrediad 3.5% - 5% |
| Y Gyllideb Ysgolion | Rhoddi targed £4.3m i'r gyllideb ysgolion |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau | Ffigwr fydd ar ôl |

10.12 Wrth bontio diffyg 2015/16 o'r balansau, bydd rhaid i ni sicrhau ein bod yn symud ymlaen yn 2015 i sefydlu blaenoriaethau gan fydd angen disgyn yn ôl ar doriadau mewn blynyddoedd dilynol.

10.13 Dylem ymfalchïo yn y ffaith fod trefniadau cynllunio ymlaen llaw'r Cyngor yn golygu nad ydym eto yn gorfod wynebu toriadau - sefyllfa nad yw'n wir ymhob Cyngor, ond rhaid wynebu'r ffaith y byddwn yn wynebu hynny yn y tymor canol, yn enwedig os yw grant llywodraeth leol yn parhau i ostwng.

10.14 Felly, bydd angen i'r Cabinet fanteisio ar gyfleon sy'n codi yn y cyfamser i wireddu arbedion, megis y "toriadau cynnar" crybwyllir uchod, yr Adolygiad Strategol Prifyrdd, a.y.b.

## 11 ASESIAD EFFAITH O SAFBWYNT CYDRADDOLDEB

11.1 Mae'r gyllideb a amlinellir uchod yn ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan nad yw'r cynnydd yn ein hincwm yn ddigonol i gwrdd â chostau chwyddiant hyd yn oed, mae'n rhaid edrych am arbedion.

11.2 Yn y maes arbedion felly mae'r risg uchaf o ran y posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eisoes wedi adnabod y risg yma ac ers 2010 wedi atgoffa awdurdodau lleol o'u dyletswydd i asesu effaith eu penderfyniadau ariannol.

11.3 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer asesu effaith cydraddoldeb ar benderfyniadau ariannol mewn cydweithrediad a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac awdurdodau lleol eraill, a hynny drwy rannu ymarfer da ac adnabod camau effeithiol i'r dyfodol.

11.4 Ein nod yw sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Wrth asesu, byddwn yn ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau ein gallu.

11.5 Wrth gynllunio ein cyllidebau, rhoddir ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol, ac yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol. Casglwyd data a thystiolaeth eisoes ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a byddwn yn parhau i adeiladu ar yr wybodaeth yma drwy ddadansoddi data newydd (megis canlyniadau Cyfrifiad 2011), monitro gwasanaethau ac ymgysylltu.

11.6 Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod unrhyw arbedion sydd eu hangen sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith unrhyw arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Byddwn yn dadansoddi pob cynnig unigol, gan nodi os oes angen i'r adran gynnal asesiad effaith wrth ddatblygu'r prosiect. Yn unol â chais y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, byddwn yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar y broses yma ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan.

11.7 Yr un eithriad i hyn yw'r arbedion Ysgolion. Oherwydd amseriad diweddar cyflwyno'r cynigion, byddwn yn adrodd ar lafar ar hyn yn y cyfarfod.

11.8 Nid ceisio cwrdd â chostau chwyddiant yn unig y mae'r gyllideb uchod wrth gwrs, mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau a.y.b., hefyd yn cael eu cyfarch.

11.9 Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod angen sicrhau cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir.

11.10 Fe geir manylion llawn yn Atodiad 1 ac fe welir fod yna £658,000 o'r cyfanswm £876,000 yn mynd i faes gofal cymdeithasol, a hynny ar ben yr £460,000 arian demograffi a ddarperir er mwyn cydnabod yr angen i ddarparu ar gyfer niferoedd uwch yn y maes.

## 12 CASGLIADAU

12.1 Mae'r adroddiad yma yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2015/16 ac yn cadarnhau dylid parhau gyda'r strategaeth ar gyfer dygymod a'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor am y dair blynedd i ddod.

## CYLLIDEB 2015/16

12.2 Argymhellir fod angen cyfarch angen gwario refeniw o £236.82m sydd yn cynnwys darparu £876,000 ar gyfer pwysau ar wasanaethau.

12.3 Darperir hefyd ar gyfer pwysau un-tro o £373,000 drwy briodoli'r cyfan o'r gyllideb wrth gefn i'r perwyl.

12.4 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £168.31m a gydag incwm Treth Cyngor heb ei gynyddu o gwbl o £55.37m bydd hyn yn gadael bwlch o £13.14m i'w ddarganfod yn 2015/16.

12.5 Bydd modd dygymod a'r bwlch yma drwy gyfuniad o gamau fel a ganlyn:

| Cynnydd Treth Cyngor % | 3.50% | 4.00% | 4.50% | 5.00% |
|---|---|---|---|---|
| Anghenion Gwario 2015/16 | £236,819,647 | £236,819,647 | £236,819,647 | £236,819,647 |
| Llai incwm Grant y Llywodraeth | £168,311,989 | £168,311,989 | £168,311,989 | £168,311,989 |
| Llai incwm Treth Cyngor | £57,308,682 | £57,585,535 | £57,862,389 | £58,139,242 |
| Diffyg | £11,198,976 | £10,922,123 | £10,645,269 | £10,368,416 |
| Arbedion fydd wedi'u cyflawni | £8,626,587 | £8,626,587 | £8,626,587 | £8,626,587 |
| Y balans i'w gwrdd o Falansau | £2,572,389 | £2,295,536 | £2,018,682 | £1,741,829 |

12.6 Gellid pontio'r gweddill o falansau hyd nes y byddwn yn medru blaenoriaethu toriadau i'w gyfarch.

12.7 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net ar ôl defnydd balansau o £228,193,060.

12.8 Rhoddir dadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 4.

12.9 Argymhellir hefyd y dylid sefydlu rhaglen gyfalaf o £19.18m ar gyfer 2015/16 ynghyd a £21.27m ar gyfer 2016/17.

**STRATEGAETH TYMOR HIRACH**

12.10 O ran y sefyllfa dros y dair blynedd nesaf, dylid cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o dros £34m a daflunnir drwy gadw'r holl opsiynau yn agored (gan gynnwys y posibilrwydd o gynyddu'r Dreth Cyngor yn uwch na 3.5% a darganfod arbedion o'r gyllideb ysgolion) a dylid parhau i anelu i ddarganfod mwyafrif y bwlch drwy uchafu'r arbedion effeithlonrwydd gallwn eu gwireddu.

12.11 Dylid sefydlu cyfundrefn gynhwysol ar gyfer blaenoriaethu ymhle y bydd rhaid i ni dorri gwasanaethau.

12.12 Yn y cyfamser, y dylid manteisio ar unrhyw gyfle sy'n codi i wireddu arbedion.

**ATODIAD 1**

**BIDIAU I'W CYMERADWYO AR GYFER 2014/2015**

## A. BIDIAU REFENIW PARHAOL

| Cyf | Cynnwys y Bid | Swm | Argymhelliad | Swm a argymhellir |
|---|---|---|---|---|
| OED 1 | **Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid** Cais yn sgil cynnydd yn y nifer o unigolion sydd angen asesiadau naill ai mewn cartrefi gofal neu yn y gymuned er mwyn awdurdodi'r camau a gymerir i'w diogelu. Y cais yn cynnwys cost cyd drefnydd £48k, cyfreithiwr a chefnogaeth weinyddol £54k, costau cyfreithiol £47k a chostau asesiadau meddygol £37k. | £186,000 | Argymell ariannu'r costau canlynol sef £49k – cyfreithiwr; costau cyfreithiol £47k a £47K costau asesiadau meddygol er mwyn cyfarfod y cynnydd enfawr yn y gofyn am asesiadau. | £133k |
| OED 2 | **Trosglwyddo cyfrifoldeb am wasanaeth ym maes Anabledd Dysgu** Trosglwyddo cyfrifoldeb am 3 pecyn gofal i Wynedd o awdurdodau eraill ar sail 'Ordinary Residence'. | £163,000 | Argymell cymeradwyo'r bid i gyfarfod y cyfrifoldeb. | £163,000 |
| OED 3 | **Oed Trosglwyddo** Ariannu pecynnau gofal i 12 unigolyn sy'n trosglwyddo o'r Gwasanaeth Plant i'r Gwasanaeth Oedolion Anabledd Dysgu | £242,000 | Argymell cymeradwyo'r bid ond dylid gwirio effaith net ar niferoedd plant o fewn gofal yr Adran Plant a Theuluoedd. | £242,000 |
| OED 4 | **Achos Whittlestone** Mae achos llys Whittlestone wedi dyrannu bod unrhyw oriau a dreulir yn 'cysgu i mewn' yn rhan o oriau gwaith wythnosol gweithiwr. Ar sail hyn rhagwelir nad yw'r lwfansau cysgu i mewn a delir ar hyn o bryd yn ddigonol ac amcangyfrifir y gallai hyn fod yn gost ychwanegol o hyd at £688,000. | £688,000 | Tra'n cydnabod bod risg ynghlwm â'r achos llys, nid yw'n glir ar hyn o bryd beth yw'r effaith. Argymell peidio ariannu'r bid gan bod angen mwy o eglurder ar ddatrysiadau posib. | |

| Cyf | Cynnwys y Bid | Swm | Argymhelliad | Swm a argymhellir |
|---|---|---|---|---|
| OED 5 | **Gorwariant ym maes Gofal Cartref** | £526,000 | Argymell cymeradwyo'r swm o £120k sef y diffyg yn dilyn ychwanegu arian demograffi at y gyllideb. | £120,000 |
| SaG 1 | **Swyddog Chwarae Gwynedd a Môn**<br>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i sicrhau cyfleon chwarae digonol i blant. Cyngor Môn eisoes wedi gwrthod ariannu'r swydd. | £28,000 | Argymell peidio ariannu'r bid ond rhaid sicrhau bod y Cyngor yn cyfarfod y gofyn statudol yn y maes. | |
| Cyll 1 | **Datganiadau ariannol ar gyfer cydbwyllgorau ac awdurdodau harbyrau**<br>Ariannu costau ychwanegol y gofyn am archwilio a chefnogi cyfrifeg datganiadau ariannol cyd bwyllgorau ac awdurdodau harbyrau | £33,000 | Argymell gwrthod y bid a nodi y gall y gofyn diddiwedd sydd ar yr Adran Gyllid effeithio ar ansawdd dyletswyddau eraill yn y pen draw. | |
| Cyll 2 | **Cryfhau adnoddau sy'n cefnogi Technoleg Gwybodaeth**<br>Cais i ariannu mwy o gefnogaeth TG i liniaru'r risg i'r Cyngor yn y maes hwn yn sgil y ddibyniaeth i gyflawni dyletswyddau a'r cynnydd sylweddol mewn defnydd. Ers 2003, mae niferoedd y cyfarpar mae'r tîm isadeiledd yn cefnogi wedi cynyddu'n sylweddol, twf 296% mewn cyfrifiaduron, 680% yn fwy o weinyddwyr 'servers', twf 3,200% yn y storfa data, a 280% mwy o sefydliadau'r Cyngor wedi eu cysylltu i'r rhwydwaith ardal eang. Mae'r dechnoleg sy'n cael ei defnyddio yn llawer mwy cymhleth. Mae'r sefyllfa bellach yn argyfyngus a risg gwirioneddol i'r Cyngor o ran cefnogaeth i'r dechnoleg cyfredol, ac yn golygu na ellir cefnogi unrhyw ddatblygiadau pellach yn y maes technoleg. Mae achos busnes yn amlinellu'r newid arfaethedig o ran swyddi. | £335,000 | Argymell cymeradwyo rhan o'r bid £156k yn unig er mwyn dechrau mynd i'r afael â gwytnwch y gwasanaeth a chreu 4 swydd newydd. | £156,000 |

| Cyf | Cynnwys y Bid | Swm | Argymhelliad | Swm a argymhellir |
|---|---|---|---|---|
| Priff 1 | **Llwybrau beics**<br>Glanhau, cynnal thorri gwrychoedd llwybrau beics y Sir | £15,000 | Argymell gwrthod y bid gan mai cynnydd mewn gwasanaeth sydd dan sylw. | |
| Add 1 | **Cynnydd net yng nghostau cludiant disgyblion/myfyrwyr**<br>Mae cytundebau cyfredol Ionawr 2015 (ar sail 188 diwrnod yn y flwyddyn gyllidol 2015/16) yn dangos diffyg net yn y gyllideb tacsi/bws mini o £220k. Ar sail cytundebau bysiau cyfredol, rhagwelir tan wariant o £97k . Effaith net hyn yw cynnydd o £123k ond yn dilyn herio pellach gan yr Uned Gyllid, maint y bid yn gostwng i £62K | £62,000 | Argymell ariannu'r bid i gyfarfod y cynnydd yng nghostau **cludiant** disgyblion/myfyrwyr. | £62,000 |
| **Cyfanswm** | | **£2,278,000** | **Cyfanswm** | **£876,000** |

## B. BIDIAU CYFALAF

| Cyf | Cynnwys y Bid | Swm | Argymhelliad | Swm a argymhellir |
|---|---|---|---|---|
| AD 1 | **Diogelwch tu fewn i safleoedd ysgolion** Cais i ariannu astudiaeth dichonoldeb er mwyn adnabod gwaith angenrheidiol yn Ysgol Dyffryn Nantlle a mân waith cyffredinol. | £60,000 | Argymell gwrthod y bid gan fod camau eisoes mewn lle i gyfarch y risg. | |
| Econ 1 | **Cronfa Datblygu Gwirfoddol** Arian tuag at gefnogi prosiectau cyfalaf gan fudiadau a mentrau cymdeithasol a gwirfoddoli. Rheolir y gyllideb dan frand llwyddiannus Cist Gwynedd. Mae Cist Gwynedd yn cynnwys pecyn o grantiau i gefnogi gweithgareddau cymunedol a gwirfoddol. | £140,000 | Angen trafodaeth bellach yn y Cabinet cyn penderfynu. | £140,000 |
| Econ 2 | **Tomen Y Bala** Cais am arian i ail godi'r wal gynhaliol sydd wedi disgyn mewn mannau ac yn beryglus i'r cyhoedd. Mae angen cadarnhau'r anghenion, datblygu briff, a chael tendrau gan gynnwys paratoi cynlluniau manwl a sicrhau bod hawliau cynllunio yn eu lle. Noder bod Cadw wedi cytuno yn barod ond angen mewnbwn i'r prosiect.<br>Nid oes cyllideb ar gyfer Tomen Y Bala ac mae'n llwyr ddibynnol ar grantiau/cyllid canolog i gwblhau'r gwaith. | £40,000 | Argymell ariannu'r bid er fod y domen ar dir preifat gan mai cyfrifoldeb y Cyngor yw'r wal. | £40,000 |
| **Cyfanswm** | | **£240,000** | **Cyfanswm** | **£180,000** |

## C. BIDIAU AM ARIAN UNWAITH AC AM BYTH

| Cyf | Cynnwys y Bid | Swm | Argymhelliad | Swm a argymhellir |
|---|---|---|---|---|
| SaG | **System Cefnogi Rheoli Perfformiad** Cais i ariannu system rheoli perfformiad newydd i'r Cyngor. Nid yw'r hen system, sef Ffynnon, bellach ar gael am ddim gan Lywodraeth Cymru. | £150,000 | Angen trafodaeth bellach yn y Grŵp Rheoli cyn penderfynu. | £150,000 |
| SaG 2 | **Cynnal e-newyddlen 'Rhaeadr'** Cynnal y datblygiadau newydd i gyfathrebu am waith y Cyngor a'r Cabinet i'r aelodau etholedig rheng flaen sef 'Rhaeadr' | £35,000 | Argymell ariannu'r bid am flwyddyn a chaniatáu amser i'r Gwasanaeth ystyried ffyrdd amgen o ddarparu. | £35,000 |
| Add 1 | **Cludiant Maesgeirchen** Cais am arian i bontio'r gorwariant sy'n deillio o barhau gyda'r trefniadau cludiant presennol hyd nes bod datrysiad amgenach wedi'i ddarganfod. | £120,000 | Argymell ariannu'r bid er mwyn caniatáu amser i'r Adran Rheoleiddio gwblhau'r adolygiad o gludiant cyhoeddus. | £120,000 |
| Add 2 | **Gorwariant ar y Gyllideb Integreiddio** Amcangyfrifir y bydd y gyllideb Integreiddio o £5.8m (sydd yn nwylo ysgolion) yn gorwario oddeutu £750,000 yn 2015-16, gyda'r drefn weithredu bresennol yn gadael unrhyw orwariant yn nwylo'r Adran Addysg. Nid yw Ysgolion wedi derbyn rhagrybudd o'r gorwariant ac mae'n rhy hwyr iddynt weithredu lleihad mewn gwariant ar gyfer gychwyn Tymor yr Haf 2015. Byddai cymeradwyo'r bid yn galluogi ysgolion i gynllunio i leihau gwariant ar gyfer 1 Medi 2015. | £312,000 | Argymell fod yr Adran Addysg yn cyfarfod y gorwariant yn 2015/16 o gyllidebau wrth gefn. | |

| Cyf | Cynnwys y Bid | Swm | Argymhelliad | Swm a argymhellir |
|---|---|---|---|---|
| AD 1 | **Iechyd Galwedigaethol**<br>Cais am flwyddyn i barhau i gyllido swydd i gynnal Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Gwyliadwriaeth Iechyd Statudol ar gyfer staff ar gyfer cyflawni dyletswyddau megis cynnal profion iechyd a lles, prosesu ceisiadau ymddeol ar sail afiechyd a chynnal ymgynghoriadau sylfaenol gyda staff. Mae'r Uned hefyd yn darparu gwyliadwriaeth iechyd statudol ar gyfer carfannau penodol ymysg gweithlu'r Cyngor megis gweithwyr ffyrdd cyflym, gweithwyr ail gylchu a chasglu sbwriel, cynnal tiroedd yn ogystal ag unrhyw weithwyr nos. Arian wrth gefn wedi ariannu'r swydd yn y gorffennol. | £31,000 | Argymell cymeradwyo'r swm o £31k ar gyfer 2015/16 er mwyn caniatáu amser i'r Adran roi trefniadau mewn lle i flaenoriaethu gwaith | £31,000 |
| AD 2 | **Lleoliadau Gwaith *Shaw Trust***<br>Cyfraniad at gyflogau dau unigolyn o fewn y Cyngor am flwyddyn yn unig er mwyn chwilio am ddatrysiad i'r bwlch yn y gyllideb yn dilyn penderfyniad *Shaw Trust* i dynnu cefnogaeth ariannol yn ôl. | £15,000 | Argymell cymeradwyo'r swm o £15k ar gyfer 2015/16 er mwyn caniatáu amser i'r Adran ail edrych ar y polisi ac i adnabod cyfleoedd eraill i ariannu'r swyddi. | £15,000 |
| AD 3 | **Statws swyddi DBS y Cyngor**<br>Cais am arian blwyddyn i barhau i ariannu swydd i weinyddu statws swyddi DBS y Cyngor cyn ail strwythuro trefniadau. | £22,000 | Argymell cymeradwyo'r swm o £22k ar gyfer 2015/16 er mwyn caniatáu amser i'r Adran roi trefniadau newydd ar waith yn dilyn ymarferiad Ffordd Gwynedd. | £22,000 |
| **Cyfanswm** | | **£685,000** | **Cyfanswm** | **£373,000** |

**ATODIAD 2**

## DYFYNIAD O'R CYFRIFON TERFYNOL – RESERFAU PENODOL

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, ynghyd â'r balansau cyffredinol.

| Cyfansymiau Gwynedd £'000 | Categorïau o Reserfau ynghyd ag eglurhad cryno o'r defnydd ohonynt |
|---|---|
| **3,777** | Reserfau Ysgolion – yn gyfan gwbl o dan reolaeth leol cyrff llywodraethu ysgolion. |
| **2,407** | Derbyniadau Cyfalaf - arian wedi'i dderbyn drwy werthiant eiddo, wedi'i neilltuo i adeiladu/cynnal eiddo arall, ayb. |
| **20,187** | Gofynion y Cynllun Cyfalaf - arian wedi'i glustnodi ar gyfer cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo i adeiladu ffyrdd, pontydd, ac ysgolion, yn cynnwys "Ysgolion 21ain Canrif". |
| **3,781** | Cronfeydd Adnewyddu - i ddisodli cerbydau sy'n dibrisio, ayb, sy'n ein galluogi i sicrhau parhad gwasanaethau er budd ein dinasyddion. |
| **8,017** | Cronfa Trawsnewid Busnes - ar gyfer menterau trawsnewid, cynlluniau ac ymyriadau i gyflawni diwygiad gwasanaethau ac arbedion. |
| **5,000** | Cronfa Buddsoddi i Arbed - i ariannu gwariant unwaith ac am byth i hwyluso gwelliannau gwasanaeth fydd yn cyfrannu tuag at gyfanswm o £35m o arbedion effeithlonrwydd dros 4 mlynedd. |
| **7,255** | Ymrwymiadau Cost Diswyddiadau - bydd diswyddiadau staff arwyddocaol yn anochel o ganlyniad i galedi parhaus, a bydd rhaid eu hariannu. |
| **2,015** | Hunan-Yswiriant - mae'r Cyngor digon mawr i wneud arbedion drwy neilltuo arian i gyfarfod rhai hawliadau, yn hytrach na thalu premiwm i gwmnïau. |
| **7,823** | Anghenion a gofynion gwasanaeth penodol eraill - arian a neilltuwyd mewn cronfeydd ar gyfer –<br>Cyfraniadau ac ymrwymiadau a ddeilir ar ran Partneriaethau yn cynnwys:<br>• Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn);<br>• Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (gydag Ynys Môn);<br>• Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (gydag Ynys Môn).<br>Cynlluniau Refeniw Un-tro yn cynnwys:<br>• Prosiect Lleihau Ôl Troed Carbon;<br>• Er mwyn lliniaru effaith Deddf Diwygio Llês Llywodraeth San Steffan;<br>• Ymdopi â thywydd garw ac argyfyngau eraill;<br>• Cynllun Datblygu Unedol;<br>• Gwaith Atal Digartrefedd;<br>• Gwarant Amgylcheddol Tai (hanfodol ar ôl trosglwyddo Tai).<br>ynghyd ag eraill er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau yn y sir. |
| **60,262** | Cyfanswm Reserfau wedi'u clustnodi. |
| **7,000** | Balansau Cyffredinol - wedi'i neilltuo ar gyfer risgiau cyffredinol, risgiau anhysbys, gorwariant posib, pontio, ayb. |
| **67,262** | Reserfau cyflawn fel ar 31 Mawrth 2014. |

Mae rhestr fanwl gyflawn o'r reserfau unigol yn y datganiad o gyfrifon y Cyngor.

**ATODIAD 3**

## RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2015/16 – 2016/17

| | **2015/16 £'000** | **2016/17 £'000** |
|---|---|---|
| Cynnal a Chadw adeiladau (ymdrin ag ôl groniad ac osgoi ôl groniad pellach) | 3,096 | 2,553 |
| Gwaith Tan ac Asbestos | 400 | 500 |
| Rheoli Carbon | 0 | 400 |
| Trefniadaeth Ysgolion | 11,820 | 13,796 |
| Newid dosbarthiadau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes | 449 | 779 |
| Goleuadau Stryd | 50 | 50 |
| Ffensys diogelwch ar y ffyrdd | 134 | 134 |
| Ymdrin â dŵr ar y ffyrdd | 100 | 100 |
| Meysydd Chwarae | 35 | 35 |
| Strategaeth Wastraff y Cyngor | 50 | 0 |
| Adnewyddu Cerbydau | 0 | 58 |
| Rhagbaratoi Cynlluniau Trafnidiaeth | 100 | 100 |
| Lonydd Glas | 20 | 20 |
| Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth | 501 | 388 |
| Sustem electroneg cadw cofnodion a dogfennau | 244 | 155 |
| Grantiau Tai | 2,000 | 2,000 |
| I'w ddyrannu ("bidiau" cyfalaf) | 180 | 202 |
| **Cyfanswm** | **19,179** | **21,270** |

**ATODIAD 4**

# CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2015/16 FESUL GWASANAETH

| Cyllideb 2015/16 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Sylfaenol 2014/15 | Chwyddiant | Preseptau Incrementau a Phensiynau | Llog a Chostau Benthyca | Demograffi Incwm ac Amrywiol | Trosglwyddiad i'r Setliad | Pwysau ar Wasanaethau | Arbedion | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 |
| **ADRANNAU** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Tim Rheoli Corfforaethol | 2,407 | 22 | 4 | 0 | 329 | 0 | 0 | (663) | 2,099 |
| Strategol a Gwella | 4,761 | 32 | 13 | 0 | 90 | 40 | 185 | (399) | 4,722 |
| Cyllid | 6,491 | 83 | (5) | 0 | (4) | 0 | 116 | (514) | 6,167 |
| Adnoddau Dynol | 2,756 | 29 | 2 | 0 | 77 | 0 | 68 | (270) | 2,662 |
| Cefnffyrdd | (87) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (87) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 23,307 | (49) | 13 | 0 | 66 | 0 | 0 | (1,753) | 21,584 |
| Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a GyC) | 8,690 | (30) | 13 | 0 | (47) | (21) | (132) | (560) | 7,913 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 54 | 7 | 0 | 0 | 171 | 0 | 0 | (245) | (13) |
| Addysg Canolog | 13,494 | 203 | 14 | 0 | (202) | (45) | 182 | (175) | 13,471 |
| Cyllideb Ygolion | 69,796 | 578 | (52) | 0 | 119 | 0 | (250) | (952) | 69,239 |
| Economi a Chymuned | 7,550 | (14) | 28 | 0 | 179 | 0 | (65) | (436) | 7,242 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 44,816 | 630 | 137 | 0 | 382 | 0 | 507 | (1,963) | 44,509 |
| Plant a Theuluoedd | 13,507 | 104 | 1 | 0 | (112) | 134 | 0 | (895) | 12,739 |
| **Cyfanswm Adrannau** | 197,542 | 1,595 | 168 | 0 | 1,048 | 108 | 611 | (8,825) | 192,247 |
| Materion corfforaethol a chyfalaf | 34,794 | 1,206 | 6 | (250) | 33 | 205 | (246) | 198 | 35,946 |
| **CYFANSWM GROS =** | **232,336** | **2,801** | **174** | **(250)** | **1,081** | **313** | **365** | **(8,627)** | **228,193** |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **Balansau a Reserfau Penodol** | (2,179) | 0 | 0 | 0 | 160 | 0 | 511 | 0 | (1,508) |
| **CYFANSWM NET =** | **230,157** | **2,801** | **174** | **(250)** | **1,241** | **313** | **876** | **(8,627)** | **226,685** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **17 CHWEFROR 2015** |
| **TEITL** | **RHEOLAETH TRYSORLYS**<br><br>**DIWYGIAD O'R DATGANIAD POLISI RHEOLAETH TRYSORLYS**<br><br>**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2015/16** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS - PENNAETH CYLLID** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

**<u>Cyflwyniad a Chefndir</u>**

1. Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Polisi a phapurau ymarfer ynghyd ag atodlen fanwl yn nodi bwriad y Cyngor wrth ymdrin â'i holl weithrediadau trysorlys. Prif ofyniad y Cod yw i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r Datganiad Polisi, y papurau ymarfer a'r atodlen. Fe gymeradwywyd rhain gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2011. Mae newidiadau i'r papurau ymarfer a'r atodlen wedi eu gwneud nawr ac atodir y dogfennau diwygiedig fel Atodiadau A, B a C. Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:

    - Cynnwys matrics risg a defnyddir i ddiffinio'r offerynau a'r gwrthbartion i'w defnyddio ar gyfer dibenion Buddsoddi yn hytrach na rhestr diffiniedig bob blwyddyn.
    - Newidiadau i'r strwythurau pwyllgorau a rheolaeth ers 2011.
    - Newidiadau i'r siart sefydliad o'r swyddi sydd yn ymwneud gyda rheolaeth trysorlys.

2. Mae Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd") yn gorfodi'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth rheolaeth trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r Cyfarwyddyd yn datgan gall awdurdodau gyfuno'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol mewn un adroddiad. Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu'r syniad hwnnw, felly mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol wedi'i chynnwys yn rhan 5 o **Atodiad CH**.

3. Yn ôl y Cod a'r cyfarwyddyd, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Manylir ar y strategaeth ar gyfer 2015/16 yn **Atodiad CH.**

4. Fel Awdurdod Gweinyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd mae'r Cyngor yn darparu swyddogaethau rheolaeth trysorlys ar ei gyfer trwy uno arian dros ben y Cyngor ac arian dros ben y Gronfa Bensiwn at ddibenion buddsoddi dyddiol. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2015/16 yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2015.

5. Yn ychwanegol, cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith darbodus newydd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol. Roedd y trefniadau newydd, oedd yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2004, yn cyflwyno system lywodraethu newydd ar gyfer gwariant cyfalaf awdurdodau lleol, sy'n bennaf seiliedig ar hunan reolaeth. Datblygwyd y "Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities" ('y Cod') gan CIPFA fel cod ymarfer proffesiynol, gyda chefnogaeth statudol, i gefnogi awdurdodau lleol wrth gymryd penderfyniadau i wario cyfalaf. Amcanion allweddol y Cod yw sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Mynna'r Cod bod awdurdodau lleol, cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, yn gosod rhai dangosyddion darbodus penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a blynyddoedd dilynol. Yn dilyn o'r adolygiad diweddaraf mae CIPFA wedi cyflwyno un dangosydd darbodus newydd, "Terfynau uchaf ar gyfran ddyled net i ddyled gros", er mwyn tynnu sylw at sefyllfa ble mae'r Cyngor yn bwriadu benthyca cyn i'r angen godi. Mae'r dangosyddion yma, sy'n seiliedig ar gynigion ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf sydd mewn adroddiadau eraill ar y rhaglen, wedi'u cynnwys yma yn **Atodiad D.**

7. Yn weithredol o'r 31ain o Fawrth 2008, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 [y "Rheoliadau Diwygiedig"]. Mae'r rheoliadau yma yn cyflwyno newidiadau penodol i'r rhai a gafodd eu cyflwyno yn 2003 [y "Rheoliadau Gwreiddiol"] fel rhan o weithredu'r gyfundrefn Benthyca Ddarbodus. Ymhlith y newidiadau sydd wedi'u cyflwyno mae'r gofyn am Ddatganiad Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) blynyddol.

8. Mae'r Rheoliadau Gwreiddiol yn gosod allan sail statudol a fformiwla gymhleth ar gyfer cyfrifo'r DLlR. Mae'r Rheoliadau Diwygiedig ond yn gofyn am dal sydd yn 'ddarbodus', ac mae awdurdodau yn cael defnyddio fwy o ddisgresiwn yn nhermau'r tal a godwyd, serch fod hyn o fewn rhai paramedrau. Mae **Atodiad DD** yn cynnwys y Datganiad DLlR Blynyddol ar gyfer 2015/16.

9. Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau i gyfarfod briffio ar 30 Ionawr 2015 gydag Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, i drafod Rheolaeth Trysorlys. Atgoffwyd aelodau o God Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys, ynghyd a'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau am weithgaredd Rheolaeth Trysorlys. Amlygodd yr ymgynghorwyr wahanol risgiau cyfredol i'r trysorlys, a thrafodwyd mewn manylder risgiau credyd, risgiau gyda gwrthbartion, risgiau cyfraddau llog a risg cyfradd chwyddiant. Hefyd, trafodwyd portffolio dyled y Cyngor, y sefyllfa benthyca net, a'r dangosyddion darbodus.

**Argymhelliad**

**9. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio argymell i'r Cyngor Llawn 5 Mawrth fabwysiadu'r Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys (Atodiadau A, B, a C), Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2015/16 (Atodiad CH), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad D), y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (Atodiad DD) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

**ATODIAD A**

# CYNGOR GWYNEDD

## DATGANIAD POLISI RHEOLAETH TRYSORLYS

1. Diffinia'r Cyngor ei weithgareddau rheolaeth trysorlys fel a ganlyn:

   *"Rheolaeth llif arian y Cyngor a'i drafodion bancio, marchnadoedd arian a marchnadoedd cyfalaf; rheolaeth effeithiol y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a'r ymgais am y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny."*

2. Ystyria'r Cyngor mai adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau rheolaeth trysorlys. O ganlyniad, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheolaeth trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r Cyngor ac unrhyw offerynnau ariannol a defnyddir i reoli'r risgiau yma.

3. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd rheolaeth trysorlys effeithiol yn ei gefnogi wrth gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Gan hynny mae'n ymrwymedig i egwyddorion cyflawni gwerth gorau mewn rheolaeth trysorlys, a defnyddio technegau addas ar gyfer mesur perfformiad, o fewn cyd-destun rheolaeth risg effeithiol.

**ATODIAD B**

# CYNGOR GWYNEDD

## ARFERION RHEOLAETH TRYSORLYS

Y mae Arferion Rheolaeth Trysorlys (ARhT) yn disgrifio'r modd y bydd y Cyngor hwn yn ceisio cyflawni ei bolisïau a'i amcanion ynglŷn â rheolaeth trysorlys, a sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hyn.

### ARhT1 RHEOLI RISG TRYSORLYS

Bydd y Pennaeth Cyllid yn cynllunio, yn gweithredu ac yn monitro'r holl drefniadau ar gyfer adnabod, trin a rheoli risg mewn perthynas â rheolaeth trysorlys. Bydd yn adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ynglŷn â digonolrwydd ac addasrwydd y trefniadau hyn, a bydd yn adrodd, fel mater brys, ynglŷn ag amgylchiadau unrhyw anhawster sydd wedi codi, neu sy'n debygol o godi, wrth geisio cyflawni amcanion y Cyngor yn y cyswllt hwn. Bydd yn cyflawni'r holl weithredoedd hyn yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi eu rhestru yn ARhT6, *Gofynion o ran adrodd, a threfniadau ar gyfer gwybodaeth i reolwyr*. Mewn perthynas â phob un o'r risgiau canlynol, mae'r trefniadau sy'n ceisio sicrhau cydymffurfiad â'r amcanion hyn wedi eu rhestru yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

#### 1.1 Rheoli risg mewn perthynas â chredyd a gwrthbartïon

Mae'r Cyngor hwn yn ystyried diogelwch y prifsymiau y mae'n eu buddsoddi yn un o brif amcanion ei weithgareddau rheolaeth trysorlys. O ganlyniad, bydd yn sicrhau bod ei restrau gwrthbartïon a'u cyfyngiadau yn adlewyrchu agwedd ofalus tuag at sefydliadau y gallai fod yn ymddiried arian iddynt, a bydd yn cyfyngu ei weithgareddau buddsoddi i'r offerynnau, y dulliau a'r technegau y cyfeirir atynt yn ARhT4 *Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy* ac sydd wedi eu rhestru yn yr atodlen i'r ddogfen hon. Y mae hefyd yn cydnabod yr angen am bolisi gwrthbartïon ffurfiol mewn perthynas â'r sefydliadau hynny y gallai fod yn benthyg arian ganddynt, neu y gallai fod yn ymrwymo i drefniadau ariannu eraill gyda hwy, a bydd felly'n cynnal polisi o'r fath.

#### 1.2 Rheoli risg mewn perthynas â hylifedd

Bydd y Cyngor hwn yn sicrhau bod ganddo adnoddau arian parod, trefniadau benthyca, a chyfleusterau gorddrafft neu drefniadau wrth gefn, sydd yn ddigonol er nad yn ormodol ac sydd yn galluogi'r Cyngor i sicrhau bod digon o arian ar gael bob amser ar gyfer cyflawni ei amcanion gwasanaeth.

Bydd y Cyngor hwn ond yn benthyg o flaen yr angen lle bo achos busnes clir i'w gwneud ac ond ar gyfer y rhaglen cyfalaf cyfredol neu i gyllido aeddfedrwydd dyledion yn y dyfodol.

#### 1.3 Rheoli risg mewn perthynas â chyfraddau llog

Bydd y Cyngor hwn yn rheoli dylanwad amrywiadau mewn cyfraddau llog arno, gyda golwg ar ffrwyno ei gostau llog net, neu ddiogelu ei refeniw o logau, yn unol â'r symiau sydd wedi eu darparu yn ei drefniadau cyllidebol fel y mae'r rheiny wedi eu diwygio yn unol â ARhT6, *Gofynion o ran adrodd, a threfniadau ar gyfer gwybodaeth i reolwyr*.

Bydd yn cyflawni'r amcanion hyn trwy ddefnydd gofalus o'i offerynnau, ei ddulliau a'i dechnegau cymeradwy ar gyfer cyllido a buddsoddi, yn bennaf er

mwyn creu sefydlogrwydd a sicrwydd ynglŷn â chostau a refeniw, ond gan gadw digon o hyblygrwydd ar yr un pryd i allu manteisio ar newidiadau annisgwyl neu newidiadau a allai fod yn fanteisiol yn lefel neu strwythur cyfraddau llog. Mae'r uchod bob amser yn amodol ar drafod unrhyw oblygiadau o ran polisi neu gyllideb, ac ar eu cymeradwyo os bydd gofyn hynny.

**1.4 Rheoli risg mewn perthynas â chyfraddau cyfnewid**

Bydd y Cyngor hwn yn rheoli dylanwad amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid arno, er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw effaith niweidiol ar yr incwm y mae wedi cyllidebu ar ei gyfer, ac ar lefelau gwariant.

Bydd yn cyflawni'r amcan hwn trwy ddefnydd gofalus o'i offerynnau, ei ddulliau a'i dechnegau cymeradwy ar gyfer cyllido a buddsoddi, yn bennaf er mwyn creu sefydlogrwydd a sicrwydd ynglŷn â chostau a refeniw, ond gan gadw digon o hyblygrwydd ar yr un pryd i allu manteisio ar newidiadau annisgwyl neu newidiadau a allai fod yn fanteisiol yn lefel neu strwythur cyfraddau cyfnewid. Mae'r uchod bob amser yn amodol ar drafod unrhyw oblygiadau o ran polisi neu gyllideb, ac ar eu cymeradwyo os bydd gofyn hynny.

**1.5 Rheoli risg mewn perthynas ag ail-gyllido**

Bydd y Cyngor hwn yn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer benthyca, ariannu preifat a phartneriaeth yn cael eu cyd-drafod, eu strwythuro a'u dogfennu, a bod proffil aeddfedrwydd yr arian sy'n cael ei godi drwy'r fath ddulliau yn cael ei reoli gyda golwg ar sicrhau telerau cynnig, ar gyfer adnewyddu neu ail-ariannu (os bydd angen y rhain), sydd yn gystadleuol ac mor ffafriol i'r Cyngor ag y gellir ei sicrhau yng ngoleuni'r amgylchiadau marchnad sy'n bodoli ar y pryd.

Bydd y Cyngor yn ymarfer rheolaeth weithredol dros ei berthynas gyda gwrthbartïon yn y trafodion busnes hyn, yn y fath fodd ag i gyflawni'r amcan hwn, a bydd yn osgoi gorddibynnu ar unrhyw un ffynhonnell arian os oes unrhyw bosibilrwydd y gallai hynny beryglu cyflawni'r uchod.

**1.6 Rheoli risg gyfreithiol a rheoleiddiol**

Bydd y Cyngor hwn yn sicrhau bod ei holl weithgareddau rheolaeth trysorlys yn cydymffurfio â'i bwerau statudol ac â'r gofynion rheoleiddiol. Bydd yn profi'r cyfryw gydymffurfiad, os gofynnir hynny, i'r holl bartïon y mae'n delio gyda hwy mewn gweithgareddau o'r fath. Wrth lunio ei bolisi mewn perthynas â chredyd a gwrthbartïon, dan ARhT1.1 *Rheoli risg mewn perthynas â chredyd a gwrthbartïon*, bydd yn sicrhau bod yna dystiolaeth o bwerau, awdurdod a chydymffurfiad y gwrthbartïon â'r trafodion ariannol y gallent eu cyflawni gyda'r sefydliad, yn enwedig ynglŷn â'r ddyletswydd gofal a'r ffioedd sy'n cael eu codi.

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod y gallai newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol yn y dyfodol effeithio ar ei weithgareddau rheolaeth trysorlys; a chyn belled ag y mae'n rhesymol alluog i wneud hynny, bydd yn ceisio lleihau i'r eithaf y perygl y bydd y rhain yn cael effaith niweidiol ar y Cyngor.

**1.7 Twyll, camgymeriad a llygredigaeth, a rheoli digwyddiadau annisgwyl**

Bydd y Cyngor hwn yn sicrhau ei fod wedi adnabod yr amgylchiadau a allai ei adael yn agored i'r perygl o golled trwy dwyll, camgymeriad, llygredigaeth neu ddigwyddiadau posibl eraill yn ei drafodion rheolaeth trysorlys. Felly, bydd yn

defnyddio systemau a gweithdrefnau priodol, ac yn cynnal trefniadau rheoli effeithiol ar gyfer digwyddiadau annisgwyl, i'r dibenion hyn.

**1.8 Rheoli risg mewn perthynas â'r farchnad**

Bydd y Cyngor hwn yn ceisio sicrhau na fydd ei bolisïau a'i amcanion datganedig ynglŷn â rheolaeth trysorlys yn cael eu peryglu gan amrywiadau anffafriol yng ngwerth y prifsymiau y mae'n eu buddsoddi, a bydd felly'n ceisio ei amddiffyn ei hun rhag effeithiau amrywiadau o'r fath.

## ARhT2 MESUR PERFFORMIAD

Mae gan y Cyngor hwn ymrwymiad i geisio sicrhau'r gwerth gorau yn ei weithgareddau rheolaeth trysorlys, ac mae ganddo ymrwymiad hefyd i'r defnydd o fethodoleg perfformiad i gynnal y nod honno, o fewn y fframwaith sydd wedi ei ddisgrifio yn ei Ddatganiad Polisi ar Reolaeth Trysorlys.

O ganlyniad, bydd y swyddogaeth rheolaeth trysorlys yn destun dadansoddiad parhaus o'r gwerth y mae'n ei ychwanegu o ran ategu amcanion gwasanaeth datganedig y Cyngor. Bydd yn destun archwiliad rheolaidd o ddulliau eraill o ddarparu gwasanaethau, o argaeledd anogaethau grant neu gymhorthdal eraill, ac o'r posibiliadau o welliannau dichonadwy eraill. Bydd perfformiad y swyddogaeth rheolaeth trysorlys yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r meini prawf sydd wedi eu rhestru yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

## ARhT3 GWNEUD PENDERFYNIADAU A DADANSODDI

Bydd y Cyngor hwn yn cynnal cofnodion llawn o'i benderfyniadau ynglŷn â rheolaeth trysorlys, ac o'r prosesau a'r arferiadau sy'n cael eu gweithredu wrth ddod i'r penderfyniadau hynny, i bwrpas dysgu o'r gorffennol ac er mwyn dangos bod camau rhesymol wedi eu cymryd i sicrhau bod yr holl ystyriaethau a oedd yn berthnasol i'r penderfyniadau hynny wedi cael eu cymryd i ystyriaeth ar y pryd. Manylir ar y materion sydd i'w trin a'r prosesau ac arferiadau sydd i'w defnyddio, wrth ddod i benderfyniadau, yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

## ARhT4 OFFERYNNAU, DULLIAU A THECHNEGAU CYMERADWY

Ni fydd y Cyngor hwn ond yn ymgymryd â'i weithgareddau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r offerynnau, y dulliau a'r technegau hynny y manylir arnynt yn yr atodlen i'r ddogfen hon, ac o fewn y cyfyngiadau a'r paramedrau sydd wedi eu diffinio yn ARhT1, *Rheoli risg Trysorlys*.

## ARhT5 TREFNIADAETH, EGLURDER A GWAHANIAD CYFRIFOLDEBAU, A THREFNIADAU DELIO

Y mae'r Cyngor hwn o'r farn ei bod yn hanfodol, i bwrpas rheoli a monitro ei weithgareddau rheolaeth trysorlys yn effeithiol, ac er mwyn lleihau'r perygl o dwyll neu gamgymeriad, ac er mwyn ceisio sicrhau'r perfformiad gorau posibl, fod y gweithgareddau hyn yn cael eu strwythuro a'u rheoli mewn modd cwbl gyfannol, a bod yna eglurder bob amser ynglŷn â chyfrifoldebau rheolaeth trysorlys.

Yr egwyddor a fydd yn sail i hyn yw gwahaniaethu clir rhwng y rhai y mae'r gwaith o bennu polisïau rheolaeth trysorlys wedi ei ymddiried iddynt a'r rhai y mae'r gwaith o weithredu a rheoli'r polisïau hyn wedi ei ymddiried iddynt, yn enwedig mewn perthynas

â gweithredu a throsglwyddo arian, cofnodi a gweinyddu penderfyniadau rheolaeth trysorlys, ac archwilio ac adolygu'r swyddogaeth rheolaeth trysorlys.

Os a pha bryd y bydd y Cyngor hwn yn bwriadu gwyro o'r egwyddorion hyn, o ganlyniad i ddiffyg adnoddau neu amgylchiadau eraill, bydd y Pennaeth Cyllid yn sicrhau bod y rhesymau'n cael eu hadrodd yn gywir yn unol â ARhT6 *Gofynion o ran adrodd, a threfniadau ar gyfer gwybodaeth i reolwyr*, a bod y goblygiadau'n cael eu hystyried a'u harfarnu'n iawn.

Bydd y Pennaeth Cyllid yn sicrhau bod yna ddatganiadau ysgrifenedig clir o gyfrifoldebau pob swydd sydd yn ymwneud â rheolaeth trysorlys, ac o'r trefniadau ar gyfer llenwi bwlch mewn achos o absenoldeb. Manylir ar y trefniadau presennol yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

Bydd y Pennaeth Cyllid yn sicrhau bod yna ddogfennaeth gywir ar gyfer yr holl gytundebau a thrafodion ariannol, a bod gweithdrefnau'n bodoli ar gyfer trosglwyddo arian yn effeithiol. Manylir ar y trefniadau presennol yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

Mae manylion yr hyn sy'n cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid mewn perthynas â rheolaeth trysorlys wedi eu cyflwyno yn yr atodlen i'r ddogfen hon. Bydd y Pennaeth Cyllid yn cyflawni'r holl gyfrifoldebau o'r fath yn unol â datganiad polisi ac Arferiadau Rheolaeth trysorlys y Cyngor ac, os yw'n aelod o CIPFA, â'r Safon Ymarfer Broffesiynol mewn perthynas â rheolaeth trysorlys.

## ARhT6 GOFYNION O RAN ADRODD, A THREFNIADAU AR GYFER GWYBODAETH I REOLWYR

Bydd y Cyngor hwn yn sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu paratoi a'u hystyried ynglŷn â gweithredu ei bolisïau rheolaeth trysorlys; ynglŷn ag effeithiau'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r trafodion ariannol sy'n cael eu gweithredu yn unol â'r polisïau hynny; ynglŷn â goblygiadau newidiadau, yn enwedig rhai cyllidebol, sy'n deillio o ffactorau rheoleiddiol, economaidd, marchnad neu eraill sy'n effeithio ar ei weithgareddau rheolaeth trysorlys; ac ynglŷn â pherfformiad y swyddogaeth rheolaeth trysorlys.

Fel lleiafswm:

bydd y Cyngor Llawn a'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn, o leiaf:

- adroddiad blynyddol ar y strategaeth a'r cynllun sydd i'w dilyn yn y flwyddyn i ddod;

bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn:

- adroddiad canol blwyddyn; ac
- adroddiad blynyddol ar berfformiad y swyddogaeth rheolaeth trysorlys, ar effeithiau'r penderfyniadau a wnaed a'r trafodion ariannol sydd wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac ar unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â Datganiad Polisi'r Cyngor ar Reolaeth Trysorlys ac â'r Arferiadau Rheolaeth Trysorlys.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau cyson ar weithgareddau a risgiau rheolaeth trysorlys.

Bydd y Pwyllgor Archwilio gyda'r cyfrifoldeb ar gyfer craffu polisïau ac ymarferion rheolaeth trysorlys.

Manylir ar y trefniadau presennol, ac ar ffurf yr adroddiadau hyn, yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

**ARhT7 TREFNIADAU CYLLIDEBU, CYFRIFWAITH AC ARCHWILIO**

Bydd y Pennaeth Cyllid yn paratoi, a bydd y Cabinet yn cymeradwyo ac yn diwygio o bryd i'w gilydd os bydd angen, gyllideb flynyddol ar gyfer rheolaeth trysorlys, a fydd yn dwyn ynghyd yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rhedeg y swyddogaeth rheolaeth trysorlys, ynghyd â'r incwm cysylltiedig. Bydd y materion sydd i'w cynnwys yn y gyllideb yn cynnwys, o leiaf, y rhai sy'n ofynnol trwy statud neu reoliad, ynghyd â gwybodaeth a fydd yn dangos cydymffurfiad â ARhT1 *Rheoli risg*, ARhT2 *Gwerth gorau a mesur perfformiad*, a ARhT4 *Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy*. Bydd y Pennaeth Cyllid yn gweithredu rheolaeth effeithiol dros y gyllideb hon, ac yn argymell unrhyw newidiadau gofynnol, ac yn adrodd arnynt, yn unol â ARhT6 *Gofynion o ran adrodd, a threfniadau ar gyfer gwybodaeth i reolwyr*.

Bydd y Cyngor hwn yn rhoi cyfrif am ei weithgareddau rheolaeth trysorlys, am y penderfyniadau sydd wedi eu gwneud, a'r trafodion ariannol sydd wedi eu gweithredu, yn unol â'r arferiadau a'r safonau cyfrifo priodol, ac â'r gofynion statudol a rheoleiddiol sydd mewn grym ar y pryd.

**ARhT8 RHEOLAETH ARIAN A LLIF ARIAN**

Oni bai bod gofynion statudol neu reoleiddiol yn mynnu'n wahanol, bydd yr holl arian sydd yn nwylo'r Cyngor hwn yn cael ei reoli gan y Pennaeth Cyllid, a bydd yn cael ei gydgasglu i ddibenion llif arian a rheoli buddsoddiadau. Bydd amcanestyniadau o lif arian yn cael eu paratoi'n rheolaidd ac yn brydlon, a bydd y Pennaeth Cyllid yn sicrhau bod y rhain yn ddigonol i ddibenion monitro cydymffurfiad â *ARhT1.2 Rheoli risg mewn perthynas â hylifedd*. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer paratoi amcanestyniadau o lif arian, a ffurf yr amcanestyniadau hyn, yn cael eu dangos yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

**ARhT9 CUDDIO TARDDIAD ARIAN GWEITHGAREDDAU TROSEDDOL**

Y mae'r Cyngor hwn yn effro i'r posibilrwydd y gallai ddod yn destun ymgais i'w dynnu i mewn i weithrediad cuddio tarddiad arian o weithgareddau troseddol. O ganlyniad, bydd yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer gwirio a chofnodi pwy yw'r gwrthbartïon, ac ar gyfer adrodd ynglŷn ag amheuon, a bydd yn sicrhau bod y staff sy'n gysylltiedig â hyn wedi eu hyfforddi'n iawn. Manylir ar y trefniadau presennol, gan gynnwys enw'r swyddog y dylid gwneud adroddiadau iddo, yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

**ARhT10 HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU STAFF**

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth rheolaeth trysorlys yr holl gymwysterau ac adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi eu dyrannu iddynt. Bydd felly'n ceisio penodi unigolion sydd yn fedrus ac yn brofiadol, a bydd yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff er mwyn eu galluogi i gael a chynnal lefel briodol o

feistrolaeth, gwybodaeth a medrau. Bydd y Pennaeth Cyllid yn argymell ac yn gweithredu'r trefniadau angenrheidiol.

Bydd Pennaeth Cyllid yn sicrhau bydd aelodau'r Cyngor sydd gyda chyfrifoldebau rheolaeth trysorlys, gan gynnwys y rheiny gyda chyfrifoldebau craffu, yn cael mynediad at hyfforddiant addas i'w anghenion a'u cyfrifoldebau.

Mae'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu yn adnabod eu cyfrifoldebau unigol er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol. Manylir ar y trefniadau presennol yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

**ARhT11 DEFNYDDIO DARPARWYR GWASANAETH ALLANOL**

Mae'r Cyngor hwn yn adnabod bod penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn aros gyda'r Cyngor pob amser. Mae'n cydnabod gwerth posibl defnyddio darparwyr allanol o wasanaethau rheolaeth trysorlys er mwyn cael at fedrau ac adnoddau arbenigol. Pan fydd yn defnyddio darparwyr gwasanaethau o'r fath, bydd yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny am resymau sydd wedi bod yn destun arfarniad llawn o'r costau a'r buddion. Bydd hefyd yn sicrhau bod telerau penodiad y darparwyr, a'r dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i bwyso a mesur eu gwerth, yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n gywir ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd hefyd yn sicrhau, lle bo hynny'n ymarferol ac yn angenrheidiol, fod amrediad o ddarparwyr gwasanaethau'n cael ei ddefnyddio, er mwyn osgoi gorddibyniaeth ar un cwmni neu ar nifer fechan o gwmnïau. Lle mae gwasanaethau'n agored i drefniadau tendro neu ail-dendro, bydd gofynion deddfwriaethol yn cael eu parchu bob amser. Mae'r gwaith o fonitro'r trefniadau hyn yn gyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid, ac mae manylion y trefniadau cyfredol wedi eu rhestru yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

**ARhT12 TREFN LLYWODRAETH GORFFORAETHOL**

Mae gan y Cyngor hwn ymrwymiad i fynd ar drywydd trefn llywodraeth gorfforaethol gywir ym mhob agwedd ar ei fusnesau a'i wasanaethau, ac i sefydlu'r egwyddorion a'r arferiadau ar gyfer cyflawni hyn. Felly, bydd y swyddogaeth rheolaeth trysorlys a'i gweithgareddau'n cael eu gweithredu mewn modd agored, tryloyw, gonest, cywir ac atebol.

Mae'r Cyngor hwn wedi mabwysiadu ac wedi gweithredu argymhellion allweddol y Côd. Ystyrir bod hyn, a'r trefniadau eraill y manylir arnynt yn yr atodlen i'r ddogfen hon, yn anhepgor i gyflawniad trefn llywodraeth gorfforaethol gywir ym maes rheolaeth trysorlys, a bydd Pennaeth y Gwasanaeth Cyllid yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau hyn, ac yn adrodd yn eu cylch os a pha bryd y bydd angen.

**ATODIAD C**

## CYNGOR GWYNEDD

## ARhT1 RHEOLI RISG TRYSORLYS

### 1.1 RISG CREDYD A GWRTHBARTÏON

Y risg o fethiant y gwrthbarti i gwrdd â'i gofynion cytundebol i'r corff o dan y buddsoddiad, benthyca, cyfalaf, prosiect neu gyllido partneriaeth, yn enwedig oherwydd lleihad mewn 'creditworthiness' y gwrthbarti a'r effaith niweidiol canlynol ar adnoddau cyfalaf neu gyfredol (refeniw) y corff.

### 1.1.1 Meini prawf i'w defnyddio i greu a rheoli rhestrau a chyfyngiadau gwrthbartïon cymeradwyed

**a)** Bydd y Pennaeth Cyllid yn ffurfio meini prawf addas ar gyfer asesu a monitro risg credyd gwrthbartïon buddsoddi a bydd yn llunio rhestr fenthyca yn cynnwys cyfyngiadau amser, math, sector a gwrthbartïon penodol.

**b)** Bydd staff rheolaeth Trysorlys yn ychwanegu neu'n dileu gwrthbartïon o'r rhestr gymeradwyedig yn unol â'r polisi ar feini prawf i ddewis gwrthbartïon.

**c)** Bydd y Cyngor yn defnyddio meini prawf credyd er mwyn dewis rhestr gwrthbartïon i fuddsoddi gyda nhw. Bydd y Cyngor ac Arlingclose, ei Cynghorwyr Trysorlys, yn cynnal rhestr gwrthbartïon ac asesu a diweddaru statws credyd y sefydliadau yn gyson. Bydd yr asesiad hwn yn cymryd y ffactorau fel y canlynol i ystyriaeth:

- i) y graddfeydd credyd unigol
- ii) cyfnewidiadau diffyg credyd
- iii) cefnogaeth arfaethedig gan sefydliad rhiant gydag adnoddau da; a
- iv) pris ei rhandaliadau

**ch)** Bydd Arlingclose, Cynghorwyr Trysorlys y Cyngor, yn darparu gwybodaeth yn fisol am unrhyw sgôr sy'n berthnasol i'r cyngor a diweddariad ar gyfer unrhyw newidiadau yn ystod y mis.

**d)** Caiff y rhestr gwrthbartïon cymeradwyedig ei phennu gan y meini prawf yma: -

**Buddsoddiadau Penodedig:**

Defnyddir Sterling ar gyfer pob buddsoddiad o'r fath, **gydag aeddfediad o hyd at flwyddyn ar y mwyaf,** gan gyrraedd yr isafswm meini prawf credyd 'uchel' ble bo hynny'n berthnasol.

| Cyfrad Credyd | Banciau Ansicredig | Banciau â Sicrwyd | Llywodraeth | Corfforaethau | Darparwyr Cofrestredig |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth DU | d/b | d/b | £ diderfyn<br>50 mlynedd | d/b | d/b |
| AAA | £4m<br>5 mlynedd | £8m<br>20 mlynedd | £8m<br>50 mlynedd | £4m<br>20 mlynedd | £4m<br>20 mlynedd |
| AA+ | £4m<br>5 mlynedd | £8m<br>10 mlynedd | £8m<br>25 blynedd | £4m<br>10 blynedd | £4m<br>10 blynedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| AA | £4m<br>4 blynedd | £8m<br>5<br>mlynedd | £8m<br>15 blynedd | £4m<br>5 blynedd | £4m<br>10 blynedd |
| AA- | £4m<br>3 blynedd | £8m<br>4 blynedd | £8m<br>10 mlynedd | £4m<br>4 blynedd | £4m<br>10 blynedd |
| A+ | £4m<br>2 flynedd | £8m<br>3 blynedd | £4m<br>5 mlynedd | £4m<br>3 blynedd | £4m<br>5 blynedd |
| A | £4m<br>13 mis | £8m<br>2 flynedd | £4m<br>5 mlynedd | £4m<br>2 flynedd | £4m<br>5 blynedd |
| A- | £4m<br>6 mis | £4m<br>13 mis | £4m<br>5 mlynedd | £2m<br>13 mis | £4m<br>5 blynedd |
| BBB+ | £2m<br>100 diwrnod | £4m<br>6 mis | £2m<br>2 flynedd | £2m<br>6 mis | £2m<br>2 flynedd |
| BBB or<br>BBB- | £2.5m<br>Diwrnod<br>nesaf yn unig | £4m<br>100<br>diwrnod | d/b | d/b | n/a |
| Dim | £1m<br>6 mis | d/b | £4m<br>25 blynedd | £50,000<br>5 mlynedd | £4m<br>5 mlynedd |
| Cronfeydd<br>wedi eu<br>cyfuno | £8m mesul gronfa | | | | |
| Benthyciadau i Ddarparwyr Cofrestredig lleol ar gyfer adeiladu tai | | | £10m<br>25 mlynedd | | |
| Benthyciadau i Fusnesau Lleol | | | Cyfanswm o £3m<br>10 blynedd | | |

### 1.1.2 Methodoleg cymeradwyedig ar gyfer newid cyfyngiadau ac ychwanegu neu ddileu gwrthbartïon

Defnyddir sgoriau credyd ond fel man cychwyn wrth ystyried risg credyd. Bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth farchnad sydd ar gael yn gyffredinol, fel y ffactorau y nodir yn 1.1.1c uchod. Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am ddefnyddio'r meini prawf credyd yn 1.1.1d, i ddewis gwrthbartïon cymeradwyedig, a bydd yn ychwanegu neu'n dileu gwrthbartïon fel y bo'n briodol o'r rhestr gwrthbartïon pan fo newid yn sgôr credyd gwrthbartïon unigol neu mewn strwythurau bancio e.e. cyfuno neu gymryd drosodd. Caiff y gwaith hwn ei ddirprwyo'n ddyddiol i staff yn y swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

Bydd gwrthbartion yn cael ei cynnwys yn y rhestr awdurdodedig pan yn cael ei argymell gan Gynghorwyr Trysorlys y Cyngor yn unol a'r meini prawf credyd yn y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys blynyddol.

Bydd y benthyciadau Ddarparwyr Cofrestredig lleol ar gyfer adeiladu tai rhan o'r rhaglen cyfalaf tai a cymeradwywyd. Y swm a'r cyfnod yn y tabl yw'r uchafswm ac mae'r amodau a thelerau ar gyfer bob benthyciad yn amodol ar awdurdod gan y Pennaeth Cyllid.

### 1.1.3 Manylion Gwasanaethau Asiantaethau Sgôr Credyd neu Wasanaethau eraill sy'n darparu sgoriau credyd cyfredol ac yn adrodd ar newidiadau.

Mae'r Cyngor hwn yn defnyddio sgoriau credyd gan yr asiantaethau sgôr credyd canlynol drwy ei ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys:

**a)** Fitch Ratings;
**b)** Moody's Investors Services; a
**c)** Standard & Poor's.

## 1.2 RISG HYLIFEDD

Y risg na fydd arian ar gael pan fo angen, bod rheolaeth hylifedd aneffeithiol yn creu costau ychwanegol dros y gyllideb, ac felly cyfaddawdir amcanion gwasanaeth y Cyngor.

### 1.2.1 Symiau cymeradwy ar gyfer isafswm balasau arian a buddsoddiadau tymor byr

Bydd adran Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio cadw'r balans lleiaf posibl ym mhrif gyfrifon banc y Cyngor ar ddiwedd pob diwrnod gwaith drwy fenthyca arian sydd dros ben i'w wrthbartion er mwyn cynyddu maint y llog y mae'n ei dderbyn. Gall y Pennaeth Cyllid benderfynu bod angen isafswm penodol o arian wrth gefn. Gall ef hefyd roi cyfyngiadau ar uchafswm hyd y benthyciadau a wneir.

### 1.2.2 Manylion:

**a) Cyfleusterau wrth gefn**
Ar ddiwedd pob diwrnod ariannol mae unrhyw arian dros ben annisgwyl yn cael eu symud i'r Cyfrif Banc Llog Uchel sydd ar gael o brif fanc y Cyngor. Mae'r rhain ar gael yn syth os yw'r Cyfrif Banc Grŵp yn mynd i orddrafft.

**b) Trefniadau gorddrafft banc**
Cytunwyd ar orddrafft o £1m ar 1% uwchlaw Cyfradd Sail Barclays fel rhan o'r tendr banc. Caiff y gorddrafft ei asesu ar sail grŵp i gyfrifon y Cyngor.

**c) Cyfleusterau benthyca tymor-byr**
Mae'r Cyngor yn cael gafael ar fenthyciadau dros dro drwy froceri cymeradwyedig ar farchnad arian Llundain. Y terfyn benthyca cymeradwyedig am ddyled tymor byr yw £15m.

**ch) Cyfleusterau yswiriant/gwarant**
Mae'r Cyngor wedi ei yswirio gyda Zurich Municipal. Ceir rhagor o fanylion yn adran 1.8.3.

## 1.3 RISG CYFRADD LLOG

Y risg bydd newidiadau mewn cyfraddau llog yn creu baich annisgwyl neu heb ei cyllido i gyllideb y Cyngor, a bod y sefydliad heb ei gwarchod yn ddigonol rhagddo.

Bydd y Cyngor yn rheoli'r ffaith ei fod yn agored i newidiadau mewn cyfraddau llog gyda golwg ar ffrwyno ei gostau llog, neu sicrhau ei dderbyniadau llog, yn unol â'r symiau a ddarparwyd yn ei drefniadau cyllidebol fel ag y'u diwygiwyd yn unol â ARhT6 *Gofynion o ran adrodd, a threfniadau ar gyfer gwybodaeth i reolwyr.*

### 1.3.1 Pwyntiau tanio a chanllawiau eraill ar gyfer rheoli newidiadau i lefelau'r gyfradd llog

Gweler y strategaeth flynyddol y trysorlys sy'n amlinellu'r safbwynt am y flwyddyn.

### 1.3.2 Lleiafswm/uchafswm cyfrannau dyled/llog cyfradd newidiol

- cyfran fwyaf y llog ar fenthyca sy'n dod o dan gyfradd llog newidiol — 50%
- cyfran leiaf y llog ar fenthyca sy'n dod o dan gyfradd llog newidiol — 0%

### 1.3.3 Lleiafswm/uchafswm cyfrannau dyled/llog cyfradd sefydlog

- cyfran leiaf y llog ar fenthyca sy'n dod o dan gyfradd llog sefydlog. — 50%
- cyfran fwyaf y llog ar fenthyca sy'n dod o dan gyfradd llog sefydlog — 100%

### 1.3.4 Polisïau'n ymwneud â'r defnydd o ddeilliadau ariannol i reoli cyfradd llog

**a) Delio Ymlaen**

Rhoddir ystyriaeth i ddelio o gyfnodau ymlaen yn dibynnu ar amodau'r farchnad. Dim ond gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pennaeth Cyllid y gellir delio ymlaen.

**b) Adneuon Galwadwy**

Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio adneuon galwadwy. Dim ond gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pennaeth Cyllid y gellir defnyddio adneuon galwadwy.

**c) LOBO's (benthyca o dan opsiwn y sawl sy'n rhoi benthyg/ benthyciwr)**

Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio LOBO's. Dim ond gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pennaeth Cyllid y gellir defnyddio LOBO's.

## 1.4 RISG CYFRADD GYFNEWID

Y risg bydd newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor yn creu baich annisgwyl neu heb ei cyllido i gyllideb y Cyngor, a bod y sefydliad heb ei gwarchod yn ddigonol rhagddo.

### 1.4.1 Meini prawf cymeradwyedig ar gyfer rheoli newidiadau yn lefelau'r gyfradd gyfnewid

O ganlyniad i natur busnes y Cyngor, gall y Cyngor fod yn agored i risg y gyfradd gyfenwid o dro i dro. Bydd hyn yn digwydd yn bennaf drwy dderbyn incwm neu wynebu gwariant mewn arian cyfred heblaw sterling. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu strategaeth ragfantoli lawn i reoli ac ychwanegu sicrwydd at werth sterling y trafodion yma. Golyga hyn y bydd y Cyngor yn cael gwared ag unrhyw risgiau cyfnewid tramor cyn gynted ag y'u gwelir.

Os oes yna rwymedigaeth gytundebol i dderbyn incwm neu wneud taliad mewn arian cyfred heblaw sterling rywbryd yn y dyfodol, bydd trafodion cyfnewid tramor ymlaen yn cael eu hystyried, gyda chyngor proffesiynol, i gydymffurfio â'r polisi rhagfantoli llawn hwn. Bydd unrhyw incwm mewn arian tramor a dderbynnir yn annisgwyl yn cael ei droi i sterling ar y cyfle cyntaf oni bo gan y Cyngor rwymedigaeth gytundebol i wneud taliad yn yr un arian ar ddyddiad yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, bydd yr arian yn cael ei gadw fel adneuon i gwrdd â'r ymrwymiad gwariant yma.

## 1.5 RISG AILGYLLIDO

Y risg bydd benthyciadau aeddfed, cyllido prosiect neu bartneriaeth yn methu cael eu hail-gyllido ar dermau sydd yn adlewyrchu'r darpariaethau gan y sefydliad ar gyfer yr ail-gyllido, cyfalaf a chyfredol (refeniw), ac / neu bydd y termau yn anghyson gyda'r amodau farchnad cyffredin ar y pryd.

### 1.5.1 Polisïau ac arferion dyled / proffilio aeddfedrwydd ariannu cyfalaf arall

Mae unrhyw aildrefnu dyled yn debyg o ddigwydd pan fo'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd ail-gyllido a'r gyfradd adbryniad ar ei fwyaf manteisiol a bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n barhaol er mwyn cymryd mantais o unrhyw wyriadau a ganfyddir yn y gromlin cynhyrchu. Bydd y rheswm dros wneud unrhyw aildrefnu un o'r canlynol:

**a)** cynhyrchu arbedion llog ar y risg leiaf;
**b)** balansio'r proffil anweddolrwydd (h.y. cymhareb ddyled sefydlog yn erbyn ansefydlog) o'r portffolio dyled;
**c)** newid y proffil aeddfedrwydd y ddyled er mwyn lleihau unrhyw risgiau cynhenid ailgyllido.

Gwneir unrhyw aildrefnu o fewn polisi a strategaeth trysorlys y Cyngor ac adroddir i'r Aelod Cabinet Adnoddau yn dilyn gweithrediad. Os yw o'n credu ei bod hi'n fater o sylwedd, adroddir hefyd i'r Pwyllgor Archwilio.

### 1.5.2 Gofynion buddsoddiad cyfalaf amcanol

Bydd yr adran gyfrifeg yn paratoi cynllun tair blynedd ar gyfer gwariant cyfalaf y Cyngor. Bydd hyn yn unol â chanllawiau caniatâd cyfalaf y Llywodraeth. Bydd y cynllun cyfalaf yn cael ei ddefnyddio i baratoi cyllideb refeniw tair blynedd ar gyfer costau benthyca ad-daliadau prifswm, llog a threuliau a fydd yn cymryd i ystyriaeth y cynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf, ad-dalu benthyciadau a rhagfynegon newidiadau yn y gyfradd llog.

### 1.5.3 Polisi'n ymwneud â chyfyngiadau ar ganlyniadau refeniw cyllido cyfalaf.

Mae'r gyllideb refeniw ar gyfer costau benthyca wedi ei seilio ar y cynllun cyfalaf a'r cynllun benthyca darbodus. Prif ffynhonnell fenthyca'r Cyngor yw'r PWLB.

## 1.6 RISG CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL

Y risg bydd y Cyngor ei hun, neu sefydliad ei bod y Cyngor yn gweithredu yn ei gweithgareddau rheolaeth trysorlys, yn methu gweithredu yn unol â'i pwerau cyfreithiol neu ofynion statudol, ac fel canlyniad mae'r sefydliad yn dioddef colledion.

### 1.6.1 Cyfeiriadau at ddeddfau a rheoliadau perthnasol

Mae'n rhaid i weithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor gydymffurfio'n llawn â deddf gwlad a rheoliadau'r Cyngor, sef:

**a)** Côd Ymarfer Rheolaeth Trysorlys CIPFA 2011;
**b)** Safon Ymarfer Broffesiynol CIPFA ar Reolaeth Trysorlys;
**c)** Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;
**ch)** Rheolau Sefydlog y Cyngor sy'n ymwneud â Chytundebau;
**d)** Rheoliadau Ariannol y Cyngor; a
**dd)** Chynllun Swyddogaethau Dirprwyedig y Cyngor.

**1.6.2 Gweithdrefnau ar gyfer amlygu pwerau a neu awdurdodau'r Cyngor i wrthbartion**

Bydd y Cyngor yn paratoi, mabwysiadu a chynnal, fel y conglfeini ar gyfer rheolaeth trysorlys effeithiol:-

**a)** Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys, yn datgan prif egwyddorion ac amcanion ei weithgareddau rheolaeth trysorlys ac, fel rhan annatod o'r datganiad hwnnw,

**b)** Arferion Rheoli Trysorlys, yn amlinellu'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni'r egwyddorion a'r amcanion hynny, ac yn rhagfynegi sut y bydd yn cadw golwg arnynt ac yn eu rheoli.

**1.6.3 Gwybodaeth angenrheidiol gan wrthbartion am eu pwerau a'u hawdurdodau**

Dim ond i wrthbartion ar y rhestr Awdurdodedig y bydd y Cyngor yn rhoi benthyg. Lluniwyd y rhestr yn dilyn cyngor gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, sydd wedi ymchwilio'n llawn i gefndir a chredyd gwrthbartïon gan ddefnyddio sgoriau credyd Fitch Ratings, Moody's Investor Services a Standard and Poor yn ogystal â dadansoddiad o'u mantolen.

**1.6.4 Datganiad ar risgiau gwleidyddol y Cyngor a sut y maent yn cael eu rheoli**

Bydd y Pennaeth Cyllid yn cymryd camau priodol gyda'r Cyngor, y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor i ymateb i risgiau gwleidyddol a'u rheoli'n briodol fel newid y Grŵp sydd yn y mwyafrif, yr Arweinyddiaeth ayb.

**1.7 TWYLL, AMRYFUSEDD A LLYGREDD, A RHEOLI MEWN ARGYFWNG**

Mae'r risg bod y Cyngor methu adnabod amgylchiadau ble mae'n agored i risg o golled drwy dwyll, gamsyniad, llygredigaeth neu unrhyw bosibiliadau wrth ddelio gyda rheolaeth trysorlys, ac methu a defnyddio systemau a trefniadau, a cadw trefniadau wrth gefn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys yr elfen o risg sydd yn cael ei adnabod fel risg gweithredol.

**1.7.1 Manylion y systemau a'r gweithdrefnau i'w dilyn, yn cynnwys gwasanaethau Rhyngrwyd.**

**a)** Bydd trefniadau benthyciadau yn cael eu diffinio yn Rheoliadau Ariannol y Cyngor;

**b)** Bydd y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn gosod allan y lefelau dirprwyedig addas. Caiff pob benthyciad a buddsoddiad, yn cynnwys PWLB, eu negodi gan y Pennaeth Cyllid neu bersonau ag awdurdod.

**Digwyddiad:**

**a)** Mae cofnod manwl o fenthyciadau a buddsoddiadau yn cael ei gadw ar daenlenni yn system Rheolaeth y Trysorlys.

**b)** Caiff hwn ei wirio'n annibynnol i fantolen y llyfr cyfrifon ariannol.

**c)** Cedwir cofnodion rhagweld llif arian digonol ac effeithiol ar system Reolaeth y Trysorlys i gefnogi'r penderfyniad i fenthyca neu i roi benthyg.

**ch)** Anfonir cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r telerau yn syth i'r sefydliad sy'n rhoi benthyg.

**d)** Derbynnir cadarnhad ysgrifenedig gan y PWLB am bob benthyciad.

**dd)** Caiff yr holl drafodion a roddir drwy'r broceriaid eu cadarnhau gan nodyn brocer yn dangos manylion y benthyciad a drefnwyd.

**Cyflawnder:**

**a)** Diweddarir y gofrestr fenthyciadau i gofnodi'r holl fenthyca a buddsoddiadau. Mae hyn yn cynnwys dyddiad y trafodion, dyddiad aeddfedu, cyfradd llog ayb.

**Mesur:**

**a)** Caiff y cyfrifiad am ad-daliad y prifswm a'r llog a nodwyd gan y benthyciwr neu'r sawl sy'n rhoi benthyg ei wirio yn erbyn y swm a gyfrifwyd gan system Rheolaeth y Trysorlys.

**b)** Mae system Rheolaeth y Trysorlys yn cyfrifo'n awtomatig y taliadau llog sy'n ddyledus ar PWLB a benthyciadau tymor hir eraill. Defnyddir hyn wedyn i wirio yn erbyn yr union swm a delir i'r benthycwyr yma.

**c)** Caiff cyfartaledd cyfraddau llog y gronfa benthyciadau cyfalaf wedi eu pwysoli a'r treuliau rheoli dyled eu cyfrifo'n chwarterol drwy ddefnyddio gwybodaeth o'r llyfr cyfrifon ariannol a phrintiau croniadau o system Rheolaeth y Trysorlys.

**ch)** Mae'r cyfraddau llog a threuliau yma yn cael eu defnyddio wedyn i gyfrifo'r prifswm, y llog a chostau treuliau rheoli dyled.

**Amseroldeb:**

**a)** Mae'r system Rheolaeth Trysorlys yn atgoffa'r Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys ei bod yn amser talu arian a fenthyciwyd neu arian a roddwyd ei fenthyg.

**Rheoleidd-dra:**

**a)** Dim ond i sefydliadau ar y Rhestr Gymeradwyedig y dylid rhoi unrhyw fenthyciad.

**b)** Mae'n rhaid i unrhyw fenthyciadau a godwyd ac ad-daliadau a wnaed fynd yn syth i mewn ac allan o gyfrif banc y sefydliad.

**c)** Gosodir cyfyngiadau awdurdod ar bob sefydliad (gweler 1.5.1).

**ch)** Mae gan froceriaid restr o swyddogion a enwyd i ymgymryd â thrafodion benthyciad.

**d)** Mae yna warant yswiriant digonol i weithwyr sy'n cymryd rhan mewn rheoli a chyfrifo benthyciadau.

**dd)** Mae'r cyfansymiau rheoli ar y system Rheolaeth Trysorlys ar gyfer benthyca a rhoi benthyg yn cael eu cysoni'n rheolaidd â chodau mantolen y llyfr cyfrifon gan y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau.

**e)** Mae yna wahanu dyletswyddau yn yr Adran rhwng ad-dalu benthyciad a'i wirio a'i awdurdodi.

**f)** Mae cysoni banc yn digwydd yn fisol o'r datganiad banc i'r llyfr cyfrifon ariannol.

**ff)** Mae gan y tîm rheolaeth trysorlys a'r tîm incwm restr cod ariannol wedi ei diweddaru.

**Diogelwch:**

**a)** Dim ond gyda chyfrinair y gellir mynd i mewn i systemau Rheolaeth Trysorlys.

**b)** Dim ond llofnodydd siec y cytunwyd arno all awdurdodi sieciau. Mae'r rhestr o lofnodwyr eisoes wedi ei chytuno arni gan ddarparwr presennol ein gwasanaethau bancio.

**Cadarnhad:**

**a)** Mae mantolenni'r system Rheolaeth Trysorlys yn cael eu gwirio gyda chodau llyfr cyfrifon y fantolen ar ddiwedd pob mis ac ar ddiwedd y

flwyddyn ariannol. Cedwir papurau gweithiol ar gyfer archwiliad awdit. Cynhyrchir rhestriad cost ddyled/incwm buddsoddiad bob tro y mae'r costau dyled/incwm buddsoddiad yn cael eu hail-gyfrifo at ddibenion monitro'r gyllideb. Cynhyrchir rhestriad costau dyled/incwm buddsoddiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd a chedwir y ddogfen hon ar gyfer archwiliad awdit.

**1.7.2 Trefniadau cynllunio argyfwng ac wrth gefn**

**a)** Os yw cyfrifiadur System y Trysorlys yn methu gellir ailosod y meddalwedd ar gyfrifiadur arall a fydd yn gallu cyrchu'r ffeiliau priodol ar y rhwydwaith. Gellir defnyddio cyfrifiadur rhwydwaith wrth gefn hefyd os oes angen.

**b)** Os yw'r system bancio electronig yn methu, yna gellir rhoi gorchmynion talu CHAPS dros y ffôn. Gellir cael balansau banc dros y ffôn hefyd.

**1.7.3 Manylion yswiriant**

Mae gan y Cyngor bolisi yswiriant 'Fidelity' gyda Zurich Municipal. Mae hyn yn gwarantu ar gyfer colli arian drwy dwyll neu anonestrwydd ar ran gweithwyr.

**1.8 GWERTH BUDDSODDIADAU AR Y FARCHNAD**

Mae'r risg bod, drwy amrywiad anffafriol yn y farchnad yng ngwerth y prifswm mae awdurdod yn benthyca neu buddsoddi mae ei bolisïau a amcanion rheolaeth trysorlys yn cael ei gyfaddawdu, eto sy'n effeithio nad yw wedi diogelu eu hunain yn ddiogel.

**1.8.1 Manylion y gweithdrefnau a'r cyfyngiadau cymeradwyedig ar gyfer rheoli'r risg i fuddsoddiadau y gall eu gwerth cyfalaf amrywio (Gilts, CDS, ayb.)**

Gweler y matrics ym mharagraff 1.1.1 ar gyfer y cyfyngiadau perthnasol.

## <u>ARhT2 GWERTH GORAU A MESUR PERFFORMIAD</u>

**2.1 Y FETHODOLEG I'W DEFNYDDIO AR GYFER GWERTHUSO EFFAITH PENDERFYNIADAU RHEOLAETH TRYSORLYS**

Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio, ar faterion rheolaeth trysorlys yn y cyfarfod cyntaf posibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond beth bynnag erbyn diwedd mis Medi. Bydd cynnwys yr adroddiad blynyddol yn gynhwysfawr, yn ymdrin â holl weithgareddau ariannol gwaith y trysorlys ac yn cynnwys mesurau perfformiad blynyddol. Mae ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn adolygu'n portffolio dyled presennol dwywaith y flwyddyn a'r holl drafodion a wnaed yn y cyfamser er mwyn sicrhau bod arfer gorau wedi cael ei ddilyn.

**2.2 Y POLISI SY'N YMDRIN Â DULLIAU AR GYFER PROFI GWERTH GORAU MEWN RHEOLAETH TRYSORLYS**

**2.2.1 Amlder a phrosesau tendro**

Bydd y prosesau ar gyfer hysbysebu a dyfarnu cytundebau yn unol â Rheolau Sefydlog Cytundeb y Cyngor.

**2.2.2 Gwasanaethau bancio**

Bydd gwasanaethau bancio yn cael eu hail-dendro neu eu hail-negodi bob 5 mlynedd (gyda opsiwn i estynu yn flynyddol am ddwy flynedd) i sicrhau bod lefel y prisiau yn dangos cynilion effeithlonrwydd a wnaed gan y cyflenwr a'r tueddiadau prisio cyfredol.

**2.2.3 Gwasanaethau broceriaeth arian**

Bydd y Cyngor yn defnyddio gwasanaethau broceriaeth arian i wneud adneuon neu i fenthyca, a bydd yn darganfod costau pob gwasanaeth cyn eu defnyddio. Bydd rhestr gymeradwyedig o froceriaid yn cael ei llunio sy'n cymryd i ystyriaeth y prisiau a safon y gwasanaethau.

**2.2.4 Gwasanaethau ymgynghorwyr**

Mae'r Cyngor wedi penodi ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys proffesiynol ac yn prynu cyngor lesu fel bo angen.

**2.2.5 Polisi ar Reolwyr Allanol (Heblaw'r rheiny sy'n perthyn i'r Cronfeydd Pensiwn)**

Nid yw'r Cyngor hwn yn defnyddio rheolwr cronfa fuddsoddi allanol i reoli cyfran o arian sydd dros ben.

## 2.3 Y DULLIAU I'W DEFNYDDIO AR GYFER MESUR PERFFORMIAD GWEITHGAREDDAU RHEOLAETH TRYSORLYS Y CYNGOR

**2.3.1** Perfformiad yn cael ei fesur yn erbyn targedau Datganiad Blynyddol Strategaeth y Trysorlys;

**2.3.2** Cydymffurfio â Chod Ymarfer Trysorlys CIPFA;

**2.3.3** Treuliau wedi eu cynnwys o fewn cyllideb gymeradwyedig.

## 2.4 METHODOLEG MEINCNODI A CHYFRIFO:

**2.4.1 Rheoli dyled**

**a)** Cyfradd gyfartaledd ar bob dyled allanol;

**b)** Cyfradd gyfartaledd ar ddyled allanol a fenthyciwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

**2.4.2 Buddsoddiad**

Bydd perfformiad enillion buddsoddiad mewnol yn cael ei fesur yn erbyn LIBID 7 diwrnod.

# <u>ARhT3 GWNEUD PENDERFYNIADAU A DADANSODDI</u>

## 3.1 CYLLIDO, BENTHYCA, RHOI BENTHYG, AC OFFERYNNAU/TECHNEGAU NEWYDD:

**3.1.1 Cofnodion i'w cadw**

Mae'r adran Trysorlys yn cofnodi eu trafodion ar y cyfrifiadur; yn bennaf drwy taenlenni Excel.

**Bydd y cofnodion canlynol yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â phob buddsoddiad:**

**a)** Allbrint o'r gweddill yn y banc ar ddechrau pob diwrnod. (Caiff y gweddill a gliriwyd sy'n cael ei ddangos ar yr allbrint ei ddefnyddio fel man cychwyn i'r blaenamcaniad arian dyddiol).

**b)** Mae taflen llif arian yn cael ei llenwi a'i llofnodi gan y sawl a'i llenwodd. Yna mae'r daflen yn cael ei gwirio gan berson arall. (Defnyddir y daflen llif arian ar gyfer blaenamcanion arian dyddiol, gan ei bod yn rhoi manylion y gweddill cychwynnol yn y banc a phob buddsoddiad sy'n dod i mewn neu daliadau sy'n mynd allan o'r cyfrifon).

**c)** Caiff sgyrsiau ffôn sy'n ymwneud â delio eu recordio. (Cedwir yr hen dapiau mewn cwpwrdd dan glo nes bod pob un o'r buddsoddiadau ar y tâp wedi aeddfedu).

**ch)** Pan fo buddsoddiadau'n cael eu gwneud, caiff y ddêl ei chofnodi ar daflenni benthyg. Rhaid llenwi taflen fenthyg ar wahân i bob buddsoddiad unigol. Mae'r daflen fenthyg yn dangos y dyddiad y gwnaed y buddsoddiad, y gwrthbarti, y brocer, y swm a fuddsoddwyd, hyd y benthyciad a'r gyfradd llog.

**d)** Dylid derbyn cadarnhad ysgrifenedig o delerau'r ddêl gan y brocer a/neu'r gwrthbarti.

**dd)** Mae manylion y buddsoddi i gyd yn cael eu mewnbynnu wedyn i'r cyfrifiadur.

**Bydd y cofnodion canlynol yn cael eu defnyddio yn gysylltiedig â phob benthyciad:**

**a)** Rhaid llenwi ffurflen Blaenswm PWLB. Rhaid i'r cais gael ei awdurdodi gan y Pennaeth Cyllid neu'r Uwch Reolwr Cyllid cyn y gellir gwneud y trafodion.

**b)** Dylid derbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r ddêl gan y PWLB. Dylai'r cadarnhad gynnwys gwybodaeth fel dyddiad y blaenswm, y ffi a dalwyd, y prifswm, y cyfnod ad-dalu a'r gyfradd llog blynyddol.

**c)** Mae manylion y benthyciad yn cael eu mewnbynnu wedyn i'r cyfrifiadur.

### 3.1.2 Prosesau i'w dilyn

**a)** Dadansoddiad llif arian;

**b)** Cysoni'r llyfr cyfrifon;

**c)** Adolygiad chwarterol o'r gofynion benthyca;

**ch)** Monitro blaenamcanion costau'r benthyciad a chostau llog a threuliau.

**d)** Adolygiad o'r cyfleoedd i aildrefnu dyled.

**dd)** Casglu gwybodaeth perfformiad misol.

### 3.1.3 Materion i'w trafod

#### 3.1.3.1. Gyda phob penderfyniad bydd y Cyngor:

**a)** yn anad dim yn gwbl eglur am natur a graddfa'r risgiau y gallai'r Cyngor fod yn eu hwynebu;

**b)** yn sicr bod y penderfyniad a wnaed a natur y trafodion yn gyfreithiol, a bod pob awdurdod i symud ymlaen wedi eu rhoi;

**c)** yn fodlon bod y dogfennau yn ddigonol i gyflwyno amcanion y Cyngor ac i warchod buddiannau'r Cyngor, a dangos cadw tŷ da.

**ch)** gwneud yn siŵr bod y trydydd person yn foddhaol yng nghyd-destun polisïau teilyngdod credyd y Cyngor a'u bod wedi cadw at y cyfyngiadau.

**d)** yn fodlon bod telerau unrhyw drafodion wedi eu gwirio'n llawn yn erbyn y farchnad, a'u cael yn gystadleuol.

**3.1.3.2 O ran benthyca a phenderfyniadau cyllido eraill, bydd y Cyngor:**

**a)** yn ystyried y seiliau cyfradd llog eraill sydd ar gael, y cyfnod mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio;

**3.1.3.3 O ran penderfyniadau buddsoddi, bydd y Cyngor yn:**

**a)** ystyried y cyfnod mwyaf ffafriol, yng ngoleuni'r llif arian sydd ar gael ac amodau cyffredinol y farchnad;

**b)** ystyried y nwyddau a'r technegau buddsoddi eraill sydd ar gael, yn enwedig goblygiadau defnyddio unrhyw rai a allai wneud y Cyngor yn agored i newidiadau yng ngwerth ei gyfalaf.

## ARhT4 OFFERYNNAU, DULLIAU A THECHNEGAU CYMERADWY

### 4.1 GWEITHGAREDDAU CYMERADWY YNG NGWEITHREDIAD RHEOLAETH Y TRYSORLYS

**4.1.1 Y rhain yw'r gweithgareddau cymeradwy yng ngweithrediad Rheolaeth y Trysorlys:**

**a)** benthyca cyllid;
**b)** buddsoddi arian dros ben;
**c)** rheoli dyled gan gynnwys ail-drefnu;
**ch)** rheoli effaith y gyfradd llog;
**d)** ystyried, cymeradwyo a defnyddio offerynnau ariannol newydd a thechnegau rheoli'r trysorlys;
**dd)** rheoli'r llif arian dyddiol a'r rhagolygon tymor hir ohono;
**e)** gweithgareddau bancio; a
**f)** phrydlesu.

### 4.2 OFFERYNNAU CYDNABYDDEDIG AR GYFER BUDDSODDIADAU

**4.2.1** Bydd pob buddsoddiad yn cydymffurfio â Rheoliadau Buddsoddi Cymeradwy Cyllid Cyfalaf Awdurdodau Lleol 1990 SI 426 a'r newidiadau ers hynny. Rhestrir y buddsoddiadau sydd yn cael eu defnyddio yn y matrics ym mharagraff 1.1.1.

**4.2.2** Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid fydd creu rhestr o'r sefydliadau y caiff y Cyngor fuddsoddi ei arian ynddynt ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau penodol rhwng gwrthbartïon a berthyn iddynt.

### 4.3 TECHNEGAU CYMERADWY

Nid yw'r Cyngor yn delio ymlaen hyd at 364 diwrnod.

### 4.4 DULLIAU CYMERADWY A FFYNONELLAU ER MWYN CODI ARIAN CYFALAF

**4.4.1** Bydd y Cyngor yn codi arian yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn unig a bydd gan y Cyngor nifer o ddulliau cymeradwy a ffynonellau er mwyn codi arian cyfalaf oddi mewn i gyfyngiadau'r Ddeddf . Y rhai hyn yw:

| **Ar y Fantolen** | **Sefydlog** | **Newidiol** |
|---|---|---|
| PWLB | ● | ● |
| EIB | ● | ● |
| Marchnad (tymor hir) | ● | ● |
| Marchnad (dros dro) | ● | ● |

| | | |
|---|---|---|
| Gorddrafft | | ● |
| Mewnol (derbyniadau cyfalaf & balansau refeniw) | ● | ● |
| Prydlesu (heb fod yn brydlesau gweithredol) | ● | ● |

**Dulliau Eraill o Ariannu**
Grantiau Cyfalaf y Llywodraeth a'r GE
Arian Loteri
PFI/PPP
Prydlesau gweithredol

Rhoddir ystyriaeth i bob math o gyllid yn unol â'r sefyllfa ariannol ar y pryd, y rheoliadau ac ystyriaethau lleol. Rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid yn unol â'r Rheoliadau Ariannol, Rheolau Sefydlog, Polisi'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys i wneud y trefniadau benthyca mwyaf addas o blith y ffynonellau cymeradwy.

## ARhT5 TREFNIADAETH, EGLURDER A GWAHANIAD CYFRIFOLDEBAU, A THREFNIADAU DELIO

### 5.1 CYFYNGIADAU I GYFRIFOLDEBAU/DISGRESIWN AR LEFELAU PWYLLGOR/GWEITHREDOL

a) Bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn ac yn adolygu adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheolaeth trysorlys, yn ogystal â'r strategaeth rheolaeth trysorlys blynyddol bwriadedig.

b) Bydd yr Arweinydd Portffolio yn derbyn adroddiadau ynglŷn ag unrhyw ail-drefnu dyledion ac os yw o'n credu ei bod hi'n fater o sylwedd, adroddir hefyd i Fwrdd y Cyngor.

c) Bydd y Pwyllgor Polisi a Strategaeth Gorfforaethol yn derbyn yr adroddiad blynyddol ar y gwir strategaeth rheolaeth trysorlys yn erbyn yr hyn a ddisgwylid.

ch) Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid fydd creu newidiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor, y datganiad polisi rheolaeth trysorlys ac arferion rheolaeth trysorlys.

d) Bydd y Pennaeth Cyllid yn cymeradwyo gwahaniad cyfrifoldebau.

dd) Bydd y Pennaeth Cyllid yn derbyn ac yn adolygu adroddiadau archwilio allanol ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Archwilio.


e) Bydd y Pennaeth Cyllid yn cymeradwyo'r dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol ac yn gosod y termau ac amodau yn unol â Rheoliadau Ariannol.

### 5.2 EGWYDDORION AC ARFERION YNGHYLCH PENNU CYFRIFOLDEBAU

Y Pennaeth Cyllid neu'r Uwch Reolwr Cyllid sydd yn awdurdodi pob benthyciad tymor hir newydd. Wedi derbyn yr awdurdodiad bydd y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau neu'r Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys yn dwyn y benthyciad hwnnw ymlaen.

Mae'r awdurdod i weithredu ar fenthyciad sydd yn ymwneud â threfniadau cynharach wedi'i ymddiried i'r Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau. Bydd un o'r llofnodwyr awdurdodedig yn awdurdodi benthyciadau a buddsoddiadau tymor byr .

## 5.3 SIART TREFNIADAETH RHEOLAETH Y TRYSORLYS




* Llofnodwyr Awdurdodedig

## 5.4 DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU/DYLETSWYDDAU POB SWYDD YN Y TRYSORLYS

### 5.4.1. Pennaeth Cyllid

Bydd y Pennaeth Cyllid yn:

a) Argymell polisi rheolaeth trysorlys i'r Cyngor i'w gymeradwyo;
b) Adolygu'r polisi rheolaeth trysorlys, goruchwylio cydymffurfiad ac adrodd i'r Pwyllgor Archwilio.
c) Cyflwyno adroddiadau polisi rheolaeth trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio yn ôl yr angen.
ch) Cyflwyno cyllidebau ac amrywiad cyllidebau yn unol â'r Rheoliadau Ariannol a chyfarwyddyd.
d) Derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth rheoli.
dd) Sicrhau bod adnoddau a sgiliau rheolaeth trysorlys yn ddigonol a bod cyfrifoldebau wedi'u rhannu'n effeithiol yn swyddogaeth rheolaeth trysorlys.
e) Sicrhau bod y rhai sydd yn gweithredu ym maes rheolaeth trysorlys yn dilyn y polisiau a gweithdrefnau awdurdodedig bob amser.
f) Sicrhau bod yr archwiliad mewnol yn ddigonol a chysylltu â'r archwiliad allanol.

Rhoddwyd pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid trwy gyfrwng y polisi hwn iddo wneud y benthyciadau mwyaf addas o'r ffynonellau cymeradwy ac iddo wneud y buddsoddiadau mwyaf addas yn yr offerynnau cymeradwy.

Caiff y Pennaeth Cyllid ddirprwyo ei awdurdod i fenthyca a buddsoddi i aelodau o'i staff. Rhaid cael awdurdod i weithredu trafodion gan o leiaf un o'r llofnodwyr awdurdodedig.

Bydd y Pennaeth Cyllid yn sicrhau yr ymlynir wrth y Polisi ac os na fydd hynny'n digwydd bydd yn dod â'r mater i sylw'r aelodau etholedig cyn gynted ag y bo modd.
Cyn cychwyn ar unrhyw weithred i ariannu, benthyca neu fuddsoddi cyfalaf,

cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid yw sicrhau ei fod wedi'i fodloni, trwy ymgynghori gydag adran gyfreithiol y Cyngor ac ymgynghorwyr allanol fel y bo'n briodol, na fydd y weithred fwriadedig yn torri unrhyw statud, rheoliad allanol na Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

**5.4.3 Rheolwr Buddsoddiadau**

Rhain yw'r cyfrifoldebau: -

a) Paratoi Polisi Rheolaeth Trysorlys drafft i'w gymeradwyo, gan adolygu'r cyfryw yn rheolaidd, a goruchwylio cydymffurfiad.

b) Paratoi Adroddiadau Gwybodaeth Rheoli i'w gymeradwyo, gan adolygu'r cyfryw yn rheolaidd, a goruchwylio cydymffurfiad.

c) Paratoi adroddiadau ac ystadegau ar berfformiad Rheolaeth Trysorlys.

ch) Goruchwylio holl weithgareddau'r Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau a staff eraill sydd yn ymgymryd â dyletswyddau Rheolaeth Trysorlys.

d) Argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol yn unol â rheolau sefydlog y Cyngor.

**5.4.4 Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau**

Rhain yw'r cyfrifoldebau: -

a) Cynorthwyo'r Rheolwr Buddsoddiadau i baratoi Polisi Rheolaeth Trysorlys drafft ac Adroddiadau Gwybodaeth Rheoli;

b) Cynorthwyo'r Rheolwr Buddsoddiadau i baratoi adroddiadau ac ystadegau ar berfformiad Rheolaeth Trysorlys.

c) Gweithredu trafodion ariannol.

ch) Glynu wrth bolisïau ac arferion a gytunwyd yn ddyddiol.

d) Cynnal perthynas gyda trydydd-bartïon a darparwyr gwasanaeth allanol.

dd) Monitro perfformiad yn ddyddiol.

e) Cyflwyno adroddiadau gwybodaeth rheoli.

f) Adnabod ac argymell cyfleoedd i wella arferion.

ff) Gwneud y swyddogaeth llif arian dyddiol yn absenoldeb y Technegydd Rheolaeth â'r Cyfrifydd Rheolaeth

**5.4.5 Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys**

Rhain yw'r cyfrifoldebau: -

a) Cynnal yr asesiad llif arian dyddiol a sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer trafodion dyddiol.

b) Sicrhau bod buddsoddiadau ac adneuon yn cydymffurfio gyda'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys.

c) Cwblhau'r dogfennaeth a sicrhau awdurdodiad ar gyfer buddsoddiadau arian dros ben.

ch) Cadw cofnodion ar gyfer yr holl trafodion.

d) Cofnodi trafodion ar y systemau ariannol.

dd) Cwblhau gwybodaeth rheolaeth trysorlys mewn cydymffurfiad gyda'r safonnau cyfrifo ar gyfer Datganiad o'r Cyfrifon y Cyngor.

## 5.5 TREFNIADAU MEWN CYFNODAU O ABSENOLDEB

Gweler y siart yn 5.3 a'r Datganiad Cyfrifoldebau yn 5.4 uchod.

## 5.6 RHESTR BROCERIAID CYMERADWY

Caiff y Cyngor ddefnyddio'r broceriaid a ganlyn:-

a) Prebon Yamane (UK) Ltd

b) Icap Ltd;

c) Sterling Brokers Ltd;
ch) Tradition Brokers;
d) RP Martin Brokers (UK) Plc;
dd) King & Shaxson

**5.7 POLISI AR WASANAETHAU BROCERIAID**

Bydd y Cyngor yn ceisio rhannu gwaith rhwng broceriaid. Fodd bynnag, blaenoriaeth gyntaf y Cyngor fydd sicrhau'r cyfraddau gorau oll.

**5.8 POLISI AR DAPIO TRAFODAETHAU**

Bydd y Cyngor yn cofnodi pob trafodaeth gyda broceriaid neu wrthbartion pan fydd yn cadarnhau telerau neu awdurdodi taliad neu gyfarwyddyd arall. Cedwir y tapiau mewn cwpwrdd dan glo nes y bydd pob un o'r buddsoddiadau y soniwyd amdanynt ar y tap wedi aeddfedu .

**5.9 ARFERION DELIO UNIONGYRCHOL**

Bydd y Cyngor yn delio'n uniongyrchol gyda rhai gwrthbartïon. Sylweddolwyd y gellir cael manteision ychwanegol, megis gwell cyfraddau llog, trwy ddelio'n uniongyrchol.

**5.10 GWEITHDREFNAU TROSGLWYDDO SETLIAD**

Mae pedwar rhan i'r broses hon a bydd o leiaf tri aelod o staff yn cymryd rhan yn y broses. Bydd angen i bob un ohonynt arwyddo tan y pennawd perthnasol ar y ffurflen "Taliadau CHAPS" i gadarnhau eu bod wedi gwneud yr hyn y dylasent ei wneud. Mae pedwar rhan i'r broses fel a ganlyn:

a) Bydd y Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (neu'r sawl a wnaeth y llif arian yn ei habsenoldeb) yn mewnosod y data ar y Barclays Business Internet Banking (BBIB). Bydd y data'n cynnwys enw'r gwrthbarti, manylion y cyfrif banc a swm yr arian a drosgwlyddir iddynt. Wedi cwblhau'r manylion hyn bydd yn rhoi ei lofnod gyferbyn â'r pennawd "Mewnosod" ar y ffurflen. Wedi gwneud hyn bydd yn rhoi'r ffurflen i'r Cyfrifydd Rheolaeth (neu i rywun arall yn ei absenoldeb).
b) Bydd y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (neu rywun arall yn ei habsenoldeb) yn gwirio'r symiau i sicrhau bod yr holl fanylion ar y ffurflen yn gywir. Mae'n rhaid iddo sicrhau bod enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu yn ymddangos ar ein rhestr o wrthbartion ac nad ydym yn mynd dros ben yr uchafswm a gytunwyd. Mae'n rhaid iddo hefyd sicrhau cywirdeb y cod banc a manylion y cyfrif banc yn erbyn y rhestr laminedig o wrthbartion. Wedi gwirio'r manylion hyn bydd yn rhoi ei lofnod gyferbyn â'r pennawd "Archwiliwyd" ar y ffurflen. Yna bydd yn trosglwyddo'r ffurflen i un o'r swyddogion awdurdodedig.
c) Bydd y swyddog awdurdodedig yn mynd i mewn i'r "BBIB" i sicrhau y mewnosodwyd y manylion yn gywir ac i wirio'r taliad. Yna bydd y swyddog yn rhoi ei lofnod gyferbyn â'r pennawd "Gwireddwyd" ar y ffurflen ac yn ei throsglwyddo i swyddog awdurdodedig arall.
ch) Bydd swyddog awdurdodedig arall yn mynd i mewn i'r "BBIB" ac yn sicrhau bod y manylion yn gywir ac yn awdurdodi a throsglwyddo'r taliad. Mae'r swyddog awdurdodeg yn cadarnhau bod statws y taliad yn dangos fel "completed" ar y sgrin "View Payments", yn llofnodi gyferbyn â'r pennawd "Awdurdodwyd" ar y ffurflen ac yn ei dychwelyd at y Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (neu'r sawl a wnaeth y llif arian yn ei habsenoldeb) a bydd yntau wedyn yn ffeilio'r ffurflen.

Oherwydd prinder staff mewn rhai achosion bydd yr un person wedi gwneud rhan b) ac c). Fodd bynnag nid yw'r "BBIB" yn caniatáu i'r un person wneud mwy nag un rhan o gamau a), c) ac ch).

Mae'n rhaid cwblhau'r trosglwyddiad cyn 2.30 o'r gloch ar yr un diwrnod.

**5.11 ANGHENION DOGFENNU**

Cwblheir taflen fenthyca ar gyfer pob trosglwyddiad a bydd yn cynnwys y manylion a ganlyn - rhif y benthyciad, y gwrthbarti, y swm, y cyfnod, y gyfradd llog, dyddiad y delio, dyddiad y taliad(au), y brocer, y cyfrif banc a'r rheswm dros wneud y benthyciad dros y cyfnod rhagnodedig. Yna bydd y Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys yn llofnodi'r daflen.

**5.12 TREFNIADAU SY'N YMWNEUD Â RHEOLI CRONFEYDD TRYDYDD-BARTION.**

Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid yw delio gyda chronfeydd ar gyfer trydydd-bartion (e.e. cronfeydd ymddiriedolaeth i ysgolion). Bydd yn cadw holl oblygiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cyllidol 1986 mewn cof wrth ddelio gyda'r cronfeydd hyn.

## ARhT6 GOFYNION O RAN ADRODD, A THREFNIADAU AR GYFER GWYBODAETH I REOLWYR

### 6.1 CYNNWYS AC AMLEDD GOFYNION ADRODD YN ÔL I'R BWRDD

### 6.1.1 Datganiad Strategaeth Blynyddol Rheolaeth Trysorlys

Mae Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yn egluro gweithgareddau bwriadedig y trysorlys dros y flwyddyn ariannol nesaf. Cyflwynir y strategaeth hon i'r Cyngor i'w chymeradwyo ar ddechrau neu cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth wedi'i seilio ar y farn gyfredol ar gyfraddau llog ynghyd â rhagolygon blaenllaw ar y farchnad a geir gan ymgynghorydd y trysorlys i'r Cyngor. Mae'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yn rhoi sylw i'r hyn a ganlyn:

a) sefyllfa bresennol portffolio rheolaeth trysorlys;
b) y cyfyngiadau mewn grym a fydd yn cyfyngu ar weithgareddau'r Cyngor a risg y trysorlys;
c) y rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog;
ch) benthyciadau cyfalaf a'r strategaeth portffolio benthyca gan gynnwys y Gofyn Cyllido Cyfalaf;
d) strategaeth buddsoddiadau dros dro;
dd) nifer y cyfleodd i ail-drefnu dyledion;
e) arian dros ben.

Bydd y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno unrhyw newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r strategaeth hon i Fwrdd y Cyngor i'w cymeradwyo.

### 6.1.2 Cyfyngiadau Benthyca

Cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cyfyngiadau a ganlyn:

a) faint o'r cyfyngiad benthyg cyfan sydd heb ei dalu drwy fenthyca tymor byr;
b) y gyfran uchaf o log ar fenthyca sydd dan reolaeth llog cyfradd newidiol.

Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid yw cynnwys y cyfyngiadau hyn yn Strategaeth Flynyddol Rheolaeth Trysorlys a sicrhau cydymffurfiad â hwynt. Pe byddai

angen newid y terfynau hyn bydd y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno'r newidiadau hynny i Fwrdd y Cyngor i'w cymeradwyo.

### 6.2 CYNNWYS AC AMLEDD YR ADRODDIADAU GWYBODAETH RHEOLI

#### 6.2.1 Adroddiad Rheolaeth Trysorlys

Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod cyntaf posibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol neu erbyn diwedd mis Medi yn ôl fel y digwydd. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys yr hyn a ganlyn: -

a) darlun cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn ariannol o'r holl bolisïau, gynlluniau, gweithgareddau a chanlyniadau ar gyfer y trysorlys;
b) manylion y trafodion ariannol a weithredwyd;
c) mesuriadau perfformiad;
ch) graddau cydymffurfiad â Chyfyngiadau'r Trysorlys.

#### 6.2.2 Monitro

Cyflwynir adroddiad canol flwyddyn adolygu rheolaeth trysorlys ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Awst i'r Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth a chraffu ym mis Medi. Cyflwynir adroddiadau monitro cyson ar weithgareddau a risgiau rheolaeth trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio fel bo angen.

#### 6.2.3 Craffu

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu'r polisiau ac ymarferion rheolaeth trysorlys yn ogystal â'r Strategaeth Blynyddol a'r Strategaeth Buddsoddi cyn i'w cyflwyno i Fwrdd y Cyngor.

#### 6.2.4 Adrodd ar Ail-drefnu Dyledion

Os gwneir unrhyw ail-drefnu dyledion fe adroddir i'r Arweinydd Portffolio. Os yw hi'n credu ei bod hi'n fater o sylwedd, adroddir hefyd i Fwrdd y Cyngor.

#### 6.2.5 Adroddiadau Rheoli Eraill

Bydd y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau yn cyflwyno adroddiadau gwybodaeth rheoli yn chwarterol ac fe'i cyflwynir i'r Pennaeth Cyllid.

Bydd yr adroddiadau misol yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:-

a) mesur misol o'r perfformiad buddsoddi yn erbyn y "LIBID" 7 diwrnod (y cyfartaledd ar gyfer y mis) yn ystod y flwyddyn ariannol;
b) crynodeb cyfamserol o'r holl fenthyca a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol. Ni ellir mesur perfformiad tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

## <u>ARhT7 TREFNIADAU CYLLIDEBU, CYFRIFWAITH AC ARCHWILIO</u>

### 7.1 ANGHENION STATUDOL/RHEOLIADOL

Defnyddir y Côd Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr gan CIPFA i lunio'r cyfrifon; y mae'r cod yn cynrychioli arferion cyfrifwaith priodol a sylfaenwyd yn y gyfraith.

### 7.2 ARFERION A SAFONAU CYFRIFWAITH

Rhoddir sylw priodol i'r Codau Ymarfer a Safonau Cyfrifwaith sydd yn berthnasol i Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddorion a welir yng Nghod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys yn

y Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyfarwyddyd Traws Sector gan CIPFA yn ei gyfanrwydd (“Côd a Chyfarwyddyd CIPFA”).

### 7.3 CYFRIFON/CYLLIDEBAU SAMPL

Bydd cyllideb ar gyfer llog, treuliau a chostau mewn perthynas â thaliadau benthyca yn cael ei pharatoi fel rhan o’r ymarfer gosod cyllideb a bydd yn cael ei harolygu pob chwarter.

### 7.4 RHESTR ANGHENION GWYBODAETH YR ARCHWILWYR ALLANOL.

#### 7.4.1 Benthyciadau

Y rhain yw gofynion gwybodaeth yr Archwilwyr Allanol:

a) Cysoni’r balans ar y benthyciadau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyda’r cyfriflyfr ariannol;
b) Dadansoddi aeddfedrwydd y benthyciadau heb eu talu;
c) Cysoni’r llog ar fenthyciadau a’r premiymau a dalwyd gyda’r cyfriflyfr ariannol fesul y math o fenthyciad;
ch) Cysoni’r adroddiad ar groniadau llog y Farchnad a'r “PWLB” gyda’r cyfriflyfr;
d) Cyfrifiad o’r llog ar y gronfa benthyciadau a chostau rheoli dyledion;
dd) Manylion ynglŷn â’r holl fenthyca newydd a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn;
e) Manylion ynglŷn â’r holl ail-drefnu dyledion a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn.

#### 7.4.2 Buddsoddiadau

Y rhain yw gofynion gwybodaeth yr Archwilwyr Allanol:

a) Cysoni’r buddsoddiadau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyda’r cyfriflyfr ariannol;
b) Cysoni’r llog a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn;
c) Cysoni’r llog cronedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## ARhT8 RHEOLAETH ARIAN A LLIF ARIAN

### 8.1 TREFNIADAU AR GYFER PARATOI RHAGAMCANIADAU LLIF ARIAN

Bydd rhagamcaniadau llif arian yn cael eu paratoi’n ddyddiol ac yn flynyddol. Fe adolygir y rhagamcaniadau llif arian blynyddol yn chwarterol ac fe’u haddasir hwynt yn unol ag unrhyw newidiadau hysbys yn y lefelau incwm a gwariant yn ogystal â newidiadau mewn dyddiadau talu a dyddiadau derbyn.

### 8.2 CYNNWYS AC AMLEDD CYLLIDEBAU LLIF ARIAN

Bydd y rhain wedi’u cynnwys yn y rhagamcaniadau llif arian:

**Taliadau**

a) Rhediad cyflogau – misol;
b) Pensiynau a dalwyd - misol;
c) Cymhorthdal Budd-dal Tai - wythnosol;
ch) Credydwyr – teirgwaith yr wythnos;
d) Prifswm a llog “PWLB” a Marchnad– amrywiol;
dd) Praeseptau – amrywiol.

**Incwm**

a) Incwm Cynulliad- amrywiol (setliad yn fisol);

b) Treth Cyngor a'r Gyfradd Ddomestig Genedlaethol (GDdG) – amrywiol;
c) Cymhorthdal Budd-dal Tai – misol.

**8.3 RHESTR FFYNONELLAU GWYBODAETH**

a) TR126(a)'au neu'r rhestr gyflogau ar gyfer rhediad taliadau ;
b) TR126(b)'au neu'r rhestr gyflogau ar gyfer pensiynau;
c) Manylion Taliadau a dderbynnir gan y Cynulliad o leiaf wythnos o flaen llaw yn rhoi manylion y swm a'r dyddiad y bydd yr arian yn ymddangos yng nghyfrif banc y Cyngor;
ch) TR126(a)'au ar gyfer manylion credydwyr;
d) Gwybodaeth ynglŷn â Threth Cyngor a'r GDdG a geir gan yr Adran Refeniw;
dd) Bydd y Cynulliad yn anfon amserlen taliadau Grantiau Cymorth Trethi (GCT) atom cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol. Telir y GCT i ni mewn rhandaliadau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r amserlen yn rhoi dyddiad talu pob rhandaliad a'r swm a delir;
e) Cofnod Rheoli Trysorlys ar gyfer taliadau llog a thaliadau premiwm ar fenthyciadau. Bydd y "PWLB" hefyd yn anfon Amserlenni Ad-dalu Benthyciadau atom ychydig o wythnosau cyn y dyddiad i'w dalu;
f) Cawn fanylion gan Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, yr Awdurdod Tân, Cyfoeth Naturiol Cymru a.y.b. cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol.

**8.4 GWEITHDREFNAU CYFRIFLENNI**

Bydd cyfriflenni ar gyfer pob cyfrif incwm yn cael eu codi o'r system fancio yn ddyddiol. Rhoddir cod ar gyfer pob un o'r trafodion a defnyddir y ddogfen i fewnosod gwybodaeth yn y system derbyniadau arian. Bydd y rhyngwyneb derbyniadau arian a geir pob diwrnod ar derfyn masnachu yn diweddaru'r cyfriflyfr cyffredinol a'r is-systemau perthnasol. Bydd yr holl drafodion incwm i mewn i'r banc yn cael eu gwirio'n ddyddiol yn erbyn y cyfriflyfr cyffredinol ac fe geir datganiad cysoni ar derfyn pob mis.

**8.5 TREFNU TALIADAU A THELERAU MASNACH GYTUNEDIG GYDA CHREDYDWYR**

Ein polisi arferol ni yw talu credydwyr o fewn 30 diwrnod ers dyddiad yr anfoneb. Er hynny, yn dilyn gofynion Cynulliad Cymru gwneir taliadau o fewn 10 diwrnod ar hyn o bryd er mwyn cefnogi busnesau gyda'u llif arian yn yr hinsawdd ariannol anodd. Adolygir y polisi yng ngoleuni unrhyw newidiadau i ofynion Cynulliad Cymru. Mae'n rhaid gwneud taliadau tystysgrifedig i isgontractwyr o fewn 14 diwrnod.

**8.6 TREFNIADAU AR GYFER MONITRO LEFELAU DYLEDWYR A CHREDYDWYR**

Rhoddir adroddiadau misol gyda manylion dyledion heb eu talu i'r rheiny mewn adrannau gwasanaeth sydd â diddordeb. Bydd adroddiadau yn cael eu llunio a'u rhoi i'r Pennaeth Cyllid a'r Uned Effeithlonrwydd Canolog ynglŷn â monitro cyfraddau casglu a dadansoddi hen ddyledion yn chwarterol. Cyfrifir y ddarpariaeth drwgddyled yn flynyddol ar sail y dadansoddiad o hen ddyledion ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r adran Credydwyr yn rhoi ystadegau chwarterol o'r anfonebau a ddanfonwyd gan bob adran a'r gyfran a dalwyd o fewn 10 diwrnod a 32 diwrnod i'r Pennaeth Cyllid.

**8.7 Y DREFN YNGLŶN Â BANCIO ARIAN**

Yn unol â'r rheoliadau ariannol bydd yr holl arian a'r sieciau a dderbynnir gan unrhyw Swyddog ar ran y Cyngor yn cael ei roi'n syth yn y banc neu i Arianwyr y Cyngor i'w bancio yn ddyddiol neu o fewn cyfnod o amser a bennwyd gan y Pennaeth Cyllid ac ni chaniateir unrhyw ddidyniad.

## ARhT9 CUDDIO TARDDIAD ARIAN GWEITHGAREDDAU TROSEDDOL

### 9.1 Y DREFN YNGLŶN Â DARGANFOD PWY YW'R BENTHYCWYR A PHROFI DILYSRWYDD

Ni fydd y Cyngor fel arfer yn derbyn benthyciadau gan unigolion. Bach yw nifer a maint y benthyciadau a wnaeth y Cyngor gydag unigolion. Bydd y Cyngor yn darganfod pwy yw'r benthycwr cyn y bydd yn derbyn y benthyciad. Bydd unrhyw fenthyciadau sylweddol eu maint yn dod o'r "PWLB", oddi wrth awdurdodau lleol eraill neu oddi wrth sefydliadau awdurdodedig tan amodau Deddf Bancio 1987: ('roedd Banc Lloegr yn cyhoeddi enwau'r sefydliadau hyn pob chwarter yn y rhestr awdurdodedig a gyhoeddwyd ganddynt hyd at 1.12.2001 ac ers hynny cyfrifoldeb Yr Awdurdod Gwasanaethau Cyllid yw cynnal y rhestr. Gellir gweld y rhestr ar eu gwefan ar www.fsa.gov.uk).

### 9.2 METHODOLEG AR GYFER DARGANFOD TARDDIAD FFYNONELLAU ARIANNOL

Wrth gyflawni gwaith y Trysorlys bydd y Cyngor yn benthyg arian yn unig i wrthbartion neu'n buddsoddi yn y gwrthbartïon hynny sydd â'u henwau ar restr gydnabyddedig y Cyngor. Gwneir benthyciadau i fusnesau lleol perthnasol o dan y Cynllun Cronfa Benthyciadau Lleol.

## ARhT10 HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU STAFF

### 10.1 SWYDDOGION

#### 10.1.1 MANYLION CYRSIAU HYFFORDDIANT CYMERADWY

Bydd cyfle i ddarganfod anghenion hyfforddiant y staff yn ystod y dadansoddiad anghenion hyfforddiant a wneir yn ystod Gwerthusiad Staff.

#### 10.1.2 COFNODION O HYFFORDDIANT A GAFODD STAFF Y TRYSORLYS

Mae'r Uned Buddsoddi yn cadw cofnod o'r hyfforddiant a fynychir.

#### 10.1.3 Y DREFN AR GYFER DATBLYGU GYRFA/SEFYDLU OLYNIAETH

Fe fynychir seminarau Rheolaeth Trysorlys fel y bernir yn addas.

#### 10.1.4 CYMWYSTERAU CYDNABYDDEDIG AR GYFER STAFF Y TRYSORLYS

Bydd y Pennaeth Cyllid yn arfer ei gyfrifoldebau proffesiynol trwy gydymffurfiad personol a thrwy sicrhau hyfforddiant priodol ar gyfer staff y Trysorlys. Bydd cydymffurfiad unrhyw aelodau eraill o staff sydd yn ymwneud â gweithgareddau'r trysorlys â'r "Cod" wedi'i sicrhau .

### 10.2 CYNGHORWYR

#### 10.2.1 MYNEDIAD I HYFFORDDIANT

Yn unol â'r Cod CIPFA darperir hyfforddiant priodol i'r Cynghorwyr gyda chyfrifoldeb yn y maes Rheolaeth Trysorlys fel bo angen.

## ARhT11 DEFNYDDIO DARPARWYR GWASANAETH ALLANOL

### 11.1 MANYLION CONTRACTAU GYDA DARPARWYR GWASANAETH, GAN GYNNWYS BANCWYR, BROCERIAID AC YMGYNGHORWYR

#### 11.1.1 Gwasanaethau Bancio

**a)** Enw'r darparwr gwasanaeth yw Banc Barclays Ccc.

**b)** Cychwynnodd y contract ar 01 Hydref 2010 a bydd yn parhau am 5 mlynedd tan 30 Medi 2010 gydag opsiwn i'w ymestyn yn flynyddol am 2 flynedd ychwanegol.

**c)** Bydd costau'r gwasanaeth yn amrywio yn unol â'r maint. Bydd prisiau'r tendr yn sefydlog am 12 mis cyntaf y contract. Wedyn bydd y prisiau yn codi yn unol â Mynegrif Prisiau Manwerth (RPI).

#### 11.1.2 Gwasanaethau broceriaid

Enwau'r darparwyr gwasanaeth:

**a)** Prebon Yamane (UK) Ltd;
**b)** Icap Ltd;
**c)** Sterling Brokers Ltd;
**ch)** Tradition Brokers;
**d)** RP Martin Brokers;
**dd)** King and Shaxson.

#### 11.1.3 Gwasanaethau Ymgynghorwyr

**Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Trysorlys**
Enw'r darparwr gwasanaeth yw Arlingclose Limited.

**Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Prydlesu**
Enw'r darparwr gwasanaeth yw Arlingclose Limited.

### 11.2 TENDRO GWASANAETHAU:GWEITHDREFNAU AC AMLEDD

Gweler ARhT2, Paragraff 2.2

## ARhT 12 TREFN LLYWODRAETH GORFFORAETHOL

### 12.1 RHESTR O'R DOGFENNAU Y DYLAI'R CYHOEDD GAEL MYNEDIAD ATYNT

**a)** Cyfrifon Blynyddol;
**b)** Y Gyllideb Flynyddol;
**c)** Cynllun Cyfalaf 3 mlynedd;
**ch)** Polisi Rheolaeth Trysorlys;
**d)** Strategaeth Rheolaeth Trysorlys;
**dd)** Adroddiad Blynyddol y Trysorlys;
**e)** Mynediad at gofnodion.

**ATODIAD CH**

# Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2015/16

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mawrth 2011 fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer Rhifyn 2011): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.2 Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig a elwir y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* ym mis Ebrill 2010 sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol yr Awdurdod dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

1.4 Mae'r Awdurdod wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risgiau'n llwyddiannus yn greiddiol i strategaeth rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Y Cefndir Economaidd

Mae momentwm yn economi'r DU, gyda chyfnod o dwf yn parhau drwy weithgaredd sy'n cael ei yrru'n ddomestig, a threuliant aelwydydd yn gryf. Mae arwyddion bod y twf yn datblygu'n fwy cytbwys. Disgwylir i'r cynnydd yng nghyfraniad buddsoddiad gan fusnesau gefnogi'r twf mewn GDP, er yn arafach. Fodd bynnag, mae pwysau chwyddiant yn wan, ac mae'n debygol o barhau felly yn y tymor byr. Cafwyd lleihad mawr mewn diweithdra ond mae'r lefelau o weithio rhan-amser, hunangyflogaeth a thangyflogaeth yn sylweddol, ac mae'r twf mewn enillion nominal yn wan ac yn is na lefel chwyddiant.

Mae'r MPC yn canolbwyntio ar faint o gapasiti sbâr sydd yn yr economi, ac ar ba mor gyflym y caiff ei ddefnyddio, ffactorau sydd wedi arwain at gryn drafodaeth yn y Pwyllgor. Er bod dau aelod o'r MPC wedi pleidleisio dros gynnydd o 0.25% yn y cyfraddau ym mhob un o'r cyfarfodydd o fis Awst 2014 ymlaen, mae rhai aelodau yn pryderu bod y rhagolygon economaidd yn llai optimistaidd nag yr oeddynt adeg Adroddiad Chwyddiant fis Awst.

2.2 **Rhagolygon credyd**

Mae trosiad dwy gyfarwyddeb Undeb Ewropeaidd i ddeddfwriaeth y DU dros y misoedd nesaf yn gosod baich anghyfartal o achub banciau'r UE sy'n methu ar fuddsoddwyr ansicredig awdurdodau lleol. Mae'r *Bank Recovery and Resolution Directive* yn hyrwyddo diddordebau unigolion a busnesau bach sy'n destun y Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol a chynlluniau eraill Ewropeaidd tebyg, tra bo'r *Deposit Guarantee Schemes Directive* ar ei newydd wedd yn cynnwys cwmnïau mawr fel rhan o'r cynlluniau hyn. Effaith gyfun y ddau newid hyn yw eu bod yn gadael awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau ariannol (gan gynnwys cronfeydd pensiwn) fel yr unig uwch gredydwyr sy'n debygol o ddioddef colledion mewn banc sy'n methu o fis Gorffennaf 2015 ymlaen.

Mae parhad yr adferiad economaidd byd-eang wedi arwain at welliant cyffredinol yn yr amgylchiadau credyd ers y llynedd. Mae'r gostyngiad yn amrediad cyfnewid diffygdalu credyd banciau a chwmnïau ar draws y byd yn brawf o hyn. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol uchod, bydd y risg **credyd wrth wneud adneuon banc ansicredig yn cynyddu**, o'i gymharu â risgiau'r opsiynau buddsoddi eraill sydd ar gael i'r Awdurdod.

2.3 **Rhagolygon Cyfraddau Llog**

Mae ymgynghorydd rheoli trysorlys yr Awdurdod, Arlingclose, yn darogan y cynnydd cyntaf mewn cyfraddau llog ym mis Awst 2015, i'w ddilyn gan batrwm graddol o gynnydd, gyda chyfartaledd o oddeutu 0.75% ar gyfer 2015/16. Cred Arlingclose y bydd lefelau'r Cyfraddau Banc wedi'u normaleiddio yn dilyn yr argyfwng rhwng 2.5% a 3.5%. Mae'r risg cadarnhaol (h.y. cyfraddau llog uwch) wedi'i bwyso'n fwy tua diwedd cyfnod y rhagolwg. Yn fwy negyddol, mae gwendid Ardal yr Ewro a bygythiad datchwyddiant wedi cynyddu'r risgiau i gadernid twf y DU. Os daw dangosyddion negyddol Ardal yr Ewro'n fwy sefydlog, mae'n debygol y bydd Banc Lloegr yn gohirio'r cynnydd mewn cyfraddau tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae Arlingclose yn darogan y bydd cynnyrch giltiau yn cynyddu yn y tymor canolig, sy'n arwain at ddarogan y byddai cyfradd benthyciadau 10 mlynedd PWLB yn 3.40% ar gyfer 2015/16**.**

2.4 Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod i'w weld yn ***Annex A***.

2.5 Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd y bydd buddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.67% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd.

## 3. Y Cyd-destun Lleol

3.1 Roedd yr Awdurdod wedi benthyca £110.5m ac roedd ganddo werth £48.3m o fuddsoddiadau ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2014. Mae hyn wedi'i egluro mewn mwy o fanylder yn ***Annex B***. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

**Tabl 1: Crynodeb Mantolen a'r Rhagolwg**

| | **31.3.14 Gwir £'000** | **31.3.15 Amcan-gyfrif £'000** | **31.3.16 Amcan-gyfrif £'000** | **31.3.17 Amcan-gyfrif £'000** | **31.3.18 Amcan-gyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyca CFR** | **173,308** | **173,308** | **175,228** | **179,510** | **185,052** |
| Llai: Benthyca allanol * | (114,581) | (114,581) | (110,758) | (110,559) | (108,584) |
| **Benthyca mewnol** | **58,727** | **58,727** | **64,470** | **68,951** | **76,468** |
| Llai: Cronfeydd defnyddiadwy | (68,664) | (68,664) | (65,610) | (60,280) | (58,280) |
| Llai: Cyfalaf gweithio | (38,287) | (38,287) | (23,102) | (23.082) | (23,077) |
| **Buddsoddiadau** | **(48,224)** | **(48,224)** | **(24,242)** | **(14,411)** | **(4,889)** |

*yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt, heb gynnwys ail gyllido dewisol


3.2 Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol yr Awdurdod yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol, yn amodol ar ddal lleiafswm balans buddsoddi o £40m.

Mae Tabl 1 yn dangos nid oes angen i'r Cyngor benthyg yn ystod y tair mlynedd nesaf.

3.3 Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymell y dylai cyfanswm dyledion yr Awdurdod fod yn is na'i CFR uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys Tabl 1 fod yr Awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2015/16.

3.4 Er mwyn cynorthwyo gyda'i strategaeth rheoli trysorlys hirdymor, mae'r Awdurdod a'i ymgynghorwyr wedi creu meincnod rhwymedigaeth, sy'n rhagweld anghenion benthyca'r Awdurdod dros gyfnod o 50 mlynedd. Gan ddilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 1 uchod, mae'r meincnod yn rhagdybio:

- gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan fenthyciadau o £5m y flwyddyn
- lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar gyfnod oes ased o 25 mlynedd.
- cynnydd o 2.5% chwyddiant y flwyddyn ar incwm, gwariant a reserfau




Mae'r siart yn dangos bod benthyciadau yn llawer is na'r CFR a bod gan y Cyngor arian i fuddsoddi. Ar sail y tybiaethau y noder uchod hyn yw'r sefyllfa sydd yn debyg i parhau yn y tymor hir.

## 4. Y Strategaeth Fenthyca

4.1 Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn dal £111 miliwn o fenthyciadau, gostyngiad o £1 miliwn ar y flwyddyn flaenorol, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen a welir yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Awdurdod yn disgwyl bod angen benthyca yn 2015/16. Fodd bynnag, hwyrach y bydd yr Awdurdod angen benthyca i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw, cyn belled nad yw hyn yn fwy na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca, sef £190 miliwn.

4.2 Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd priodol o risg isel rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid.

4.3 Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Gan fod cyfraddau llog tymor byr yn llawer is na chyfraddau tymor hir,

mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol yn y tymor byr i un ai defnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthyg benthyciadau tymor byr yn lle hynny.

4.4 Drwy wneud hynny, gall yr Awdurdod leihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm rhagdybiedig o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg cyffredinol i'r trysorlys. Mae strategaeth o'r fath yn fwyaf tebygol o fod yn fanteisiol dros y 2-3 blynedd nesaf wrth i gyfraddau llog swyddogol aros yn isel, ac mae'n annhebygol y caiff ei gynnal yn y tymor canolig. Bydd y buddion o fenthyca mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Awdurdod gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd yr Awdurdod yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2015/16 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

4.5 Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod yn benthyca benthyciadau tymor byr (hyd at un mis fel arfer) i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

4.6 Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)
- Awdurdodau Lleol y DU
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler paragraff 5.3 isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladau arall sydd wedi'u hawdurdodi gan y *Prudential Regulation Authority* i weithredu yn y DU
- cwmnïau i bwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol.

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau a ganlyn nad ydynt yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill.

- prydlesau gweithredu ac ariannu
- hurbryniant
- Menter Cyllid Preifat
- gwerthu ac adlesu

Yn flaenorol mae'r Awdurdod wedi codi'r rhan fwyaf o'i fenthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), ond mae'n bosib y bydd yn ystyried ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau gan awdurdodau lleol a benthyciadau banc, gall fod ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.

4.7 Mae'r Awdurdod yn dal £16.2m fel benthyciad LOBO (*Lender's Option Borrower's Option*) lle mae gan y sawl sy'n rhoi'r benthyciad y dewis i gynnig cynnydd yn y gyfradd llog ar ddyddiadau penodedig, a byddai gan yr Awdurdod wedyn y dewis o un ai derbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu'r ddyled heb unrhyw gost ychwanegol. Nid oes dewis yn ystod 2015/16. Bydd y cyfanswm a fenthycir trwy fenthyciadau LOBO wedi'i gyfyngu i £16.2m.

4.8 **Asiantaeth Bondiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol**

Sefydlwyd y *Local Capital Finance Company* yn 2014 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) fel dewis arall i'r PWLB. Mae'n bwriadu cyhoeddi bondiau ar y marchnadoedd cyfalaf a rhoi benthyciadau ar yr enillion i awdurdodau lleol. Bydd yn ffynhonnell gyllid sy'n fwy cymhleth na'r PWLB am dri rheswm, sef:

- efallai y bydd yn rhaid i'r awdurdodau sy'n benthyca ddarparu gwarant ar y cyd ac yn unigol i fuddsoddwyr y bondiau, ar y risg bychan y gallai benthycwyr awdurdodau lleol eraill fethu â thalu eu benthyciadau;
- bydd cyfnod arweiniol o sawl mis rhwng ymrwymo i fenthyca a chael gwybod beth fydd y gyfradd llog sy'n daladwy;
- ni fydd hyd at 5% o dderbyniadau'r benthyciad yn ei dalu i'r Awdurdod, ond yn hytrach yn cael eu defnyddio i atgyfnerthu cryfder cyfalaf yr Asiantaeth. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca gan yr Asiantaeth felly'n destun adroddiad ar wahân i'r Cyngor llawn.

4.9 Mae benthyciadau tymor byr a rhai â chyfradd llog amrywiol yn gadael yr Awdurdod yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llog, a thrwy hynny'n destun i derfyn uchaf net cyfraddau llog amrywiol y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod.

4.10 **Aildrefnu Dyledion**

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai banciau sy'n benthyg yn barod i drafod telerau adbrynu cynnar. Gall yr Awdurdod gymryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg.

## 5. Y Strategaeth Fuddsoddi

5.1 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Awdurdod wedi amrywio rhwng £45 a £78 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod. Mae hyn yn cynnwys balansau arian Gronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael ei pwlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2015/16 yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2015.

5.2 **Amcanion**

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

5.3 **Strategaeth**
O ystyried y cynnydd yn y risgiau a'r parhad yn yr enillion isel o fuddsoddiadau byrdymor ansicredig, mae'r Awdurdod yn bwriadu arallgyfeirio i ddosbarthiadau o asedau sy'n fwy sicr a/neu sy'n cynnig enillion uwch yn ystod 2015/16. Ar hyn o bryd mae'r rhan helaeth o'r arian parod sydd dros ben gan yr Awdurdod wedi'i fuddsoddi mewn adneuon banc anwarantedig, tystysgrifau adneuon a chronfeydd marchnadoedd arian. Bydd yr arallgyfeirio felly'n cynrychioli newid sylweddol yn y strategaeth dros y flwyddyn i ddod.

5.4 Gall yr Awdurdod fuddsoddi'r cronfeydd dros ben sydd ganddo gydag unrhyw un o'r gwrthbartïon yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y cyfyngiadau arian ac amser a ddangosir.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo**

| Cyfrad Credyd | Banciau Ansicredig | Banciau â Sicrwyd | Llywodraeth | Corfforaethau | Darparwyr Cofrestredig |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth DU | d/b | d/b | £ diderfyn<br>50 mlynedd | d/b | d/b |
| AAA | £4m<br>5 mlynedd | £8m<br>20 mlynedd | £8m<br>50 mlynedd | £4m<br>20 mlynedd | £4m<br>20 mlynedd |
| AA+ | £4m<br>5 mlynedd | £8m<br>10 mlynedd | £8m<br>25 blynedd | £4m<br>10 blynedd | £4m<br>10 blynedd |
| AA | £4m<br>4 blynedd | £8m<br>5 mlynedd | £8m<br>15 blynedd | £4m<br>5 blynedd | £4m<br>10 blynedd |
| AA- | £4m<br>3 blynedd | £8m<br>4 blynedd | £8m<br>10 mlynedd | £4m<br>4 blynedd | £4m<br>10 blynedd |
| A+ | £4m<br>2 flynedd | £8m<br>3 blynedd | £4m<br>5 mlynedd | £4m<br>3 blynedd | £4m<br>5 blynedd |
| A | £4m<br>13 mis | £8m<br>2 flynedd | £4m<br>5 mlynedd | £4m<br>2 flynedd | £4m<br>5 blynedd |
| A- | £4m<br>6 mis | £4m<br>13 mis | £4m<br>5 mlynedd | £2m<br>13 mis | £4m<br>5 blynedd |
| BBB+ | £2m<br>100 diwrnod | £4m<br>6 mis | £2m<br>2 flynedd | £2m<br>6 mis | £2m<br>2 flynedd |
| BBB or BBB- | £2.5m<br>Diwrnod nesaf yn unig | £4m<br>100 diwrnod | d/b | d/b | d/b |
| Dim | £1m<br>6 mis | d/b | £4m<br>25 blynedd | £50,000<br>5 mlynedd | £4m<br>5 mlynedd |
| Cronfeydd wedi eu cyfuno | £8m mesul gronfa | | | | |
| Benthyciadau i Fusnesau Lleol* | | | Cyfanswm o £3m<br>10 blynedd | | |

* Bydd rhoi'r benthyciadau hyn yn cael eu cymeradwyo trwy'r broses y manylir arni ym mharagraff 5.9 isod. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor na'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

5.5 **Statws Credyd**

Gwneir penderfyniadau buddsoddi drwy gyfeirio at y statws credyd hirdymor isaf sydd wedi'i gyhoeddi gan Fitch, Moody's neu Standard & Poor's. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbartïon.

5.6 **Banciau Ansicredig**

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Mae buddsoddiadau ansicredig gyda banciau â chanddynt statws BBB neu BBB- wedi'u cyfyngu i adneuon dros nos ym manc cyfrif cyfredol yr Awdurdod Barclays Bank plc.

5.7 **Banciau â Sicrwydd**

Bondiau gorchuddiedig, cytundebau adbrynu o chwith a threfniadau gyda sicrwydd cyfochrog gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad, er bod hynny'n annhebygol, ac mae'n golygu eu bod wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Tra nad oes unrhyw statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, bydd statws credyd yn bodoli ar gyfer y sicrwydd cyfochrog sy'n sail i'r buddsoddiad. Defnyddir y statws uchaf o'r statws credyd sicrwydd cyfochrog a'r statws credyd gwrthbarti i benderfynu ar y cyfyngiadau o ran arian parod ac amser. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

5.8 **Llywodraeth**

Benthyciadau, bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygu amlochrog. Ni fyddai'r buddsoddiadau hyn yn destun *'bail-in'*, a bychan iawn yw'r risg o fethdalu. Nid oes cyfyngiad ar faint y buddsoddiadau y gellir eu gwneud gyda Llywodraeth Canolog y DU am hyd at 50 mlynedd.

5.9 **Corfforaethol**

Benthyciadau, bondiau a phapur masnachol a gyhoeddir gan gwmnïau ac eithrio banciau a darparwyr cofrestredig. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn destun *'bail-in'* ond maent yn agored i'r risg y gallai'r cwmni ddod yn fethdalwr. Dim ond fel rhan o bŵl amrywiol y gwneir benthyciadau i gwmnïau heb statws er mwyn lledaenu'r risg yn eang.

5.10 **Darparwyr Cofrestredig**

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig, a elwid gynt yn Gymdeithasau Tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio'n llym gan yr Asiantaeth Tai a Chymunedau ac fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

5.11 **Cronfeydd wedi'u cyfuno**

Cyfranddaliadau mewn dulliau buddsoddi amrywiol sy'n cynnwys unrhyw un o'r mathau o fuddsoddiadau a restrwyd uchod, ynghyd â chyfranddaliadau ecwiti ac eiddo. Y fantais i'r rhain yw bod y risgiau buddsoddi wedi'u gwasgaru'n ehangach, a bod gwasanaethau rheolwr proffesiynol y gronfa ar gael drwy dalu ffi. Bydd Cronfeydd Marchnadoedd Arian sy'n cynnig diddymu ar yr un diwrnod ac sy'n anelu at werth asedau net cyson yn cael eu defnyddio fel dewis amgen i gyfrifon banc lle ceir mynediad ar unwaith, tra bydd cronfeydd wedi'u cyfuno y mae eu gwerth yn newid yn ôl prisiau'r farchnad ac/neu a chanddynt gyfnod rhybudd yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau buddsoddi hirach.

Mae cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo yn cynnig gwell enillion hirdymor, ond maent yn fwy anwadal yn y tymor byr. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Awdurdod ehangu i ddosbarthiadau o asedau heblaw am arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a'u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, maent ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Awdurdod yn cael eu monitro'n gyson.

5.12 **Cronfa Benthyciadau Lleol**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Benthyciadau Lleol, fydd yn rhoi benthyciadau i fusnesau lleol. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u cynnwys yn y tabl o Fuddsoddiadau Amhenodedig uchod, a byddant am gyfnod uchafswm o 10 mlynedd. Mae cyfanswm gwerth y gronfa ar gyfer buddsoddiadau o'r fath yn £3 miliwn. Ni fydd ceisiadau am fenthyciadau dan y cynllun hwn yn rhan o'r asesiad credyd arferol i ddibenion buddsoddiadau rheolaeth trysorlys, ond yn hytrach byddant yn cael eu hasesu gan ymgynghorwyr wedi'u penodi, a'r Panel Buddsoddi ar gyfer y cynllun fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad i fenthyg yr arian.

5.13 **Asesu Risg a Statws Credyd**

Mae ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

5.14 **Gwybodaeth Arall ar Ddiogelwch Buddsoddiadau**

Mae'r Awdurdod yn deall bod graddau statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdalu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfenwid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 ac yn 2011, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian yr Awdurdod, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn peri gostyngiad yn lefel yr incwm a geir ar fuddsoddiadau, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

5.15 **Buddsoddiadau Penodedig**

Mae Canllaw LlC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel rhai:

- sydd ar ffurf punnoedd sterling,
- sy'n ddyledus i gael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant,
- na chânt eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, a
- rhai a fuddsoddwyd gydag un o'r canlynol:
  - Llywodraeth y DU,
  - awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned yn y DU, neu
  - gyda chorff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliadau sydd ag "ansawdd credyd uchel" fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch, sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwlad dramor sydd â statws sofran o AA+ neu uwch.

5.16 **Buddsoddiadau Amhenodedig**

Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad ar gyfer buddsoddiad penodedig yn cael ei gategoreiddio fel buddsoddiad amhenodedig. Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwlad dramor.

Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly'n gyfyngedig i fuddsoddiadau tymor hir h.y. y rheini sydd i fod i aeddfedu 12 mis neu hwy ar ôl dyddiad y trefniant; y rheini gaiff eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, megis cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill; a buddsoddiadau gyda chyrff a rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o ansawdd credyd uchel. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodedig i'w gweld yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau Amhenodedig**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiadau tymor hir | £40m |
| Cyfanswm y cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian | £40m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau heb statws credyd neu gyda statws sy'n is na [A-] | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau mewn gwledydd tramor sydd â statws sy'n is na [AA+] | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau amhenodedig | £80m |

5.17 **Cyfyngiadau Buddsoddi**

Rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod ac arian y Gronfa Bensiwn sydd ar gael i gyfarch colledion ar fuddsoddiadau yn £65 miliwn ar 31 Mawrth 2015. Er mwyn sicrhau na fydd mwy na 10% o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn cael eu rhoi mewn perygl pe bai un buddsoddiad sengl yn diffygdalu, yr uchafswm fydd yn cael ei fenthyg i unrhyw sefydliad unigol (ar wahân i Lywodraeth y DU) fydd £8 miliwn. Bydd grŵp o fanciau dan yr un berchnogaeth neu grŵp o gronfeydd dan yr un rheolwyr yn cael eu trin fel sefydliad unigol er dibenion cyfyngiadau. Rhoddir cyfyngiadau hefyd ar fuddsoddiadau yng nghyfrifon enwebedig broceriaid (e.e. *King & Shaxson)*, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel a ganlyn:

**Tabl 4: Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth y DU | £8m yr un |
| Llywodraeth Ganolog y DU | anghyfyngedig |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | £8m fesul grŵp |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig gan yr un rheolwyr | £20m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £40m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £8m fesul gwlad |
| Darparwyr Cofrestredig | Cyfanswm o £20m |
| Buddsoddiadau Ansicredig gyda Cymdeithasau Adeiladu | Cyfanswm o £8m |
| Benthyciadau i fusnesau bach | Cyfanswm o £8m |
| Cronfeydd Marchnad Arian | Cyfanswm o £40m |

5.18 **Rheoli hylifedd**

Mae'r Awdurdod yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus.

## 6. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

6.1 **Diogelwch**

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran amser ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | **Targed** |
|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 7.0 |

6.2 **Hylifedd**

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

| | **Target** |
|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £10m |

6.3 **Risg Cyfraddau Llog**

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, fel a ganlyn:

| | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog | 100% | 100% | 100% |
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol | 50% | 50% | 50% |

Buddsoddiadau a benthyciadau cyfradd sefydlog yw'r rheini lle mae'r gyfradd llog yr un fath dros y flwyddyn ariannol gyfan. Mae offerynnau sy'n aeddfedu yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael eu categoreiddio fel rhai cyfradd gyfnewidiol.

6.4 **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | **Uchaf** | **Isaf** |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% |
| 40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd | 100% | 0% |
| 50 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

6.5 **Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na 364 diwrnod**

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £30m | £25m |

## 7. Eitemau Eraill

7.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA neu Lywodraeth Cymru.

7.2 **Polisi ar Ddefnyddio Cytundebau Deilliadau**

Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol i wneud hynny, ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd wedi eu cyfuno, yn cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol â'r risg cyffredinol i'r strategaeth rheolaeth trysorlys.

7.3 **Hyfforddiant Buddsoddi**

Caiff anghenion staff rheolaeth trysorlys yr Awdurdod am hyfforddiant mewn rheolaeth buddsoddi eu hasesu bob blwyddyn fel rhan o'r broses gwerthuso staff, ac yn ychwanegol i hynny pan fydd cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Mae staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Caiff staff perthnasol eu hannog hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA a sefydliadau priodol eraill.

7.4 **Ymgynghorwyr Buddsoddi**

Mae'r Awdurdod wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan Bennaeth yr Adran Gyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

7.5 **Buddsoddi Arian a Fenthyciwyd cyn i'r Angen Godi**

O bryd i'w gilydd, hwyrach y bydd yr Awdurdod yn benthyca arian cyn i'r angen godi, pan ddisgwylir mai hyn fydd yn rhoi'r gwerth am arian gorau yn y tymor hir. Gan y bydd y symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi hyd nes caiff yr arian ei wario, mae'r Awdurdod yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthyciwyd, a'r risg y bydd cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a benthyciadau yn newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol yr Awdurdod o'i risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn uwch na'r terfyn benthyca awdurdodedig o £195 miliwn. Disgwylir mai dwy flynedd fydd y cyfnod mwyaf rhwng benthyca a gwario'r arian, serch hyn, nid oes gofyn i'r Awdurdod gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau gwariant penodol.

**8. Goblygiadau Ariannol**

Y gyllideb ar gyfer yr incwm buddsoddi yn 2015/16 yw £0.5 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £74.6 miliwn ar gyfradd llog o 0.67%. Y gyllideb ar gyfer y llog ar ddyledion yn 2015/16 yw £6.5 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £114.2 miliwn ar gyfradd llog o 5.71%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

**9. Ystyried Opsiynau Eraill**

Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru na Chod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i'w fabwysiadu gan awdurdodau lleol. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet Adnoddau, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-effeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau o ran rheoli risgiau.

| Dewis Arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risgiau |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrthbartïon ac/neu am gyfnod byrrach | Bydd incwm ar y llog yn is | Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu’n ymwneud â chredyd, er byddai unrhyw golledion yn fwy |
| Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrthbartïon ac/neu am gyfnod hirach | Bydd incwm ar y llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu’n ymwneud â chredyd, er byddai unrhyw golledion yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyledion yn codi; mae’n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn drwy incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai diffygdalu; fodd bynnag byddai’r costau llog hirdymor yn fwy sicr |
| Benthyciadau byr-dymor newidiol yn hytrach na chyfraddau hirdymor sefydlog | Bydd costau llog dyledion yn is i gychwyn | Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael eu gwrthbwyso i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor |
| Lleihau lefel y benthyciadau | Mae’r arbediad ar log y ddyled yn debygol o fod yn fwy na’r incwm buddsoddi a gollir<br><br>Gallai’r premiymau uchel am ad-dalu’r ddyled fod yn uwch nag unrhyw arbedion | Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai diffygdalu; fodd bynnag byddai’r costau llog hirdymor yn llai sicr |

**Atodiad A – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Ionawr 2015**

**Rhagdybiaethau sylfaenol:**

- Fe arafodd adferiad economaidd y DU tuag at ddiwedd 2014, yn sgil bod ansicrwydd economaidd a gwleidyddol yn pwyso ar fuddsoddiad mewn busnesau. Fodd bynnag, mae cyfradd twf Ch3, sef 0.7%, yn parhau ychydig yn uwch na'r cyfartaledd tymor hir, sy'n awgrymu bod yr adferiad yn parhau'n gadarn.
- Mae treuliant aelwydydd yn allweddol i adferiad yn 2015. Er y disgwylir i dwf treuliant arafu, o ystyried bod gweithgaredd y farchnad dai yn tawelu a bod twf arafach mewn cyflogaeth, dylai'r gostyngiad mewn chwyddiant a'r cynnydd yn sgil hynny mewn twf cyflogau ac incwm gwario (gwir ac enwol) gefnogi gwariant.
- Mae'r lefel chwyddiant yn isel ar hyn o bryd (mae'r CPI blynyddol yn 0.5% ar hyn o bryd) ac mae'n debygol o barhau felly yn y tymor byr. Nid yw'r gostyngiad mewn prisiau olew wedi treiddio'n llawn i brisiau tanwydd modur eto, a disgwylir i ynni i'w fanwerthu a CPI ostwng ymhellach. Disgwylir hefyd i gystadleuaeth yr archfarchnadoedd ar brisiau gael effaith niweidiol ar chwyddiant prisiau bwyd.
- Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) yn canolbwyntio ar faint o gapasiti sbâr sydd yn yr economi, ac ar ba mor gyflym y caiff ei ddefnyddio, ac mae'r ffactorau hyn wedi arwain at gryn drafodaeth yn y Pwyllgor.
- Mae twf enillion enwol yn cryfhau, ond yn parhau'n gymharol wan yn nhermau hanesyddol, er gwaethaf gostyngiadau mawr mewn diweithdra. Ein barn ni yw bod y capasiti sbâr yn parhau'n helaeth. Mae lefelau cyflogaeth rhan-amser, hunan-gyflogaeth a thangyflogaeth yn arwyddocaol ac yn awgrymu bod capasiti o fewn y gweithlu a gyflogir, yn ogystal â'r adnodd di-waith. Felly gall twf cynhyrchiant barhau'n wan yn y tymor byr heb greu pwysau chwyddiant gormodol.
- Fodd bynnag, rydym hefyd yn disgwyl i dwf cyflogaeth arafu wrth i'r twf economaidd arafu. Mae hyn yn debygol o roi hwb i gynhyrchiant, a fydd yn gwasgu ar gostau uned llafur a phwysau chwyddiant.
- Yn ogystal â'r diffyg pwysau cyflogau a chwyddiant, mae'r rhai sy'n llunio polisïau yn amlwg yn bryderus am ragolygon llwm Ardal yr Ewro. Bydd y ffactorau hyn yn cynnal safbwynt cymodlon yr MPC yn y tymor canolig. Mae'n amlwg fod yr MPC yn credu bod lefel addas y Cyfraddau Banc ar gyfer economi'r DU yn dilyn yr agyfwng yn sylweddol is na'r norm blaenorol. Byddem yn awgrymu fod hyn rhwng 2.5 a 3.5%.
- Mae Banc Canolog Ewrop (ECB) wedi cyflwyno QE yn ôl y disgwyl. Er y gallai hyn esmwytho peth pryder ynghylch potensial economaidd Ardal yr Ewro, mae risg gwleidyddol yn parhau'n sylweddol (e.e. etholiad Groeg). Felly, mae pryderon ar gyfer Ardal yr Ewro yn debygol o gynnal statws diogel ar gyfer dyledion llywodraeth y DU.

**Rhagolygon:**

- Rydym yn parhau i ragweld y bydd y cynnydd cyntaf i gyfraddau llog swyddogol yn Ch3 2015, ond mae risgiau'r rhagolygon hyn ar yr ochr negyddol. Bydd Adroddiad Chwyddiant Chwefror yn allweddol i'n hadolygiad o lwybr posib y Gyfradd Banc.

- Rydym yn darogan cynnydd araf yn y Cyfraddau Banc. Bydd y cynnydd yn y cyfraddau llog yn araf, ac yn gyfyngedig o ran eu graddfa; credwn mai rhwng 2.5% a 3.5% fydd lefel normal y Gyfradd Banc ar ôl yr argyfwng.

- Mae teimladau'r farchnad (a ddeillir o gromliniau'r dyfodol) wedi symud yn sylweddol is dros y tri mis diwethaf; bellach mae'r farchnad yn disgwyl cynnydd diweddarach i gyfraddau llog a chynnydd arafach mewn enillion giltiau.

- Mae’r llwybr byrdymor ar gyfer enillion giltiau wedi fflatio yn sgil y gostyngiad sylweddol i ddisgwyliadau chwyddiant. Rydym yn darogan y bydd enillion gilt yn parhau ar gynnydd yn ystod y tymor canolig.

- Mae’r llwybr byrdymor ar gyfer enillion giltiau yn fwy fflat, o ganlyniad i sefyllfa Ardal yr Ewro sy'n gwaethygu. Rydym yn darogan y bydd enillion gilt yn parhau ar gynnydd yn ystod y tymor canolig.

| | Mar-15 | Jun-15 | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 | Dec-16 | Mar-17 | Jun-17 | Sep-17 | Dec-17 | Mar-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Official Bank Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | | | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 |
| **Arlingclose Central Case** | **0.50** | **0.50** | **0.75** | **0.75** | **1.00** | **1.00** | **1.25** | **1.25** | **1.50** | **1.50** | **1.75** | **1.75** | **1.75** |
| **Downside risk** | | | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| **3-month LIBID rate** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.10 | 0.20 | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 |
| **Arlingclose Central Case** | **0.55** | **0.60** | **0.80** | **0.90** | **1.05** | **1.15** | **1.30** | **1.40** | **1.55** | **1.65** | **1.80** | **1.95** | **2.00** |
| **Downside risk** | 0.15 | 0.20 | 0.30 | 0.40 | 0.55 | 0.65 | 0.75 | 0.85 | 0.95 | 0.95 | 0.95 | 0.95 | 1.00 |
| **1-yr LIBID rate** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.10 | 0.20 | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |
| **Arlingclose Central Case** | **0.95** | **1.00** | **1.20** | **1.30** | **1.45** | **1.55** | **1.70** | **1.80** | **1.95** | **2.05** | **2.20** | **2.35** | **2.40** |
| **Downside risk** | 0.15 | 0.20 | 0.30 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.75 | 0.80 | 0.80 | 0.80 | 0.80 |
| **5-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.35 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.50 |
| **Arlingclose Central Case** | **1.10** | **1.20** | **1.30** | **1.40** | **1.50** | **1.65** | **1.80** | **1.95** | **2.10** | **2.20** | **2.35** | **2.40** | **2.50** |
| **Downside risk** | 0.35 | 0.35 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.75 |
| **10-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.35 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 |
| **Arlingclose Central Case** | **1.60** | **1.70** | **1.80** | **1.90** | **2.00** | **2.15** | **2.30** | **2.45** | **2.60** | **2.70** | **2.85** | **2.90** | **3.00** |
| **Downside risk** | 0.35 | 0.35 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.75 | 0.80 |
| **20-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.35 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 |
| **Arlingclose Central Case** | **2.10** | **2.20** | **2.30** | **2.35** | **2.45** | **2.50** | **2.65** | **2.75** | **2.90** | **3.00** | **3.15** | **3.20** | **3.30** |
| **Downside risk** | 0.35 | 0.40 | 0.50 | 0.60 | 0.70 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.80 | 0.85 | 0.85 | 0.90 | 0.90 |
| **50-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.35 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 |
| **Arlingclose Central Case** | **2.15** | **2.25** | **2.35** | **2.40** | **2.50** | **2.55** | **2.70** | **2.80** | **2.95** | **3.05** | **3.20** | **3.25** | **3.35** |
| **Downside risk** | 0.35 | 0.40 | 0.50 | 0.60 | 0.70 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.80 | 0.85 | 0.85 | 0.90 | 0.90 |

**Annex B – Sefyllfa Bresennol y Portffolio Buddsoddiadau a Dyledion**

| | **31.12.14**<br><br>**Portffolio Gwirioneddol**<br><br>**£m** | **9 mis i 31.12.14**<br><br>**Cyfradd Gyfartalog**<br><br>**%** |
|---|---|---|
| **Benthyca Allanol:**<br><br>PWLB – Cyfradd Sefydlog<br><br>Benthyciadau LOBO | <br><br>94.3<br><br>16.2 | <br><br>6.06<br><br>4.22 |
| **Cyfanswm Dyledion Allanol Gros** | **110.5** | **5.80** |
| **Buddsoddiadau:**<br><br>Buddsoddiadau tymor byr | <br><br>48.3 | <br><br>0.70 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **48.3** | 0.70 |
| **Dyledion Net** | **62.2** | |

**Atodiad D – Dangosyddion Darbodus 2015/16**

## 1. Cefndir

Mae **Deddf Llywodraeth Leol 2003** yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus) gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wrth bennu faint o arian a all fforddio ei fenthyg. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, fod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arfer broffesiynol dda. Er mwyn dangos bod yr Awdurdod wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn gosod y dangosyddion a ganlyn, ac mae'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

## 2. Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf

Gellir crynhoi gwariant cyfalaf a chyllido'r Awdurdod fel a gynlluniwyd fel hyn.

| **Gwariant Cyfalaf a Chyllido** | **Diwygiedig 2014/15 £'000** | **Amcangyfrif 2015/16 £'000** | **Amcangyfrif 2016/17 £'000** | **Amcangyfrif 2017/18 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **41,337** | **36,064** | **24,203** | **14,681** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,866 | 1,461 | 230 | 835 |
| Grantiau'r Llywodraeth | 21,323 | 12,727 | 8,372 | 3,961 |
| Refeniw | 7,487 | 10,188 | 2,502 | 2,500 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,122 | 4,126 | 4,126 | 4,126 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 6,539 | 7,562 | 8,973 | 3,259 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **41,337** | **36,064** | **24,203** | **14,681** |

## 3. Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca at ddibenion cyfalaf.

| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **31.03.15 Diwygiedig £'000** | **31.03.16 Amcangyfrif £'000** | **31.03.17 Amcangyfrif £'000** | **31.03.18 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm CFR** | 175,228 | 179,510 | 185,052 | 185,069 |

Rhagwelir y bydd y CFR yn cynyddu o £9.841m dros y tair blynedd nesaf wrth i wariant cyfalaf a ariennir trwy ddyled gynyddu'n uwch na'r adnoddau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu'r ddyled.

## 4. Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd y ddyled dros y tymor canolig, dylai'r Awdurdod sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth.

| **Dyled** | **31.03.15 Diwygiedig £'000** | **31.03.16 Amcangyfrif £'000** | **31.03.17 Amcangyfrif £'000** | **31.03.18 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 110,758 | 110,559 | 108,584 | 106,034 |
| Lesoedd cyllid | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau PFI | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **110,758** | **110,559** | **108,584** | **106,034** |

Disgwylir y bydd cyfanswm y ddyled yn aros islaw'r CFR yn ystod y cyfnod rhagweld.

## 5. Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol

Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol ag amcangyfrifon yr Awdurdod o wariant cyfalaf, y gofyn cyllido cyfalaf a gofynion llif arian, ac mae'n declyn rheoli allweddol ar gyfer monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae rhwymedigaethau eraill tymor hir yn cynnwys lesoedd cyllid, Menter Gyllid Breifat a rhwymedigaethau eraill nad ydynt yn fenthyca ond sy'n ffurfio rhan o ddyled yr Awdurdod.

| **Ffin Weithredol** | **Diwygiedig 2014/15 £'000** | **Amcangyfrif 2015/16 £m** | **Amcangyfrif 2016/17 £m** | **Amcangyfrif 2017/18 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 185,000 | 185,000 | 190,000 | 190,000 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **185,000** | **185,000** | **190,000** | **190,000** |

## 6. Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol

Y terfyn awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all yr Awdurdod fod mewn dyled yn

gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

| **Y Terfyn Awdurdodedig** | **Diwygiedig 2014/15 £'000** | **Amcangyfrif 2015/16 £m** | **Amcangyfrif 2016/17 £m** | **Amcangyfrif 2017/18 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 195,000 | 195,000 | 200,000 | 200,000 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **195,000** | **195,000** | **200,000** | **200,000** |

## 7. Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net

Dangosydd o fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido net o'r incwm buddsoddi.

| **Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net** | **Diwygiedig 2014/15 %** | **Amcangyfrif 2015/16 %** | **Amcangyfrif 2016/17 %** | **Amcangyfrif 2017/18 %** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | **5.54** | **5.68** | **5.81** | **5.73** |

## 8. Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf

Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Yr effaith gynyddol (*incremental impact*) yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm gofyn cyllideb refeniw y rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol a'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| **Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf** | **Amcangyfrif 2015/16 £** | **Amcangyfrif 2016/17 £** | **Amcangyfrif 2017/18 £** |
|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol – cynnydd mewn Treth Gyngor band D blynyddol | **0** | 0 | 0 |

## 9. Mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA

Fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer (Rhifyn 11): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* CIPFA yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2011.

**Atodiad DD – Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw Blynyddol 2015/16**

Pan fo'r Awdurdod yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (Canllaw LlC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2010.

Nod cyffredinol Canllaw LlC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad MRP Blynyddol bob blwyddyn, ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o MRP. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.

> Ar gyfer gwariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff yr MRP ei bennu yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008.
>
> Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff yr MRP ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff MRP ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff MRP ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.
>
> Ar gyfer asedau a geir trwy lesoedd cyllid neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod yr MRP yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu'n erbyn y rhwymedigaeth ar y fantolen.
>
> Pan wneir benthyciadau i gyrff eraill ar gyfer eu gwariant cyfalaf, ni chodir MRP. Fodd bynnag, bydd y derbyniadau cyfalaf a grëir gan yr ad-daliadau blynyddol ar y benthyciadau hynny yn cael eu rhoi o'r neilltu i ad-dalu dyledion.
>
> Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn ystod 2015/16 yn destun ffi MRP hyd nes 2016/17.

Yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2015, mae'r gyllideb ar gyfer MRP wedi'i osod ar £7.41m.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **17 CHWEFROR 2015** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2014/15 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR Y SEFYLLFA ARIANNOL DDIWEDDARAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant ac incwm yn erbyn y gyllideb, yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID A WILLIAM E JONES, UWCH REOLWR CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Cyflwynwyd adroddiad adolygiad cyllideb yr ail chwarter i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Rhagfyr 2014, a bu ystyriaeth ddilynol yn y Gweithgor ar 16 Ionawr (gweler yr eitem berthnasol).

**2.** Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb trydydd chwarter, yn weddol gyson gyda'r hyn adroddwyd eisoes (gweler Atodiad 1).

**3.** Fodd bynnag, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi cytuno i'w ystyried cyn i ni adrodd i'r Cabinet.

**4.** Bwriedir cyflwyno sylwadau'r Pwyllgor Archwilio "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Cabinet ar 19 Chwefror.

**5.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
19 Chwefror 2015

| | |
|---|---|
| **Aelod Cabinet:** | CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU |
| **Pwnc:** | CYLLIDEB REFENIW 2014/15 –<br>ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER |
| **Swyddog cyswllt:** | DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID |

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter o'r Gyllideb Refeniw (rhagolygon 2014/15 ar sail sefyllfa 31 Rhagfyr 2014), ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

---

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adolygiad chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 15 Gorffennaf 2014 ac adolygiad ail chwarter ar 25 Tachwedd. Mae'r adroddiad yma yn diweddaru'r rhagolygon yn dilyn adolygiad trydydd chwarter.

Amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae sefyllfa gorwariant tebygol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bron wedi ei haneru ers y rhagolygon ail chwarter. Gwelir fod y darlun cyffredinol yn arddangos rheolaeth gadarn o'r cyllidebau adrannol, er bod angen gweithredu er mwyn atal tueddiadau yn y gyllideb Addysg.

Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol os yn briodol.

**3. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – gorwariant £599k**

Bu gostyngiad sylweddol o'r lefel gorwariant blaenorol yn dilyn cyfuniad o amgylchiadau ac ymdrechion da gan yr Adran i reoli'r cyllidebau. Fodd bynnag, mae rhai meysydd yn parhau i roddi pwysau ariannol sylweddol ar y Cyngor, yn arbennig y gwariant ar Ofal Cartref Pobl Hyn. Mae'r Adran Oedolion yn cymryd camau i geisio cryfhau rheolaeth ariannol berthnasol, ac yn arbennig i sicrhau bydd rheolaeth gadarn ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2015/16.

**4. Adran Addysg – gorwariant £361k**

Bu cynnydd go sylweddol mewn gwariant ers Medi ar Integreiddio Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ymddengys fod y galw wedi dwysau ac mae'r sefyllfa yn destun adolygiad gan Bennaeth newydd yr Adran. Adroddir ymhellach ar ganlyniad ac ymhlygiadau ariannol yr adolygiad yma yn ein adroddiad alldro.

**5. Camau nesaf ac amserlen**

Cyflwynir adroddiad 'alldro' i'r Cabinet ym mis Mehefin er mwyn cytuno ar sefyllfa derfynol 2014/15. Bydd yr adroddiad alldro yn argymell trosglwyddiadau terfynol rhwng gwahanol gyllidebau.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'n dda nodi bod y mwyafrif o'r adroddiad yn cadarnhau rheolaeth ariannol gadarn ar draws y Cyngor. Ar ben hynny, mae'r gwelliant sydd i'w weld o ran yr Adran Oedolion a Llesiant i'w groesawu er bod peth gorwariant yn bryder mewn cyfeiriadau eraill. Mae hyn oll yn cadarnhau unwaith eto bwysigrwydd rheolaeth gofalus ar batrymau ymrwymo a gwario ar draws y Cyngor.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r Adrannau.
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol.

## Cyllideb Refeniw 2014/15 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Chwarter 3 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gor / (Tan) Wariant Gros 2014/15<br>£ '000 | Trosglwyddiad i/(o) Gronfeydd neu Balansau<br>£ '000 | Defnydd o Ffynonhellau Eraill<br>£ '000 | Gor/ (Tan) Wariant Net<br>£ '000 | Gor/ (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter<br>£ '000 |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 599 | 0 | 0 | 599 | 1,189 |
| **Plant a Theuluoedd** | (217) | 0 | 0 | (217) | (167) |
| **Addysg** | 827 | 0 | (466) | 361 | 91 |
| **Economi a Chymuned** | 110 | 0 | (87) | 23 | 44 |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 167 | 0 | 0 | 167 | 76 |
| **Rheoleiddio**<br>(Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 19 | 0 | 0 | 19 | 2 |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | 85 | 0 | (30) | 55 | 61 |
| **Prif Weithredwr** | (110) | 0 | 0 | (110) | (65) |
| **Adnoddau Dynol** | (33) | 0 | 0 | (33) | (31) |
| **Cyllid** | (34) | 0 | 0 | (34) | (35) |
| **Strategol a Gwella** | (78) | 0 | 0 | (78) | (76) |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | (561) | 0 | 0 | (561) | (20) |
| **Cyfansymiau Gwahaniaethau (net)** | 774 | 0 | (583) | 191 | 1,069 |

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaeth Pobl Hŷn | **18,739** | **18,512** | **18,891** | **379** | **0** | **0** | **379** | **606** |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | **13,249** | **13,277** | **13,449** | **172** | **0** | **0** | **172** | **260** |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | **3,318** | **3,335** | **3,486** | **151** | **0** | **0** | **151** | **207** |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | **2,087** | **2,082** | **2,022** | **(60)** | **0** | **0** | **(60)** | **(45)** |
| Eraill (Oedolion) | **3,178** | **3,207** | **3,252** | **45** | **0** | **0** | **45** | **25** |
| Gwasanaeth Darparu | **0** | **277** | **522** | **245** | **0** | **0** | **245** | **308** |
| Gwasnaeth Tai | **5,020** | **5,142** | **4,919** | **(223)** | **0** | **0** | **(223)** | **(165)** |
| Gofal Cwsmer a'r Gwasanaeth Cofrestru | **16** | **308** | **275** | **(33)** | **0** | **0** | **(33)** | **(20)** |
| Gwasanaethau Cefnogol Adrannol | **4,006** | **4,247** | **4,170** | **(77)** | **0** | **0** | **(77)** | **13** |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **49,613** | **50,387** | **50,986** | **599** | **0** | **0** | **599** | **1,189** |

**Cyffredinol**

Fe welir fod y gorwariant o £1,189k a ragwelwyd yn yr ail chwarter bron wedi ei hanneru i £599k. Mae hyn yn dilyn gwaith da iawn mewn rhai mesydd i gryfhau rheolaeth o'r cyllidebau ac i ostwng y gorwariant. Mae'r gwaith yma yn parhau ond mae'n glir o'r rhagolygon diweddaraf yma y bydd 'na orwariant sylweddol yn parhau at ddiwedd y flwyddyn, ac mewn absenoldeb o adnoddau ariannol wrth gefn gan yr adran, byddant yn edrych i'r Cabinet am gymorth. Fe argymhellir ar hyn yn chwarter olaf o'r flwyddyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**Gwasanaeth Oedolion**

**Maes:-** **Gwasanaeth Pobl Hŷn**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **18,739** | **18,512** | **18,891** | **379** | | | **379** | **606** |

Bellach fe ragwelir gorwariant o £379k, sydd yn ostyngiad o (£227k) am yr ail chwarter, ac yn cynnwys, yn bennaf, gorwariant o £179k ar Gartrefi Annibynnol (gostyngiad o (£149k)), oherwydd lleihad net o 13 achos 'lleoliad nyrsio', a chyfraniadau ychwanegol o (£434k) (cynnydd o £125k) oherwydd cyfuniad o ail asesu amgylchiadau cyfranwyr a derbyniad o gyfraniadau o ffynonellau eraill.
Fe gynhwysir hefyd gorwariant o £578k ar Ofal Cartref (cynnydd o £52k) ac sydd hefyd yn destun addasiad demograffig a bid perthnasol ar gyfer Cyllideb 2015-16.

**Maes:-** **Gwasanaethau Anabledd Dysgu**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **13,249** | **13,277** | **13,449** | **172** | | | **172** | **260** |

Yn dilyn gwaith sylweddol gan y Gwasanaeth i adolygu'r pecynnau gofal ac i ail negodi'r cyfraniadau gan y Gwasanaeth Iechyd, fe welir ostyngiad o (£88k) yn y lefel gorwariant a ragwelir ers yr ail chwarter.

**Maes:-** **Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,318** | **3,335** | **3,486** | **151** | | | **151** | **207** |

Eto fe ragwelir gostyngiad net o (£56k) yn y lefel gorwariant ac yn bennaf oherwydd sefyllfa Breswyl a Nyrsio i lawr (£45k) i orwariant o £195k, tanwariant o (£33k) am Gynlluniau Cefnogol (gwelliant o (£13k)), arbedion staffio unwaith ac am byth o (£35k) (gwelliant o £7k), ond gorwariant o £75k ar Lety Cefnogol (cynnydd o £9k) o ganlyniad i adolygu sefyllfa dau achos.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**Maes:-** **Gwasanaethau Anabledd Corff**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2,087** | **2,082** | **2,022** | **(60)** | | | **(60)** | **(45)** |

Y sefyllfa ddiweddaraf yn weddol gyson â'r darlun a ragwelwyd yn yr ail chwarter gyda'r gostyngiad o (£15k) yn bennaf oherwydd lleihad o (£12k) mewn gwariant ar Daliadau Uniongyrchol.

**Maes:-** **Eraill (Oedolion)**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,178** | **3,207** | **3,252** | **45** | | | **45** | **25** |

Cynnydd o £20k mewn gorwariant ers yr ail chwarter, ac yn cynnwys yn bennaf costau staffio ychwanegol dros dro.

**Cyfanswm Oedolion**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **40,571** | **40,413** | **41,100** | **687** | | | **687** | **1,053** |

Gostyngiad sylweddol o £366k yn y Cyfanswm Oedolion ers yr ail chwarter, gyda'r Adran yn parhau i weithredu i geisio gwella'r sefyllfa ariannol ymhellach.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER**

**ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**Maes:-** **Gwasanaeth Darparu**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **277** | **522** | **245** | | | **245** | **308** |

Gostyngiad o (£63k) yn y lefel gorwariant o £308k a ragwelwyd yn yr ail chwarter, ac yn cynnwys gorwariant o £92k ar Ofal Preswyl (gostyngiad o (£12k)) sydd yn bennaf oherwydd costau staffio uwch.
Hefyd cynhwysir gorwariant o £173k ar Ofal Cymunedol sy'n ostyngiad o (£60k) ers yr ail chwarter. Roedd y lefel gorwariant blaenorol oherwydd costau staffio a chostau teithio uwch. Bellach, fe welir fod costau staffio yn yr ail hanner o'r flwyddyn wedi gostwng yn sylweddol, ond fod costau teithio yn parhau yn uchel ac yn debygol o ddangos gorwariant o oddeutu £115k erbyn diwedd y flwyddyn.
Er bod y gwasanaeth yn parhau i geisio datrys y sefyllfa, ymddengys bydd angen camau pendant iawn cyn gynted â phosib hefo'r trefniadau perthnasol i osgoi dechrau'r flwyddyn ariannol newydd mewn sefyllfa debyg.
| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **0** | **221** | **221** | | | **221** | **259** |

Sefyllfa gorwariant ar y pennawd yma wedi gwella ers y rhagolygon yn yr ail chwarter, ac yn cynnwys llithriad mewn cyflawni rhai cynlluniau arbedion eleni ond eraill a gyflawnwyd o flaen llaw.

**Budd-daliadau**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **0** | **(245)** | **(245)** | | | **(245)** | **(104)** |

Hyd yma eleni, yn unol â'r tueddiadau diweddaraf fe ragwelir tanwariant o (£245k) ar y pennawd yma, ac sydd yn gynnydd o (£141k) ar y darlun a ragwelwyd yn yr ail chwarter.

**Derbyniad Llog Net**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **0** | **(31)** | **(31)** | | | **(31)** | **(31)** |

Fe ragwelir derbyniad llog ychwanegol o (£31k) am y tro, ac sy'n gyson â'r sefyllfa yn yr ail chwarter, ac yn adlewyrchu sefyllfa ffafriol y farchnad o'i gymharu â'r hyn a welwyd yn gynharach yn y flwyddyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Treth y Cyngor** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **0** | **0** | **(204)** | **(204)** | | | **(204)** | **(148)** |

Hyd yma eleni fe ragwelir fod casgliad Treth y Cyngor ychwanegol wedi cynyddu i (£204k).

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Cyfalaf** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **0** | **0** | **(93)** | **(93)** | | | **(93)** | **0** |

O ganlyniad i dderbyniad grant ychwanegol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, yn golygu fod hyn yn lleihau'r costau cyfalaf perthnasol a gyllidwyd ar eu cyfer.

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ad-Daliad o Dreth ar Werth** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **0** | **0** | **(150)** | **(150)** | | | **(150)** | **0** |

Derbyniad o ad-daliad am Dreth ar Werth perthnasol i gyfrifon Gwastraff Masnachol yn dilyn hawliad a ddilynwyd yn llwyddiannus gan y Cyngor hefo'r Cyllid a Thollau E.M.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER**

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **0** | **0** | **(59)** | **(59)** | | | **(59)** | **4** |

Sefyllfa tanwariant net ar sawl pennawd.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **17 CHWEFROR 2015** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2014/15 –<br>ADOLYGIAD DIWEDD Y TRYDYDD CHWARTER** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ac ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

**1.** Cyflwynir yr adroddiad atodol (adolygiad trydydd chwarter o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 19 Chwefror ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**2.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi cytuno i'w ystyried cyn i ni gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet.

**3.** Bwriedir cyflwyno sylwadau'r Pwyllgor Archwilio "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Cabinet ar 19 Chwefror.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
19 CHWEFROR 2015

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS – AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – 2016/17
ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER 2014/15

**Swyddog Cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2014) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2.2 – 2.5 o'r adroddiad, sef:

- lleihad £95,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £34,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £246,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- cynnydd £163,000 mewn defnydd o gronfeydd eraill

---

**Cyflwyniad / Crynodeb**

Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 4 rhan:

**Rhan 1**: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £92m am y 3 blynedd 2014/15 – 2016/17.

**Rhan 2**: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £0.348m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf, felly ym mharagraff 2.6 gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

**Rhan 3**: Symudiadau o 2014/15 i 2015/16

**Rhan 4**: Gwariant 9 mis cyntaf 2014/15.

**Prif Gasgliadau:**

Fe welir fod gwerth y rhaglen gyfalaf eleni dros £41m, a chyfanswm y rhaglen tair blynedd gyfredol dros £92m, sy'n parhau i fod yn gyflawniad sylweddol gan y Cyngor yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Mae'r lefel gwariant ar ddiwedd Rhagfyr eleni yn 58% o'r gyllideb, ac sy'n gyson a'r 'ryn cyfnod (9 mis) y llynedd.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario cyfalaf, a rhaid i'r Cabinet ffurfiol gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2014/15 - 2016/17.

**Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

Adroddir ar oedi gyda rhai cynlluniau penodol (rhan 3), a gallasai'r Pwyllgor Craffu perthnasol ddewis asesu effaith yr ail-broffilio ar wasanaethau sydd wedi ymdopi'n hirach gyda'r "hen" asedau.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd cyflawni'r prosiectau cyfalaf, ac adrodd ar y sefyllfa diwedd y flwyddyn ariannol i gyfarfod mis Mehefin nesaf y Cabinet.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'n dda bod y Pennaeth Cyllid yn medru adrodd na fydd unrhyw ail-broffilio yn debyg o olygu colli adnoddau. Fodd bynnag, diau y bydd y Cabinet am bwysleisio pwysigrwydd gwario yn ôl y proffil yn arbennig felly yn achos y cynlluniau hynny sydd yn cael sylw ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Dim

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2014/15 i 2016/17

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Rhagfyr 2014 yn erbyn y sefyllfa diwedd Medi:

### CYMHARIAETH RHWNG YR AIL CHWARTER A'R TRYDYDD CHWARTER

| | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | CYFANSWM | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | CYFANSWM | |
| ADRAN | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau Dynol | 39 | 130 | 0 | 169 | 9 | 160 | 0 | 169 | 0 |
| Addysg | 6,259 | 17,005 | 12,915 | 36,179 | 5,217 | 17,649 | 13,333 | 36,199 | 20 |
| Cyllid | 986 | 866 | 0 | 1,852 | 898 | 954 | 0 | 1,852 | 0 |
| Economi a Chymuned | 5,738 | 3,868 | 610 | 10,216 | 5,698 | 4,037 | 610 | 10,345 | 129 |
| Tai | 2,986 | 2,000 | 0 | 4,986 | 2,808 | 2,211 | 0 | 5,019 | 33 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2,251 | 397 | 0 | 2,648 | 1,030 | 1,641 | 0 | 2,671 | 23 |
| Plant a Theuluoedd | 511 | 0 | 0 | 511 | 550 | 0 | 0 | 550 | 39 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 7,545 | 2,844 | 989 | 11,378 | 6,677 | 3,609 | 989 | 11,275 | (103) |
| Rheoleiddio | 18,100 | 5,340 | 58 | 23,498 | 17,881 | 5,778 | 58 | 23,717 | 219 |
| Ymgynghoriaeth | 581 | 18 | 0 | 599 | 569 | 18 | 0 | 587 | (12) |
| **CYFANSWM** | **44,996** | **32,468** | **14,572** | **92,036** | **41,337** | **36,057** | **14,990** | **92,384** | **348** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cynnydd o £0.348m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers y sefyllfa ail chwarter. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | |
| | £000 | £000 | £000 | £'000 | £'000 | £000 | £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,630 | 6,630 | 6,543 | 6,630 | 6,630 | 6,543 | 0 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 7,539 | 6,980 | 911 | 6,539 | 7,562 | 1,329 | 0 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 18,910 | 10,217 | 5,861 | 18,816 | 10,216 | 5,861 | (95) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2,090 | 1,203 | 0 | 1,866 | 1,461 | 0 | 34 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 3,288 | 2,526 | 0 | 2,508 | 3,552 | 0 | 246 |
| Cronfa Cyfalaf | 2,141 | 2,754 | 200 | 866 | 4,029 | 200 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 4,398 | 2,158 | 1,057 | 4,112 | 2,607 | 1,057 | 163 |
| **CYFANSWM** | **44,996** | **32,468** | **14,572** | **41,337** | **36,057** | **14,990** | **348** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **92,036** | | | **92,384** | |

**2.2 Grantiau a Chyfraniadau**
Mae yna danwariant weddol fychan ar ambell i gynllun adfywio gan yr Adran Economi a Chymuned sydd yn rhyddhau £95,000 o grantiau, gan gynnwys:

- Cynllun Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog - yr elfen grant i drydydd parti
- Cynllun Gwella Trefi a Blaen Siop.

**2.3 Derbyniadau Cyfalaf**
Cynnydd yn y gwariant ar gynllun Gweithdai Glynllifon gan yr Adran Economi a Chymuned (gweler hefyd cyfraniad refeniw adrannol ychwanegol yn 2.4 isod) sydd wedi arwain at gynnydd net o £34,000 yn y dull yma o ariannu.

**2.4 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol**
Cynnydd net o £246,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Trofeydd Twneli Llanberis (Adran Rheoleiddio) - £138,820 yn 2014/15,** drwy ail-flaenoriaethu cyllidebau gweithiau refeniw.
- **Cynlluniau Cronfa Trafnidiaeth Leol (Adran Rheoleiddio) - £56,980 yn 2014/15,** drwy ail-flaenoriaethu cyllidebau gweithiau refeniw.
- **Cynllun Gweithdai Glynllifon (Adran Economi a Chymuned) - £49,700 yn 2014/15** (gweler hefyd defnydd o dderbyniadau cyfalaf adrannol yn 2.3 uchod)

**2.5 Cronfeydd Eraill**
Defnydd ychwanegol o £163,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gwariant ar ddau gynllun gan yr Adran Economi a Chymuned, sef:

- **Cynllun Ein Treftadaeth - £103,860 yn 2014/15**
- **Academi Hwylio Pwllheli – £75,800 yn 2014/15**

**2.6 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2014/15 i 2016/17 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 2.2 i 2.5 uchod), sef:**

- **lleihad £95,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau**
- **cynnydd £34,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf**
- **cynnydd £246,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw**
- **cynnydd £163,000 mewn defnydd o gronfeydd eraill**

## 3 PROFFILIAU GWARIANT BLYNYDDOL

**3.1** Cyfanswm lefel yr ail-broffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2014/15 i 2015/16 hyd yma yw £10,785,470. Mae'r ffigyrau yn rhan 1 o'r adroddiad yn adlewyrchu hyn, gyda'r prif eitemau fel a ganlyn –

Cynlluniau wedi'u hariannu o adnoddau'r Cyngor:-

- Amgueddfa Oriel Gwynedd (Adran Economi a Chymuned) £896,720
- Adeiladau Dros Dro Ysgolion (Adran Addysg/Uned Eiddo) £686,550
- Sustem Rheoli Gofal Cymunedol (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) £572,500
- Cronfa Fflyd y Cyngor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £444,910
- Sustem 'EDRMS' (*Electronic Document and Records Management System*) (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) £395,600
- Cynlluniau Rheoli Carbon Adeiladau'r Cyngor (Adran Rheoleiddio/Uned Eiddo) £390,000
- Adleoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) £301,260
- Adnewyddu Offer Technoleg Gwybodaeth (Adran Gyllid) £200,000
- Canolfan Adennill Deunyddiau Meirionnydd (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £184,000

Cynlluniau wedi'u hariannu (yn rhannol) drwy grantiau penodol:-

- Pont Briwet, Penrhyndeudraeth (Adran Rheoleiddio) £1,882,130
  *(Yn ychwanegol, fe welir elfen o risg ariannol i'r Cyngor yn dilyn derbyniad o hawliadau ychwanegol perthnasol, ac sy'n destun trafodaethau pellach rhwng y partïon).*
- Academi Hwylio Pwllheli (Adran Economi a Chymuned) £1,544,720
- Ysgol Groeslon (Adran Addysg) £1,099,000
- Ysgol Arbennig Meirion Dwyfor (Adran Addysg) £450,970

**3.2** Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu colled mewn grant.

**3.3** Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

## 4 GWARIANT CYFALAF 9 MIS CYNTAF 2014/15

**4.1** Mae'r tabl isod yn dadansoddi sefyllfa gwir wariant cyfalaf adrannau'r Cyngor ar ddiwedd y trydydd chwarter (9 mis), gyferbyn â'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2014/15 (blwyddyn gyfan) -

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LLAWN (adolygwyd Rhagfyr) 2014/15 £'000 | GWIR WARIANT Y 9 MIS HYD AT 31/12/2014 £'000 |
|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 9 | 0 |
| Addysg | 5,217 | 2,858 |
| Cyllid | 898 | 432 |
| Economi a Chymuned | 5,698 | 2,785 |
| Tai | 2,808 | 2,183 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,030 | 367 |
| Plant a Theuluoedd | 550 | 84 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6,677 | 3,970 |
| Rheoleiddio | 17,881 | 10,954 |
| Ymgynghoriaeth | 569 | 156 |
| **CYFANSWM** | **41,337** | **23,789** |

Mae rhai adrannau yn ymddangos i fod yn gwario'n sylweddol llai na tri chwarter y gyllideb flynyddol hyd yma, sef Adran Addysg (yn bennaf oherwydd proffil gwariant cynlluniau Ysgolion Ganrif 21), Adran Economi a Chymuned (yn bennaf oherwydd oedi gyda'r cynllun Academi Hwylio ym Mhwllheli), Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn bennaf oherwydd natur y proffil gwariant ar adnewyddu cerbydau) a'r Adran Rheoleiddio (yn bennaf oherwydd proffil gwariant Pont Briwet). Er hynny mae'r adrannau yn hyderus y byddent yn gwario yn unol â'r rhaglen erbyn diwedd y flwyddyn.

**4.2** Mae bron i £23.8m wedi ei wario yn ystod y naw mis cyntaf, sef 58% o'r gyllideb.

| CRYNODEB | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2014/15 | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2013/14 | LLEIHAD |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Blwyddyn Gyfan | £41.3miliwn | £46.7miliwn | £5.4miliwn |
| Gwariant y 9 mis cyntaf | £23.8miliwn | £27.2miliwn | £3.4miliwn |
| Gwariant fel canran o'r gyllideb | 58% | 58% | 0% |

**4.3** Er gwaethaf yr ail broffilio, mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni yn cyfateb gyda'r sefyllfa adeg yma'r llynedd.

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **17 CHWEFROR 2015** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 IONAWR 2015** |
| AWDUR | **JOHN PUGHE ROBERTS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2014, penderfynodd y Pwyllgor Archwilio:

- **Bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr Tom Ellis, Dilwyn Morgan a Angela Russell i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' yn ogystal ag archwiliad dilyniant Porthladdoedd. Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn gyfrifoldeb ar unrhyw aelod sydd ddim yn gallu bod yn bresennol yn y Gweithgor i drefnu eilydd.**
- **Gwahodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd a'r swyddogion perthnasol o'r Adran Rheoleiddio i gyfarfod nesaf y Gweithgor Gwella Rheolaethau parthed cynllun Pont Briwet.**

1.2 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 13 o adroddiadau i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 18 Rhagfyr 2014, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 13 Medi 2014 a 30 Tachwedd 2014. Derbyniodd 2 o'r adroddiadau hyn farn 'C'.

1.3 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu adroddiadau monitro cyllideb, ac ystyried holl agweddau rheoli risg y Cyngor lle'n briodol. Felly, yn ogystal â thrafod adroddiadau archwilio mewnol oedd wedi derbyn barn 'C', rhoddwyd sylw i gynllun cyfalaf Pont Briwet gan y Gweithgor. Roedd y gyllideb gyfalaf wedi derbyn sylw gan y Cabinet ar 25 Tachwedd 2014, ac effaith oedi y cynllun gan Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 2 Rhagfyr.

## 2 CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 16 Ionawr gyda Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Tom Ellis a Angela Russell, a Dewi Morgan, Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn bresennol.

2.2 Yn ogystal â chynllun cyfalaf Pont Briwet, yr adroddiadau Archwilio Mewnol a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN |
|---|---|---|---|
| Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch | Rheoleiddio | Gwarchod y Cyhoedd | C |
| Canolfannau Hamdden | Economi a Chymuned | Hamdden | C |
| Dilyniant – Porthladdoedd | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | Anfoddhaol |

**2.4 Pont Briwet**

2.4.1 Mynychodd Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio) a Pat Jones (Cydlynydd Prosiect Pont Briwet) y cyfarfod, er mwyn diweddaru'r Gweithgor am y risgiau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth i brosiect adeiladu Pont Briwet newydd fynd yn ei flaen. Roedd y Pennaeth Cyllid hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem yma.

2.4.2 Nodwyd fod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi edrych ar y mater yma ym mis Rhagfyr i ystyried effaith cau'r bont ar y dinesydd. Eglurodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg fod Archwilio Mewnol wedi edrych ar y cynllun o safbwynt y trefniadau i liniau risgiau, a'u bod yn gyfforddus fod cymalau o fewn y gytundeb gyda'r contractwr sydd yn mynd llawer o'r ffordd i amddiffyn buddiannau'r Cyngor. Nodwyd na ellid cael datblygiad o'r math yma heb risgiau cynhenid, ac mae risgiau pellach pan mae'r gwaith adeiladu mewn man ddaearyddol anodd, fel yn yr achos hwn.

2.4.3 Eglurodd y Pennaeth Rheoleiddio fod nifer o bethau all fynd o'i le gyda cynllun o'r math yma, ac mae hynny wedi ei amlygu'n barod, gyda peilon trydan yn sigo a hen fom yn cael ei darganfod yn y dŵr. Tra yn derbyn bod y gwaith wedi llithro o'r amserlen wreiddiol, ac ei bod yn ddealladwy bod pobl yn anfodlon oherwydd effaith hynny; mynegodd ei farn bod carfan cymharol fychan o bobl wedi chwyddo rhai o'r problemau i ymddangos yn fwy nag y maent.

2.4.4 Roedd y Pennaeth Rheoleiddio hefyd yn cydnabod fod yna risgiau ariannol ynghlwm i'r cynllun, ond fod swyddogion wedi cadw golwg fanwl ar hyn o'r cychwyn. Nododd fod y swyddogion yn ymwybodol fod dyddiad cau gwariant y grantiau yn dyddiad allweddol a bod pob ymdrech yn cael ei wneud i hawlio yr arian yn ei gyfanrwydd cyn y dyddiad hwnnw.

2.4.5 Dywedodd Cydlynydd Prosiect Pont Briwet fod angen ystyried dau agwedd:

- Y Cyhoedd. Roedd pawb yn cydnabod fod effaith wedi bod arnynt. Roedd yr agwedd yma eisoes wedi cael sylw gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau.
- Y Cyngor. O safbwynt y Cyngor, amser ydi'r risg mwyaf ac mae cais wedi ei wneud i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) am estyniad amser. Yn anffodus, mae'r rhaglen sydd yn ariannu cynllun Pont Briwet yn dod i ben a felly mae'n annhebygol y bydd modd llithro heibio Mehefin 2015.

2.4.6 Roedd y Gweithgor yn ymwybodol fod y contractwyr wedi cyflwyno hawliadau am gostau pellach. Adroddodd y swyddogion mai barn y Cyngor yw nad oes modd gosod gwerth ariannol arnynt ar hyn o bryd, ond y bydd gohebiaeth ffurfiol yn rhoi ffocws ar y materion allweddol. Roedd y swyddogion yn hyderus fod cadernid y cytundeb ffurfiol yn cynnig modd i'r Cyngor ymdrin yn briodol â'r hawliadau hyn, a fod y mater yn destun sylw cyfreithiol.

2.4.7 Holwyd y swyddogion am y drefn tendro. Eglurodd y Cydlynydd Prosiect mai'r Cyngor oedd wedi arwain y broses tendro gan nad oedd trefniadau Network Rail yn cwrdd ag amodau WEFO. Nodwyd fod trafodaethau parhaus gyda Network Rail.

2.4.8 Gofynnodd aelod beth ydi'r amserlen rŵan? Atebodd y Cydlynydd Prosiect mai diwedd Chwefror oedd yn y gytundeb wreiddiol, ac roedd y bont wedi ei chau yn gyfan gwbl er mwyn cwrdd â hynny. Y dyddiad cwblhau sydd wedi ei gynnig gan y contractwr erbyn hyn ydi diwedd Mehefin. Eglurwyd fod digwyddiadau megis y pylon wedi bwyta i mewn i'r ddarpariaeth ar gyfer tywydd garw.

2.4.9 Roedd y swyddogion yn cydnabod fod gwersi wedi eu dysgu o ran sut mae cyfathrebu gyda'r cyhoedd gyda cynllun o'r math yma.

2.4.10 Eglurwyd fod cynllun o fewn y gytundeb sydd yn delio â cholledion i'r Cyngor yn destun trafodaethau gyda bargyfreithwyr.

2.4.11 Roedd y Gweithgor yn ymwybodol fod methiant i osod pont dros dro, a defnyddio trefn confoi yn ei le, wedi bod yn destun cryn sylw yn lleol. Roedd y Gweithgor hefyd ar ddeall fod pris am bont dros dro wedi ei gynnwys yn y gytundeb. Gofynnwyd, felly, pam na osodwyd pont dro dro? Atebodd y Cydlynydd Prosiect fod pont dros dro yn yr "indicative plan", ond fod egwyddorion peirianneg gwerth gorau ("best value engineering") yn rhoi cyfle i gwmnïau sy'n cyflwyno tendr i gynnig cynlluniau amgen. Nid pont dros dro oedd yng nghynnig gwreiddiol y cwmni llwyddiannus, ond dec wedi ei osod nesaf i'r rheilffordd. Roedd prisiau y cwmnïoedd hynny oedd wedi cynnwys pont dros dro yn llawer uwch, y tu hwnt i'r gyllideb oedd yn ei lle. Nid oedd rheolaeth trafnidiaeth wedi ei gynnwys yn y gytundeb, a daeth swyddogion i'r casgliad y byddai defnyddio rheolaeth traffig ar y ffordd trwy Maentwrog yn hytrach na dec dros dro yn gost niwtral. Pwysleisiwyd y bu trafodaethau gyda'r gymuned wrth ddod i'r penderfyniad yma.

2.4.12 Nodwyd fod trefniadau ar y gweill i ystyried effaith y gwaith adeiladu ar fusnesau lleol.

2.4.13 Holodd aelod am yr effaith y bydd agor y bont newydd yn ei gael ar ganol Penrhyndeudraeth. Ymatebodd y Pennaeth Rheoleiddio gan egluro fod ei Adran wedi edrych ar yr effaith tebygol ar yr ardal, ac wrth gwrs y bydd angen rhoi ystyriaeth dichonoldeb ac ariannol i wella'r rhwydwaith ffyrdd yn y pentref. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y gefnffordd, a bydd gwaith monitro yn dechrau yn syth er mwyn sefydlu os oes angen gwaith pellach i ddelio â chyfaint uwch o drafnidiaeth.

2.4.14 Roedd y Gweithgor o'r farn nad y tendr isaf sy'n cynnig y datrysiad gorau pob tro. A fyddai tendr uwch wedi bod yn "well", ac onid yw maint y risg erbyn hyn yn golygu y byddai derbyn tendr uwch wedi bod yn fwy economaidd yn y pen draw? Eglurodd y swyddogion fod y tendr wedi ei asesu a'i osod ar sail pris ac ansawdd ill dau, ac ni fu unrhyw arwydd yn ystod y cyfnod yma fod rheswm i amau gallu'r cwmni llwyddiannus, gan fod ganddynt drwyddedau angenrheidiol ayb. Tan y bydd y Cyngor wedi derbyn manylion am gostau ychwanegol, ni fydd modd rhoi pris terfynol ar y risg ariannol. Er hyn, mae swyddogion y Cyngor yn hyderus fod ansawdd ein cofnodion i gefnogi safbwynt y Cyngor yn dda iawn.

2.4.15 Eglurodd y Cydlynydd Prosiect fod rheolwyr prosiect a syrfewyr meintiau da iawn ar y safle, gyda'r Pennaeth Rheoleiddio yn cadarnhau ei farn fod gan y Cyngor dîm da iawn a phrofiadol yno. Nodwyd fod y Cyngor wedi mynd trwy brosiect caffael ffurfiol cyn penodi rheolwyr prosiect a syrfewyr meintiau.

2.4.16 I gloi, pwysleisiodd y Pennaeth Rheoleiddio fod hwn yn brosiect cymhleth. Nid yw fel pont arferol oherwydd fod y rheilffordd arni hefyd Ac roedd angen prynu arbenigedd i mewn o'r tu allan i gynorthwyo gyda'r gwaith. Ond, mae hynny yn talu ar ei ganfed erbyn hyn oherwydd yr angen i ddelio â'r oedi a chostau ychwanegol.

2.4.17 Roedd y Gweithgor yn awyddus i'r Pwyllgor dderbyn ddiweddariad mewn rhai misoedd. Cytunwyd y byddent yn cael hynny trwy waith Archwilio Mewnol.

**2.4.18 Diolchwyd i'r swyddogion am fynychu, ac am egluro'r sefyllfa. Roedd y Gweithgor yn casglu nad oedd modd meintioli'r risg ariannol yn derfynol, ond yn gwerthfawrogi fod camau pendant wedi cymryd trwy gydol y prosiect i reoli'r risgiau yn rhesymol.**

**2.5 Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch**

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud gan yr Adran i geisio sicrhau eu bod yn ymdrin â diffygion a nodwyd yn adroddiad archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Gwelir bod ymarfer da bellach wedi ei ddatblygu yn nifer o'r gweithdrefnau oddi fewn y gwasanaeth. Mae ffurflenni manwl Archwiliadau Bwyd newydd wedi cael eu cynhyrchu a'u treialu. Mae canllawiau newydd hefyd wedi cael eu datblygu ar gyfer y gwasanaeth sef y Nodiadau Gweithdrefn Bwyd. Roedd rhain mewn ffurf drafft ar adeg yr archwiliad gyda'r bwriad o dderbyn cymeradwyaeth a'u cyhoeddi yn derfynol mor fuan ag sydd bosib. Fodd bynnag, mae rhai materion yn codi sydd heb gael eu gweithredu gan y gwasanaeth. Gwelir bod gwendidau yn y system monitro fewnol ac mewn trefniadau dirprwyo pe bae swyddogion yn absennol o'r gwaith a dylid sicrhau bod y dogfennau perthnasol yn cael eu cyflwyno yn derfynol mor fuan ag sydd bosib.*

2.5.2 Roedd Aled Davies, Pennaeth Rheoleiddio, yn bresennol i drafod yr eitem yma.

2.5.3 Cyflwynwyd cefndir i'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg. Eglurodd fod yr archwiliad wedi ei gynnwys yng nghynllun gwaith Archwilio Mewnol 2014/15 ar gais y Pennaeth Rheoleiddio, wedi i'r gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd dderbyn adroddiad beirniadol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ynglŷn ag elfennau o waith hylendid bwyd. Roedd yr Uwch Reolwr yn falch o adrodd fod nifer o'r problemau o fewn y Cyngor oedd wedi arwain ar hyn bellach wedi derbyn sylw, a gwelodd yr archwiliwr fod cynnydd wedi ei wneud ers adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Nodwyd hefyd fod y mater wedi cael sylw gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Gorffennaf 2014.

2.5.4 Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio ei fod yn gweld Archwilio Mewnol fel ffrind critigol sydd yn rhoi cysur os ydi pethau'n iawn, ond yn amlygu problemau os oes angen.

2.5.5 Cyflwynodd y Pennaeth Rheoleiddio gyd-destun i'r sefyllfa. Ar un agwedd benodol, nid oedd trefniadau mewnol y Cyngor er mwyn cofnodi archwiliadau yn gadarn yn ystod adolygiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ond ers yr adroddiad bu'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r Asiantaeth i roi trefniadau yn eu lle. Mae'r Asiantaeth wedi bod yn ôl ddechrau mis Hydref, ac adroddwyd eu bod yn hapus gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud.

2.5.6 Ymhellach, mewn tabl perfformiad o awdurdodau lleol ar waith orfodaeth bwyd yn y cylchgrawn Which?, roedd Gwynedd ymysg y gorau yng Nghymru ac yn yr 10 uchaf trwy Brydain; nodwyd fod y Prif Weithredwr wedi cael e-bost ganddynt. Roedd y Pennaeth yn awyddus i bwysleisio nad yw hyn yn esgus i laesu dwylo, ac mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar y rhaglen wella a gytunwyd gan y Pwyllgor Craffu. Roedd y swyddogion perthnasol yn hyderus y bydd yr archwiliad dilyniant yn dangos gwelliant mawr.

2.5.7 Nodwyd gan aelodau'r Gweithgor eu bod yn gwerthfawrogi'r gwaith ac yn deall pwysigrwydd cael hyn yn iawn. O ran cyd-destun, nododd y Pennaeth Rheoleiddio fod dros 2000 o fusnesau yn berthnasol i'r gwaith oedd yn destun adolygiad yr Asiantaeth Safonau bwyd. Wrth gwrs, mae rhai sefydliadau sy'n gwerthu bwyd yn risg uwch na'i gilydd.

2.5.8 Holiwyd y Pennaeth Rheoleiddio am y System Flare y cyfeirir ato yn adroddiad Archwilio Mewnol. Eglurwyd mai hwn yw'r system a ddefnyddir i gofnodi a cynhyrchu adroddiadau monitro gan y Gwasanaethau Gwarchod y Gyhoedd, gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd.

2.5.9 Pwysleisiodd y Pennaeth Rheoleiddio fod hwn wedi bod yn gyfnod anodd iawn i'r tîm, ond ei fod yn falch o adrodd fod cynnydd da wedi ei wneud.

**2.5.10 Diolchwyd y Pennaeth Rheoleiddio am ei atebion agored a pharod, a gofynnwyd iddo pasio neges i'r holl dîm gan y Pwyllgor Archwilio yn eu llongyfarch am y cynnydd ac am eu llwyddiant yn asesiad Which?**

## 2.6 Canolfannau Hamdden

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

> *Gwelwyd bod enghreifftiau o ymarfer da a rheolaeth gadarn mewn lle yn rhai o'r Canolfannau Hamdden a archwiliwyd, er mwyn lliniaru ystod o risgiau yng ngweinyddiaeth a rheolaeth y canolfannau. Fodd bynnag, gwelwyd bod nifer o'r meysydd a archwiliwyd angen sylw pellach, yn enwedig meysydd iechyd a diogelwch, bancio incwm a rheolaeth stoc. Mae nifer o wendidau wedi eu darganfod ac oherwydd hyn dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn rhai o'r meysydd a archwiliwyd. Mae'r Gwasanaeth Canolfannau Hamdden yn y broses o ail drefnu er mwyn ymdrechu i reoli a lliniaru risgiau canolfannau hamdden yn well yn y dyfodol.*

2.6.2 Croesawyd David Wood (Uwch Ymgynghorwr Technegol) ac Adam Williams (Is-Reolwr Ardal Tywyn / Bala / Dolgellau) o'r Gwasanaeth Hamdden, Adran Economi a Chymuned, i'r cyfarfod.

2.6.3 Rhoddwyd cefndir i'r archwiliad gan yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg. Nodwyd fod archwiliadau ar y Canolfannau Hamdden yn edrych ar y rheolaethau i liniaru ystod eang o risgiau. Efallai nad oedd y risgiau hyn yn unigol yn rhai enfawr, ond gan fod cynifer o bethau sydd angen sylw wrth redeg y canolfannau hamdden, megis arian parod, iechyd a diogelwch, diogelu ayb, cynhelir archwiliad ohonynt yn rheolaidd. Cynigiodd yr Uwch Reolwr hefyd esboniad i'r swyddogion o'r Gwasanaeth Hamdden beth yw pwrpas y Gweithgor.

2.6.4 Nodwyd fod yr archwiliad wedi edrych ar sampl o bedair canolfan. Nododd yr Uwch Reolwr efallai y byddai mynd yn ôl i'r drefn o gynnal archwiliadau ar ganolfannau unigol o hyn ymlaen yn fuddiol, gan fod amrediad o ansawdd gweithredu'r systemau yn y gwahanol ganolfannau. Nodwyd mai Canolfan Hamdden Penllyn oedd yr un yn y sampl oedd â'r mwyaf o le i wella o safbwynt rheoli risgiau.

2.6.5 Eglurodd yr Uwch Ymgynghorwr Technegol fod gwaith wedi gynnal i edrych ar ganolfannau hamdden yr holl sir, a fod trefniadau newydd yn eu lle ar gyfer ardal Meirionnydd. Dywedodd fod y system gyfrifiadurol wedi cael ei ailadeiladu er mwyn ei gwneud yn haws i staff i'w ddefnyddio. Fel canlyniad, mae systemau monitro yn eu lle wedi eu cryfhau.

2.6.6 Roedd yr adroddiad yn cynnwys 18 argymhelliad yn berthnasol i Ganolfan Hamdden Penllyn. Adroddwyd i'r Gweithgor gan y swyddogion o'r Gwasanaeth Hamdden fod 14 o'r rhain eisoes wedi cael eu gweithredu, a dim ond dau 2 argymhelliad sydd heb gael eu gweithredu ym Mhwll Nofio Bangor.

2.6.7 Holwyd y swyddogion am drefniadau hyfforddiant i staff. Atebodd yr Uwch Ymgynghorwr Technegol fod cydnabyddiaeth efallai nad oedd staff wedi cael eu hyfforddi yn llawn cyn cael eu rhoi ar ddesg flaen y ganolfan. Yn hynny o beth, mae amrywiad o ran canolfannau – mae rhai canolfannau gyda staff penodol ar gyfer y ddesg, tra mewn eraill mae'r staff yn ymgymryd â'r holl dasgau.

2.6.8 Nodwyd mai un o'r materion sydd eto i gael sylw yng Nghanolfan Hamdden Penllyn ydi asesiadau risg tân. Roedd wedi bod yn aneglur pwy oedd yn gyfrifol am beth o fewn y ganolfan honno, ond mae'r mater wedi cael sylw bellach.

2.6.9 Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Gweithgor, derbyniwyd cadarnhad fod rhaid i bob aelod o staff gael gwiriad DBS.

2.6.10 Er mwyn rhoi'r gwasanaeth yn ei gyd-destun, pwysleisiodd yr Uwch Ymgynghorwr Technegol fod y canolfannau hamdden yn dod ag incwm o £2.7m i'r Cyngor. Mae dros £600,00 yn cael ei dalu trwy ddebyd uniongyrchol erbyn hyn sy'n golygu fod llai o arian parod yn y canolfannau.

2.6.11 Roedd aelodau'r Gweithgor yn gwerthfawrogi fod llawer o bethau i'w gwneud gan staff ar adegau ac fod pwysau arnynt i weithredu. Gofynnwyd i'r swyddogion os oedd yna unrhyw beth yr oeddynt yn teimlo y gallai'r Pwyllgor Archwilio ei wneud i'w cefnogi ymhellach. Nodwyd nad oedd yn unrhyw beth penodol ar hyn o bryd. Yn sgil ad-drefnu o fewn y gwasanaeth, nodwyd fod 4 rheolwr ardal erbyn hyn, yn hytrach na 12 rheolwr ar y canolfannau unigol, ac fod Swyddog Ansawdd wedi ei benodi i gynorthwyo'r holl ganolfannau.

**2.6.12 Diolchwyd i'r swyddogion o'r Gwasanaeth Hamdden am fynychu'r cyfarfod ac am eu cadarnhad fod argymhellion yr archwiliad yn derbyn sylw.**

## 2.7 Dilyniant – Porthladdoedd

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Gweithred yn Anfoddhaol. Gwelwyd allan o'r 33 argymhelliad a wnaethpwyd bod gweithrediad llawn ar 16 argymhelliad, gweithrediad rhannol ar 4 argymhelliad ac 13 argymhelliad heb eu gweithredu. Nid oedd modd i'r Archwiliwr gwirio os cafodd un argymhelliad ei weithredu neu ddim.*

2.7.2 Croesawyd Llyr Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Barry Davies (Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig) i'r cyfarfod.

2.7.3 Eglurodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg fod y Gweithgor wedi ystyried yr adroddiad gwreiddiol – oedd wedi derbyn Barn 'C' – tua blwyddyn yn ôl, ond ar adeg y gwaith dilyniant tua hanner yr argymhellion oedd wedi eu gweithredu'n llawn. Roedd ymddangosiad pellach gerbron y Gweithgor yn gyfle i'r Pwyllgor Archwilio ac Archwilio Mewnol i gefnogi'r gwasanaeth i ddelio gydag unrhyw rwystrau sy'n atal gweithredu'n llawn.

2.7.4 Dywedodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned eu bod yn siomedig fod yr archwiliad dilyniant wedi cael barn anfoddhaol. O safbwynt gosod cyd-destun, eglurwyd y bu stormydd difrifol yn Ionawr 2014 a achosodd llawer o ddifrod. Mabwysiadwyd cynlluniau adfer i ddelio â'r difrod, ac fe cafodd pob un heblaw un o'r cynlluniau eu gweithredu a'u cwblhau erbyn prif dymor yr haf.

2.7.5 Nodwyd fod swydd Uwch Swyddog Harbyrau wedi bod yn wag ers blwyddyn. Yn ystod y cyfnod cafodd cyfrifoldebau'r swydd ei adolygu cyn ei hysbysebu. Mae'r swydd ar fin cael ei llenwi, gyda'r swyddog newydd yn cychwyn ei ddyletswyddau ar 2il Chwefror 2015. Mae dyletswyddau'r swydd yn cynnwys rheolaeth llinell staff harbyrau, a bydd yn delio gyda materion sy'n gysylltiedig gyda'r adroddiad.

2.7.6 Eglurodd y swyddogion o Economi a Chymuned fod y targedau incwm cyfredol wedi eu sefydlu ar sail incwm hanesyddol yn hytrach na realiti'r sefyllfa erbyn hyn. Un o'r ychydig opsiynau sydd ar gael i'r gwasanaeth pan mae sefyllfa o gorwariant (diffyg Incwm) ydi peidio llenwi swyddi pan fyddant yn dod yn wag. Golygai hyn bydd yn fwy anodd a heriol i weithredu argymhellion.

2.7.7 Nodwyd gan y swyddogion fod gwaith sylweddol wedi ei gwblhau ers Medi 2014, pan gynhaliwyd yr archwiliad dilyniant. Derbyniwyd cadarnhad fod 10 o'r argymhellion nad oedd wedi eu gweithredu yn llawn ym Medi bellach wedi eu cyflawni.

2.7.8 Er hyn, roedd y swyddogion yn cydnabod fod gwaith pellach angen ei gwblhau. Cyfeiriwyd at dri argymhelliad sydd angen gwaith pellach, sef:

*A16 Dylid codi anfoneb er mwyn derbyn yr ad-daliad TAW cywir sy'n ddyledus o gostau trydan Canolfan Dyfi am y flwyddyn flaenorol.*

*A26 Dylid adolygu a diweddaru asesiadau risg porthladdoedd yn flynyddol, neu pan fo newid mewn risg, gan nodi dyddiad yr adolygiad ar ben yr asesiad risg.*

*A32 Dylid diweddaru a sicrhau fod rhestr eiddo porthladdoedd yn cael eu cadw'n gyfredol, gan eu hadolygu'n flynyddol.*

Bydd gweithredu'r argymhellion hyn yn flaenoriaeth i'r Uwch Swyddog Harbyrau.

2.7.9 Roedd y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn falch fod yr hyn sydd yn cael effaith ar gwsmeriaid yn dda iawn, ac mai gwendidau yn y trefniadau gweinyddol oedd yn anfoddhaol. Dywedodd nad oedd gwaith gweinyddol yn dod yn naturiol i'r holl swyddogion, a'u bod wedi bod yn rhoi blaenoriaeth i faterion gweithredol.

2.7.10 O ran dyfodol y gwasanaeth, nodwyd nad yw'r diwydiant morwrol yn genedlaethol ar ei orau ar hyn o bryd. Mae nifer y cychod wedi lleihau, sy'n creu bwlch incwm sylweddol. Yn ogystal, roedd swydd Harbwrfeistr gwag wedi dwysau'r problemau. Nododd y swyddogion eu bod wedi gwerthfawrogi gwaith yr archwiliwr, gan ei fod wedi bod yn drylwyr iawn. Er hyn, tynnwyd sylw at ymarferoldeb rhai o'r argymhellion megis bancio pob wythnos. Nodwyd hefyd nad oes modd talu gyda cerdyn yn yr Harbyrau, a byddai cymorth gyda'r trefniadau casglu incwm hyn yn cael ei werthfawrogi; byddai hyn yn leihau gwaith gweinyddol yn sylweddol ac yn lleihau risg cadw arian. Roedd y swyddogion o'r farn byddai cymorth gyda sicrhau offer derbyn taliadau drwy gerdyn yn hanfodol bwysig.

2.7.11 Eglurwyd fod dau swydd llawn amser ar y strwythur yn Aberdyfi ac Abermaw, ond dim ond am 6 mis y flwyddyn y mae y ddwy ohonynt wedi eu llenwi. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nodwyd na ddylai agor yr Academi Hwylio ym Mhwllheli gynyddu'r pwysau ar y gwasanaeth gan mai cwmni annibynnol fydd yn rhedeg yr Academi. Nodwyd hefyd fod system debyd uniongyrchol wedi cael ei gyflwyno yn yr Hafan.

2.7.12 Holodd un aelod o'r Gweithgor am gyfarpar diogelwch yr harbyrau. Rhoddwyd sicrwydd fod siacedi achub yn cael eu archwilio ac eu cynnal a chadw gan gwmni arbenigol yn flynyddol, ond nid oedd hyn wedi cael ei gofnodi ar y system pan ymwelodd yr archwiliwr. Mae gan pob swyddog yr holl gyfarpar diogelwch sydd ei angen.

2.7.13 Nodwyd hefyd fod partneriaeth llwyddiannus wedi ei sefydlu gyda cwmni preifat i warchod llithrfa Pwllheli, sy'n dangos y cyfleon sydd ar gael i weithio yn wahanol.

2.7.14 I gloi, dywedodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ei fod yn teimlo fod gwerth i'r adroddiad, er nad oedd yn deimlad braf gorfod mynd gerbron y Gweithgor. Mae'r adroddiad wedi bod yn ddefnyddiol yn amlygu i holl staff y meysydd hynny lle mae angen gwella ynghyd â phwysigrwydd i gydymffurfio gyda gweithdrefnau'r Cyngor.

**2.7.15 Diolchwyd i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod, ac amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf.**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **17 CHWEFROR 2015** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 IONAWR 2015** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2014 hyd at 31 Ionawr 2015.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2015:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 8 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 1 |
| Adolygiadau Grant | 2 |
| Archwiliadau Dilyniant | 4 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae’r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o’r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2015, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i’r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Olyniaeth a Chynllunio'r Gweithlu | Corfforaethol | | A | Atodiad 1 |
| Rheolaeth Trysorlys | Cyllid | Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys | B | Atodiad 2 |
| Cronfa Degwm | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | A | Atodiad 3 |
| Yr Hafan, Pwllheli | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | B | Atodiad 4 |
| Unedau Diwydiannol a Thechnoleg | Economi a Chymuned | Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer | A | Atodiad 5 |
| Trefniadau sifft mewn Cartrefi Preswyl | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 6 |
| Plant mewn Gofal - asesiadau addysg ac iechyd | Plant a Cefnogi Teuluoedd | Plant a Theuluoedd | B | Atodiad 7 |
| Cydweithio - Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | A | Atodiad 8 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn “A” Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.

Barn “B” Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn “C” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn “CH” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Pont Briwet** *(Rheoleiddio).* Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Cyngor Gwynedd wedi adnabod yr holl risgiau fyddai'n rhesymol eu disgwyl sydd ynghlwm i brosiect adeiladu Pont Briwet newydd ar amser yr archwiliad; hynny yw, tra mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Roedd yr archwiliad yn gwirio bod trefniadau rheoli a lliniaru unrhyw risgiau a adnabuwyd yn foddhaol, gan gynnwys y risgiau o unrhyw gostau ychwanegol i'r Cyngor yn sgil hawliadau gan y contractwr ac oediadau pellach mewn cyflawni'r gwaith.

  Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofrestr risg y prosiect a'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer rheoli a lliniaru'r risgiau a adnabuwyd.

  Y prif risgiau yr oedd y prosiect yn ei wynebu ar amser yr archwiliad oedd oediadau pellach fydd yn golygu na fydd y prosiect wedi ei chwblhau o fewn amserlen y corff ariannu, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), yn ogystal ag ansicrwydd dros hawliadau am gostau ychwanegol gan y contractwr. Fodd bynnag, mae'r Archwiliwr o'r farn bod camau rhesymol wedi eu cymryd gan y Cyngor i liniaru'r risgiau yma.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Amddifadedd Disgyblion *(Addysg)*
- Grant Teuluoedd yn Gyntaf *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Plas Ogwen | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | **Derbyniol** |
| Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion | Addysg | Ysgolion | **Derbyniol** |
| Diogelwch Glinfyrddau | Cyllid | Technoleg Gwybodaeth | **Derbyniol** |
| Gwiriadau DBS Staff | Corfforaethol | | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2014**

Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2014**

Trefniadau Hawlio Goramser

Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2015**

Cymunedau'n Gyntaf (Y Rhaglen Newydd)

Cofrestr Diogelwch Staff

Parciau Gwledig

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2015**

Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch

Canolfannau Hamdden

Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion

Taliadau Uniongyrchol

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Chwefror 2015.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Protocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog *(Corfforaethol)*
- System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- TGCh mewn Ysgolion Uwchradd *(Addysg)*
- Ffonau Symudol *(Corfforaethol)*
- Iechyd a Diogelwch - Gweithio'n Unig *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Dysgu a Datblygu *(Corfforaethol)*
- Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Cydgyfeiriant Rhwydwaith *(Cyllid)*
- Cyflogau - Swyddi Lluosog *(Cyllid)*
- Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Treth Di-Annedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- TG - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth *(Cyllid)*
- Dilyniant - Parciau Gwledig *(Economi a Chymuned)*
- Dilyniant - Taliadau Uniongyrchol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Asedau Preswylwyr Cartrefi *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Galw Gwynedd *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- System Gwybodaeth Gwasanaeth Cymdeithasol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Grant Refeniw Dechrau'n Deg *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Gwasanaethau Plant - Comisiynu Gofal *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Depos a Gweithdai - Rheolaeth Stoc *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Gorfodaeth Parcio *(Rheoleiddio)*
- Uned Trafnidiaeth Integredig *(Rheoleiddio)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2014 i 31 Ionawr 2015, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

**CYNLLUN OLYNIAETH A CHYNLLUNIO'R GWEITHLU**
**Corfforaethol**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod mesurau gweithlu mewn lle, a'u bod yn cael eu defnyddio yn effeithiol o fewn y Cyngor er mwyn cadarnhau darpariad o wasanaethau o safon gan y Cyngor, yn bresennol ac i'r dyfodol.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwblhawyd yr archwiliad hwn gan gynnal cyfarfodydd gyda swyddogion perthnasol Adnoddau Dynol ynghyd a sampl o dri pennaeth, un uwch-reolwr ac un rheolwr o fewn gwahanol adrannau'r Cyngor, gan dderbyn tystiolaeth berthnasol i asesu'r trefniadau presennol a ddefnyddir er budd y Cyngor heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod adrannau'n ystyried cynllunio'r gweithlu a chael cynllun olyniaeth yn bwysig i allu monitro'r gweithlu presennol a'r gallu i gynllunio i'r dyfodol. Mae adrannau yn cymryd camau i fonitro eu sefyllfa bresennol drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng rheolwyr; uwch-reolwyr a phenaethiaid er mwyn cadw golwg ar unrhyw faterion a ddaw o'r gweithlu os o gwbl. Mae hyn hefyd yn eu galluogi i drafod eu cynlluniau tua'r dyfodol.

Mae Rheolwyr yn derbyn adroddiadau absenoldebau yn fisol er mwyn gallu eu monitro yn erbyn eu hystadegau adrannol. Mae hyn yn gymorth i adnabod unrhyw batrymau sydd yn codi a ble gall Adnoddau Dynol gynnig unrhyw gymorth sydd ei angen i allu gwella'r sefyllfaoedd absenoldeb.

Mae pob adran gyda'u harbenigedd unigol o ran gwaith, ac felly mae anghenion yn amrywio o adran i adran, sydd yn golygu bod eu cynlluniau tua'r dyfodol yn wahanol i'w gilydd hefyd. Mae'r adrannau yn cymryd camau er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd angenrheidiol a'r hyfforddiant ar ei gyfer yn cael ei ddarparu ar gyfer swyddogion o fewn eu gwasanaethau. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bydd cyflenwad o'r arbenigedd hyn ar gael i'r dyfodol er mwyn cynnal gwasanaeth o safon gan y Cyngor i bobl Gwynedd.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y Cynllun Olyniaeth a Chynllunio'r Gweithlu gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle.**

**RHEOLAETH TRYSORLYS**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn briodol ac yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth a threfniadau rheoli risg y Cyngor, ynghyd â sicrhau fod y gwasanaeth a dderbynnir gan ymgynghorwr rheolaeth trysorlys yn briodol, berthnasol ac ystyrlon.

Cwmpas yr Archwiliad

Cynhaliwyd yr archwiliad drwy adolygu'r ddogfennaeth a pholisïau rheolaeth trysorlys ynghyd â chofrestr risg y Cyngor, yn ogystal â gwirio trefniadau penodi ac yna monitro perfformiad yr ymgynghorwr. Hefyd, gwiriwyd fod y drefn monitro gweithgareddau rheolaeth trysorlys yn briodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd ar y cyfan fod rheolaeth gref yn y broses o reolaeth trysorlys. Mae gan y Cyngor strategaeth gyfredol ar gyfer rheoli'r trysorlys a gafodd ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ym Mawrth 2014. Fodd bynnag nid yw Arferion Rheolaeth Trysorlys y Cyngor wedi eu diweddaru ers eu mabwysiadau ym Mawrth 2011. Adolygwyd yr Atodlenni hynny (Arferion Rheolaeth Trysorlys) a gwelwyd eu bod angen eu diweddaru i adlewyrchu strwythur cyfredol y Cyngor ynghyd ag adolygu cyfrifoldebau am gymeradwyo a chraffu'r Strategaeth.

Cadarnhawyd fod ymgynghorwr y Cyngor yn darparu gwybodaeth ynghylch pa sefydliadau y dylid buddsoddi gyda hwy yn ogystal â'r sefydliadau na ddylid buddsoddi gyda hwy. Gwiriwyd sampl o fuddsoddiadau a darganfuwyd bod yr holl fuddsoddiadau yn unol â'r cyngor a dderbyniwyd gan yr ymgynghorwr.

Gwelwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu gydag aelodau'r Pwyllgor Archwilio i drafod ac esbonio'r Strategaeth cyn y Pwyllgor Archwilio. Gwelwyd mai ychydig o aelodau yn unig a fynychodd y cyfarfod hwn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Rheolaeth Trysorlys gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru'r 'Atodlenni - Arferion Rheolaeth Trysorlys' i adlewyrchu'r strwythur cyfredol ynghyd ag adolygu cyfrifoldebau a dyletswyddau'r swyddogaethau am gymeradwyo a chraffu'r Strategaeth.**
- **Dylai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio atgyfnerthu'r pwysigrwydd i aelodau'r Pwyllgor fynychu cyfarfodydd briffio i gael dealltwriaeth o'r elfennau technegol sydd ynghlwm â'r Datganiad fel y gellir craffu'r Strategaeth yn briodol cyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn.**

**CRONFA DEGWM**
**Economi a Chymuned**

Bwriad yr Archwiliad
Gwirio fod cyfrifon terfynol Cronfa Degwm Gwynedd, Môn a Chonwy 2013-14, sy'n cael ei reoli a'i gweinyddu gan Cyngor Gwynedd, yn rhoi gwir adlewyrchiad o'i berfformiad am y flwyddyn.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio fod y cyfrifon terfynol y gronfa yn cysoni â'r cyfriflyfr, datganiadau banc ac adroddiadau cynnydd rheolwyr cronfa, gan ddethol sampl o anfonebau a jiwrneli sy'n ymddangos yng nghyfeirebau'r gronfa yn 2013¬14 a gwirio eu bod yn berthnasol i'r gronfa.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod cyfrifon terfynol Cronfa Degwm Gwynedd, Môn a Chonwy 2013-14 yn rhoi gwir adlewyrchiad o berfformiad y gronfa am y flwyddyn. Gwelwyd fod y cyfrifon terfynol yn cysoni â chyfriflyfr y Cyngor, datganiadau banc y gronfa ac adroddiadau cynnydd rheolwyr cronfa am y flwyddyn. Yn ogystal, gwelwyd fod y sampl o anfonebau a jiwrneli sydd wedi cael eu cyfeirebu i gyfeirebau'r gronfa yn 2013-14 yn berthnasol i'r gronfa.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth y Gronfa Degwm gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# YR HAFAN, PWLLHELI
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau priodol yn bodoli yn yr Hafan, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn unol â rheolau ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad

Ymweld â'r Hafan a gwirio bod trefniadau priodol yn bodoli yno ar gyfer rheoli amrywiol o risgiau. Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yn y cyfriflyfr ar gyfer 2013/14 a 2014/15, yn ogystal â gwirio bod rheolaeth gyllidebol a threfniadau iechyd a diogelwch digonol yn bodoli.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd bod rheolaeth dda ar y cyfan yn bodoli yn yr Hafan. Er hynny, gwelwyd bod angen tynhau ar rai trefniadau sylfaenol sef gwirio trwyddedau gyrru staff yn flynyddol a sicrhau fod y dyddiadau priodol yn cael eu nodi ar yr asesiadau risg.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Yr Hafan, Pwllheli gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Hafan rhestru'r dyledion nad ydynt yn gallu eu hadennill gan roi rheswm pendant, a dylent anfon y manylion ymlaen i'r Uwch Gyfrifydd yn yr Uned Cyllid er mwyn iddo wneud trefniadau i anfon y rhestr at y Pennaeth Cyllid neu'r Pennaeth Cyllid a'r Aelod Cabinet, er mwyn derbyn eu hawdurdod fel bo'r angen.**
- **Dylid sicrhau fod Rheolwr yr Hafan yn derbyn copïau o adroddiadau cyllidol yn ymwneud â'r Hafan yn rheolaidd.**
- **Dylid gwirio a chadw copi o drwyddedau gyrru staff yr Hafan yn flynyddol, gan wirio a sicrhau mai staff trwyddedig yn unig sydd gyda'r awdurdod i yrru cerbydau'r Hafan.**
- **Dylid nodi'r dyddiad pan aseswyd y risg ddiwethaf ar yr asesiad risg yn erbyn 'dyddiad yr asesiad', a dylid nodi yn erbyn y 'dyddiad adolygu' y dyddiad yn y dyfodol pan ddylid adolygu'r risg, sef ymhen blwyddyn, neu'n gynharach os oes newid i'r risg.**
- **Dylid symud ymlaen i wneud trefniadau i werthu'r hen hoist.**
- **Dylid sicrhau bod staff eraill yn cael eu hyfforddi ar sut i weinyddu'r taliadau debyd uniongyrchol fel bod rhywun arall o'r staff yn medru cwblhau gwaith y Dirprwy Reolwr (Gweinyddu) pan nad yw yn y gwaith, boed hynny yn waith gweinyddu taliadau debyd uniongyrchol neu gwaith cysoni a bancio incwm.**

# UNEDAU DIWYDIANNOL A THECHNOLEG
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer rheoli a gweinyddu'r unedau diwydiannol a thechnoleg, er mwyn lliniaru risgiau yn unol â rheolau ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewis sampl o unedau diwydiannol a thechnoleg sydd wedi eu gosod, ar gyfer profi ystod o reolaethau mewnol. Roedd yr archwiliad hefyd yn ystyried adroddiadau pwyllgor perthnasol, a dogfennaeth o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd bod trefniadau da ar y cyfan mewn lle ar gyfer gosod allan yr unedau, casglu incwm o’r unedau, monitro trefniadau iechyd a diogelwch a chynnal a chadw’r unedau. Er hynny, gwelwyd bod cyfanswm dyledion y tenantiaid yr unedau oddeutu £55,000 ar 22/09/14, ond fe welwyd tystiolaeth bod yr Uned Cefnogi Busnes yn monitro’r sefyllfa yn rheolaidd ac yn gweithio gyda’r tenantiaid er mwyn adennill y dyledion.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth yr Unedau Diwydiannol a Thechnoleg gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn. Er hynny, fe hoffai’r archwiliwr gynnig yr argymhellion canlynol:**

- **Dylid diwygio'r daflen asesu fel bod man arno i'r sawl sydd wedi asesu'r cais ei arwyddo.**
- **Dylid sefydlu'r un drefn asesu ceisiadau wrth osod allan unedau’r Canolfannau Menter, lle mae pob cais yn cael ei asesu drwy gwblhau ffurflen asesu er mwyn sicrhau cysondeb.**

**TREFNIADAU SIFFT MEWN CARTREFI PRESWYL**
**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau mewn lle ar gyfer y newidiadau sifftiau sydd wedi cymryd lle yn y cartrefi preswyl.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio cyllideb a dogfennau perthnasol i sicrhau bod y broses o newid patrwm sifftiau wedi eu cyflwyno yn llwyddiannus yn y cartrefi.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd bod enghreifftiau cryf o ymarfer da mewn trefniadau sifft mewn Cartrefi Preswyl. Gwelir bod cyfathrebu a thrafodaethau yn cymryd lle yn rheolaidd yn y Cartrefi a bod trefniadau cadarn ynglyn â rota sift 12 awr. Gwelir bod trefniadau cryf ar gyfer derbyn adborth gan Staff a Phreswylwyr ynglŷn â'r trefniadau newydd. Fodd bynnag, mae angen monitro newidiadau i gyllideb y Cartrefi yn rheolaidd a chwblhau cytundebau staff ar gyfer gweithio sifftiau 12 awr fel mater o flaenoriaeth.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y trefniadau sifft mewn Cartrefi Preswyl gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ymdrechu i gwblhau cytundebau staff ar gyfer gweithio sifftiau 12 awr fel mater o flaenoriaeth.**
- **Dylid cael cofrestr risg sy'n cynnwys risgiau newydd yn gysylltiedig â'r newidiadau i drefniadau sifft 12 awr. Dylai hon cael ei diweddaru yn rheolaidd os oes bwriad i ledaenu'r trefniadau i Gartrefi Preswyl eraill y Cyngor.**

**Atodiad 7**

**PLANT MEWN GOFAL - ASESIADAU ADDYSG AC IECHYD**
**Plant a Cefnogi Teuluoedd**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau asesiadau addysg ac iechyd plant mewn gofal yn unol â chyfarwyddyd a rheolau Llywodraeth Cymru "Towards a stable life and better future".

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio bod asesiadau addysg ac iechyd yn cael eu cwblhau yn amserol a'u bod wedi eu rhannu hefo'r awdurdodau perthnasol er lles y plant mewn gofal.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn y gwasanaeth Plant Mewn Gofal, sef y drefn o gadw cofrestr gyfredol o blant mewn gofal o fewn y sir ac yn all-sirol a chysondeb y Swyddogion Adolygu Annibynnol wrth gynnal adolygiadau rheolaidd. Fodd bynnag, gwelir bod yna rhai gwendidau yn bodoli fel anghysondebau mewn trefnu asesiadau iechyd ac addysg cychwynnol i'r plant a dylid ystyried dilyn i fyny ar rhain yn gynharach yn y broses.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn asesiadau addysg ac iechyd Plant mewn Gofal gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod manylion meddyg a deintydd plant mewn gofal yn cael ei ddiweddaru yn gywir ar Raise gan gynnwys y dyddiad cofrestriad er mwyn cydymffurfio a gofynion y canllawiau "Towards a Stable Life and a Brighter Future".**
- **Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob plentyn mewn gofal yn derbyn asesiad iechyd o fewn 28 diwrnod o ddod i ofal. Dylid ystyried creu system monitro a dilyn i fyny asesiadau er mwyn cydymffurfio a gofynion y canllawiau "Towards a Stable Life and a Brighter Future".**
- **Dylid sicrhau bod y ffurflenni a ddefnyddir i gwblhau asesiadau iechyd yn gyson ac yn cynnwys "rhan B" sydd yn cadarnhau bod copi o'r asesiad wedi ei anfon at feddyg y plentyn mewn gofal.**
- **Dylid sicrhau bod cysondeb yn y wybodaeth sy'n cael ei gofnodi ynglŷn ag iechyd hanesyddol y plant mewn gofal. Dylid sicrhau bod unrhyw ran wag o'r ffurflen yn cael ei lenwi i gadarnhau os yw/nad yw yn berthnasol.**
- **Dylid sicrhau bod trefniadau dinistrio/cadw dogfennaeth yn gyson ym mhob ardal ac ystyried dilyn y drefn sydd mewn lle yn Arfon.**
- **Dylid ystyried dilyn i fyny ar y Cynlluniau Addysg Personol yn gynharach er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau o fewn yr 20 diwrnod o leoli'r plentyn.**
- **Dylid rhoi cyfarwyddyd i'r ysgolion i gwblhau'r ffurflenni CAP yn gyson gan gynnwys ychwanegu "dim yn berthnasol" yn hytrach na gadael bylchau gwag.**
- **Dylid ystyried ychwanegu gwybodaeth benodol i blant mewn gofal ar wefan y Cyngor gan gynnwys linciau lliwgar i dynnu sylw at wasanaethau eraill sydd ar gael sy'n ddeniadol i blant.**

**CYDWEITHIO - PARTNERIAETH DIOGELWCH FFYRDD**
**Rheoleiddio**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod ffocws strategol y Bartneriaeth Diogelwch Ffyrdd yn gwneud y gwerth gorau o'r adnoddau sydd ar gael a bod yr arian grant refeniw diogelwch ffyrdd yn cael ei weinyddu yn briodol ac yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth yn ogystal â threfniadau gweinyddu'r grant refeniw diogelwch ffyrdd ar gyfer 2014-15 a 2013-14 ble'n berthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gan mai Fframwaith 'Road Safety Framework for Wales' (Gorffennaf 2013) sy'n nodi blaenoriaethau'r Llywodraeth, yna mae bidiau llwyddiannus yr Awdurdodau yn dueddol i fod ar gyfer prosiectau sydd wedi ei hanelu at y grwpiau bregus nodwyd yn y fframwaith. Yn sgil hyn, dengys bod rôl y Bartneriaeth o osod cyfeiriad wedi lleihau ond bod rhannu gwybodaeth ac arbenigaeth rhwng aelodau'r Bartneriaeth yn parhau yn swyddogaeth bwysig a defnyddiol. Mae Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i sicrhau gwerth £92,000 o grant tuag at brosiectau refeniw diogelwch ffyrdd yn 2014-15, a gwelwyd ei fod yn cael ei weinyddu yn briodol.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau gweinyddiaeth y Bartneriaeth Diogelwch Ffyrdd gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **17 CHWEFROR 2015** |
| TEITL | **TREFNIADAU DATGELU - YMWYBYDDIAETH O'R POLISI CANU'R GLOCH** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **HYSBYSU'R PWYLLGOR ARCHWILIO O GANLYNIADAU AROLWG O YMWYBYDDIAETH STAFF A'U HAGWEDD TUAG AT BOLISI CANU'R GLOCH Y CYNGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS AC YSTYRIED Y CAMAU GWEITHREDU A AMLINELLIR YN RHAN 1 O'R ADRODDIAD** |

---

## 1 CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO EI WNEUD?

1.1 Er mwyn cyflawni ei roi fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", mae angen i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Ystyried cynnwys yr adroddiad yma, a dod i gasgliad ar ansawdd a chadernid trefniadau Canu'r Golch y Cyngor, ar sail canlyniadau'r holiadur staff**
- **Gwneud argymhellion er mwyn cryfhau'r trefniadau ymhellach**
- **Ystyried os dylid anfon unrhyw neges i holl staff y Cyngor ar ran y Pwyllgor Archwilio, ar sail canlyniadau'r holiadur.**

## 2 CEFNDIR

2.1 Bwriad y Polisi Canu'r Gloch yw i annog gweithwyr i ddod ymlaen a sôn am bryderon difrifol sydd ganddynt ynghylch camymarfer er mwyn amddiffyn y cyhoedd a staff, gwarchod enw da'r Cyngor a chynnal hyder y cyhoedd. Bwriad y polisi yw annog a galluogi gweithwyr i rannu pryderon difrifol yn fewnol yn hytrach na dewis ceisio datrys pethau yn allanol.

2.2 Mae'r polisi yn berthnasol i holl staff y Cyngor a chontractwyr sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor ar eiddo'r Cyngor, megis gweithwyr asiantaeth neu adeiladwyr, cyflenwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau dan gontract gyda'r Cyngor ar eu heiddo eu hunain, megis cartrefi gofal.

2.3 Mae'r fframwaith cyfreithiol i warchod unigolion sy'n "canu'r gloch" wedi ei osod yn Neddf Datguddiad Diddordeb Cyhoeddus 1998 (Public Interest Disclosure Act - PIDA). Mae PIDA yn cael ei gydnabod fel meincnod ar gyfer "canu'r gloch" er lles diddordeb cyhoeddus. Daeth y Ddeddf i rym yng Ngorffennaf 1999.

2.4 Mae gweithwyr sy'n rhannu pryderon yn ddidwyll ynghylch achosion o gamymarfer wedi'u hamddiffyn rhag erlid a chael eu diswyddo dan Ddeddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998.

## 3 BWRIAD A CHWMPAS YR ARCHWILIAD

3.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth staff Cyngor Gwynedd am Bolisi Datgelu a Chanu'r Gloch y Cyngor ynghyd â chanfod barn gyffredinol gweithwyr y Cyngor tuag at y polisi a'r trefniadau canu'r gloch trwy ddefnyddio holiadur pwrpasol.

3.2 Dosbarthwyd holiadur tebyg gan Archwilio Mewnol i staff prif swyddfeydd y Cyngor yn 2010, ac roedd y gwaith pellach yn 2014 yn gyfle i gymharu canlyniadau'r ddau ymarferiad er mwyn gweld os oedd cynnydd wedi bod yn lefelau ymwybyddiaeth staff o'r polisi, ac os ydynt yn fwy parod i ganu'r gloch ers 2010.

3.3 Anfonwyd dau e-bost i oddeutu 2200 o weithwyr yn gofyn iddynt, ac yn eu hatgoffa, i gwblhau'r holiadur. Cymerodd 705 (32%) o weithwyr ran yn yr adolygiad.

**3.4 Gan mai holiadur ar lein oedd hwn, roedd yr holiadur y tro yma wedi ei gyfyngu i staff swyddfa yn unig. Yn 2015/16, bwriedir cynnal ymarferiad o'r fath gyda gweithwyr llaw.**


3.5 Roedd yr holiadur hefyd yn ceisio darganfod unrhyw bryderon sydd gan staff ynglŷn â defnyddio'r Polisi, a faint o hyder sydd ganddynt yn y drefn.

## 4 AMCAN 01: BOD TREFNIADAU PRIODOL I SICRHAU FOD GWEITHWYR Y CYNGOR YN YMWYBODOL O'R POLISI CANU'R GLOCH.


<u>Ymwybyddiaeth</u>

4.1 Yn 2003 dim ond 30% allan o'r sampl o 200 aelod staff a ymholwyd oedd yn ymwybodol fod gan Gyngor Gwynedd bolisi Canu'r Gloch. Erbyn 2010, roedd y canran yma wedi cynyddu yn sylweddol i 79.6% (allan o sampl o 740).

4.2 Erbyn hyn, dengys bod **81%** o staff, allan o'r sampl o 705, yn ymwybodol bod gan y Cyngor Bolisi Canu'r Gloch. Dengys y tablau isod ddadansoddiad o'r canlyniadau, fesul Adran a fesul chategori staff.




**Ffigur 1: Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch fesul Adran**





**Ffigur 2: Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch fesul categori staff**

4.3 Gwelwyd:

- Bod ymwybyddiaeth o'r polisi yn uchel ymysg Uwch Reolwyr ond yn lleihau wrth symud tuag at y Gweithwyr Uniongyrchol
- Bod amrywiaeth mawr rhwng adrannau'r Cyngor. Yr Adran Addysg sydd â'r ffigwr isaf, sef 63%. Nid oedd Ysgolion yn rhan o'r adolygiad yma gan eu bod yn dilyn polisiau sydd wedi cael eu mabwysiadu ar gyfer defnydd eu hunain drwy eu cyrff llywodraethol, ond disgwylir bod cefnogaeth ar gael i staff ysgolion gan swyddogion yr Adran Addysg petai'r angen yn codi.
- Y byddai 13% o'r rhai nad oedd yn ymwybodol o'r polisi wedi datgelu pryder am gamymarfer yn y gweithle, petaent yn ymwybodol am y trefniadau Canu'r Gloch. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i godi ymwybyddiaeth ymhellach.

Dull o Hyrwyddo'r Polisi

4.4 Mae'r Polisi Canu'r Gloch yn cael ei hyrwyddo mewn sawl ffordd wahanol gan y Cyngor. Gofynnwyd yn yr holiadur drwy ba ddull (gyda'r opsiwn i ddewis mwy nag un) y daeth y gweithwyr yn ymwybodol o'r polisi. Dengys ddadansoddiad o'r canlyniadau isod:




**Ffigur 3: Dulliau daeth y gweithwyr yn ymwybodol o'r polisi**

4.5 Yn ogystal â'r opsiynau yma, roedd cyfle i staff ychwanegu dulliau eraill. Atebion cyffredin oedd ymwybyddiaeth o'r polisi drwy rinwedd eu swyddi, "word of mouth", cyfarfodydd timoedd neu drwy lythyr penodi i'w swyddi. Dengys y canlyniadau uchod bwysigrwydd y Mewnrwyd, ond ar y llaw arall mynegodd nifer o weithwyr nad yw'n hawdd dod o hyd i'r polisïau arno.

Cerdyn Canu'r Gloch

4.6 Yn 2009, gwnaethpwyd ymgyrch gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth o'r polisi drwy rannu cardiau cyswllt canu'r gloch. Golyga hyn bod pob un o weithwyr y Cyngor i fod i dderbyn cerdyn (maint cerdyn banc) sy'n rhestru rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, a chyfeiriad post 'Canu'r Gloch', er mwyn ysgogi unrhyw un i 'ganu'r gloch' os yw'r angen yn codi. Dylai'r cerdyn yma fod wedi'i gynnwys fel rhan o becyn anwytho i weithwyr newydd sy'n ymuno â'r Cyngor.

4.7 Gofynnwyd yn yr holiadur yn uniongyrchol i'r gweithwyr os ydynt wedi derbyn y cerdyn. Darganfuwyd mai dim ond **21.7%** o'r sawl oedd yn ymwybodol o'r polisi fynegodd eu bod wedi derbyn cerdyn, sydd **yn llai na ffigwr 2010** (25.5%).

## 5 AMCAN 02: BOD GWEITHWYR Y CYNGOR YN BAROD I DDEFNYDDIO'R POLISI OS YW'R ANGEN YN CODI.

Hyder yn y System

5.1 Er mwyn i weithwyr y Cyngor fod yn ddigon hyderus i ddilyn canllawiau'r polisi, rhaid i'r cynnwys fod o safon uchel. Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau canu'r gloch y Cyngor yn ystod mis Mai 2014 gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr adolygiad yn cwmpasu y polisi, ymrwymiad y Cyngor, sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i weithredu'r polisi, addysg a hyfforddiant, ymwybyddiaeth, llwyth achosion ac y polisi ar waith.

5.2 Mynegwyd bod y polisi yn dda ar y cyfan a chyflwynwyd argymhellion i'w gryfhau. Mae'r polisi yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.


5.3 Gofynnwyd yn holiadur 2010 i weithwyr y Cyngor roi eu barn ar y trefniadau cyfredol o ganu'r gloch drwy roi sgôr rhwng 1 a 5 (1 yn wan a 5 yn ardderchog) iddo. **Cyfartaledd y sgôr yn 2010 oedd 2.9 allan o 5**. Ar gyfer holiadur 2014, newidiwyd geiriad y cwestiwn i ofyn am lefelau hyder y gweithwyr yn y drefn, ble mae 1 yn dynodi 'dim hyder' a 5 yn 'gwbl hyderus'. Roedd hyn yn dilyn sylwadau o ddiffyg ffydd yn y drefn yn holiadur 2010. **Cyfartaledd y sgôr yn 2014 oedd 3.09**, sy'n dynodi bod gan weithwyr y Cyngor, yn gyffredinol, hyder yn y drefn, er ddim yn gwbl hyderus.

5.4 Dengys y tabl isod amrediad o'r ymatebion i'r cwestiwn yma:


| Sgor | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o ymatebion | 45 | 83 | 259 | 137 | 46 |
| Canran | 8% | 15% | 45% | 24% | 8% |

**Tabl 1: Hyder Staff yn y Trefniadau**

5.5 Dengys ddadansoddiad o'r ystadegyn yma, fesul Adran a chategori staff isod:




**Ffigur 4: Dadansoddiad o lefelau hyder gweithwyr yn y drefn canu'r gloch, fesul Adran**




**Ffigur 5: Dadansoddiad o lefelau hyder gweithwyr yn y drefn canu'r gloch, fesul categori staff**


5.6 Dim ond yr Adran Cyllid a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sydd wedi rhoi sgôr cyfartaledd llai nag 3, tra bod pob Adran arall wedi rhoi sgôr cyfartaledd rhwng 3 a 3.5. Dengys hefyd mai Rheolwyr Canol sydd â'r hyder lleiaf yn y trefniadau, sy'n wahanol i'r hyn a welwyd yn adroddiad 2010.

Defnyddio'r Polisi

5.7 Dim ond 22 person allan o'r rhai a gwblhaodd yr holiadur a ddywedodd eu bod wedi canu'r gloch, a mynegodd 10 ohonynt eu bod yn hapus gyda'r modd y cafodd y mater ei drin. Yn y 22 achos – yn ôl y rhai a ymatebodd – cafodd 6 achos eu datrys, 10 eu datrys i raddau a 6 ddim o gwbl. Fodd bynnag, barn y sawl sy'n canu'r gloch yw hyn a gall eu hymateb ddeillio o ganlyniad sydd yn eu tyb hwy yn anfoddhaol.


Canu'r Gloch yn y Dyfodol

5.8 Rhestrodd yr holiadur enghreifftiau o amgylchiadau (wedi eu cymryd o'r polisi) ble dylai gweithwyr ganu'r gloch os ydynt yn dod ar eu traws yn y gweithle. Gofynnodd yr holiadur petai staff yn darganfod yr enghreifftiau yma yn y dyfodol, yn realistig, ar gyfer pa rai byddent yn debygol o ganu'r gloch? Roedd opsiwn i ddewis unrhyw faint o enghreifftiau:





**Ffigur 6: Nifer o weithwyr buasai'n canu'r gloch dan amgylchiadau penodol**

5.9 Wrth ddadansoddi atebion yr holiadur, dyrannwyd sgôr 'parodrwydd gweithwyr i ganu'r gloch' i bob Adran a chategori staff. Mae'r sgôr yn seiliedig ar sawl un o'r 6 enghraifft uchod, ar gyfartaledd, y byddai'r ymatebydd yn fodlon canu'r gloch amdanynt. Dengys ddadansoddiad o'r canlyniadau isod:




**Ffigur 7: Dadansoddiad parodrwydd gweithwyr i ganu'r gloch, fesul Adran**




**Ffigur 8: Dadansoddiad parodrwydd gweithwyr i ganu'r gloch, fesul categori staff**

5.10 Ar gyfartaledd, dengys y tablau uchod bod gweithwyr y Cyngor yn teimlo y byddent yn canu'r gloch mewn **79.9%** o achosion. Dim ond 64% o weithwyr fuasai'n canu'r gloch petaent yn dod ar draws rhywbeth sy'n achosi niwed i'r amgylchedd, ond byddai 89.6% yn canu'r gloch petaent yn dod ar draws rhywbeth sydd yn gyfystyr â cham-drin cleientiaid yn rhywiol, yn gorfforol neu yn emosiynol. Ffordd arall i edrych ar hyn yw na fyddai un o bob deg o weithwyr y Cyngor a ymatebodd i'r holiadur yn canu'r gloch petaent yn dod ar draws cam-drin cleientiaid yn rhywiol, yn gorfforol neu yn emosiynol.

5.11 Petai'r ymatebwyr yn datgan na fuasent yn canu'r gloch yn unrhyw un o'r amgylchiadau uchod, yna roedd gofyn iddynt egluro pam ddim. Rhoddir sampl o'r sylwadau isod:

*"Ansicrwydd ynglŷn â'r hyn sydd yn cyfri fel gweithrediad sy'n cwrs â'r criteria."*

*"...cael effaith negyddol ar fy nghyrfa i, neu yn gwneud fy mywyd gwaith yn anoddach."* (sic)

*"dim ffydd yn y system"*

*"Ni fyddai unrhyw beth yn cael ei wneud!"*

*"Oherwydd fod PAWB yn ymwybodol fod y person sydd yn canu'r gloch yn waeth allan oherwydd hynny...dim gwarchodaeth. hyn yn amlygu ei hun dro ar ôl tro yn y newyddion ayyb"* (sic)

*"Am nad oes gennyf ffydd yn y system. Mae pethau wedi eu crybwyll gan gyd-weithwyr i staff yn y gorffennol ac mae'r cyfan wedi ei frwsio o dan y carped ac wedi cael parhau. Dim pwynt canu'r gloch os nad yw unrhyw un am gymryd unrhyw sylw"*

*"Wedi cael fy magu, fel pawb arall, am beidio cario clecs felly byddai rhaid bod rhywbeth mawr i mi fynd yn erbyn hyn"*

5.12 Roedd nifer o sylwadau yn awgrymu bod pryderon sydd wedi cael eu codi yn y gorffennol heb gael sylw gan Uwch Reolwyr a bod canu'r gloch wedi arwain at y sawl ganodd y gloch yn y lle cyntaf yn dioddef llawer mwy na'r sawl sydd wedi ymddwyn o'i le. Mae diffyg cyfrinachedd hefyd yn rhwystro gweithwyr rhag cyflwyno eu pryderon.

**5.13 Yng ngoleuni'r sylwadau uchod, credaf fod lle i Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio wneud gwaith pellach i edrych i mewn i rai o drefniadau'r Cyngor, er mwyn edrych ymhellach i'r pryderon / honiadau a wnaethpwyd. Rwyf eisoes wedi trafod hyn gyda'r Prif Weithredwr, Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Uwch Reolwr Adnoddau Dynol.**

Syniadau Ynglŷn â Chodi Ymwybyddiaeth o'r Polisi

5.14 Roedd cwestiwn olaf yr holiadur yn gofyn barn y gweithwyr am ffyrdd i godi ymwybyddiaeth o bolisïau'r Cyngor yn gyffredinol. Roedd y nifer helaeth o ymatebion i'r cwestiwn dewisol yma yn brawf bod gweithwyr y Cyngor yn credu bod canu'r gloch yn bwysig. Dengys isod enghreifftiau o gynigion o sut i godi ymwybyddiaeth o'r polisi:

- Hwyluso mynediad at y polisïau drwy'r fewnrwyd (gan gynnwys hyrwyddo 'polisi'r mis')
- Codi ymwybyddiaeth drwy argraffu canllawiau ar gefn talebau cyflog
- Trafod canu'r gloch yn y sesiynau gwerthuso blynyddol
- Hyfforddiant

## 6 CASGLIADAU

6.1 Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu:

- **Bod cynnydd bychan wedi bod yn ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o'r Polisi Canu'r Gloch ers yr archwiliad cyffelyb diwethaf yn 2010.**
- **Dim ond 21.7% o weithwyr a fynegodd eu bod wedi derbyn cerdyn cyswllt Canu'r Gloch, ond gall y gwir ganran fod yn uwch oherwydd bu i'r cardiau gael eu dosbarthu i'r gweithwyr peth amser yn ôl erbyn hyn.**
- **Gwelwyd mai'r dull gorau o hyrwyddo'r polisi ymysg gweithwyr y Cyngor oedd drwy'r fewnrwyd, ond awgrymwyd sawl gwaith bod y polisi llawer rhy anodd i'w ddarganfod arno.**
- **Rhannodd ambell weithiwr eu profiadau o ddefnyddio'r polisi, ac yn anffodus nid oeddent yn galonogol. Ni ellir magu ffydd y gweithwyr yn y trefniadau tra bod achosion fel hyn yn codi.**
- **Mynegodd canran uchel o'r gweithwyr y byddent yn barod i ganu'r gloch yn y dyfodol petai'r amgylchiadau yn codi, ond yn ôl y sylwadau, nid penderfyniad hawdd y bydd hyn iddynt.**

6.2 Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

*Argymhelliad A01: Ystyried ailddosbarthu'r cardiau cyswllt canu'r gloch.*

*Argymhelliad A02: Dylid codi pryderon a amlinellwyd gan y gweithwyr yng nghyfarfodydd y Coleg Rheolwyr.*

*Argymhelliad A03: Ymdrechu i geisio lleihau pryderon staff ynglyn â chanu'r gloch a cheisio ennyn eu hyder yn y trefniadau.*

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **17 CHWEFROR 2015** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2014/15.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae cynllun archwilio mewnol 2014/15 wedi ei gynnwys yn yr atodiad, gyda statws y gwaith ar 31 Ionawr 2015 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 12 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 19 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 2 |
| Disgwyl Adolygiad | 4 |
| Adroddiad Drafft | 3 |
| Adroddiad Terfynol | 48 |
| Wedi ei gau | 2 |
| Cyfanswm | 90 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 12 |

2.2 Targed perfformiad 2014/15 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2015.

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 31 Ionawr oedd **55.6%** - allan o'r **90** archwiliad unigol yng nghynllun addasedig 2014/15 roedd **48** wedi eu rhyddhau yn derfynol ac **2** wedi eu cau.

2.4 Gwelir hefyd fod gwaith o leiaf wedi dechrau ar 78 allan o'r 90 archwiliad, sef 86.7%. Ef fod cyrraedd y targed o orffen 95% bellach yn ymddangos yn annhebygol, mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ddod mor agos â phosib i'r uchelgais yma.

## 3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Adroddais i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2014 fod cynllun arbedion effeithlonrwydd Archwilio Mewnol yn golygu na fyddai cytundeb tri aelod o staff dros dro yn cael eu hadnewyddu ar ôl 31 Mawrth 2015. Bryd hynny, roedd un o'r swyddog hynny eisoes wedi cael swydd y tu allan i Archwilio Mewnol; erbyn hyn mae'r ddau archwiliwr dros dro hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn eu hymdrechion i ddarganfod cyflogaeth amgen.

3.2 Gan nad oes pwrpas chwilio am swyddogion i lenwi'r bylchau dros dro – ni fyddai cyfryw unigolion ar gael p'un bynnag – rwyf yn argymell addasu'r cynllun archwilio ar gyfer gweddill 2014/15 i adlewyrchu realiti yr adnoddau staff sydd ar gael. Nid swyddi gwag yw'r rhain, ond swyddi sydd yn cael eu diddymu oddi ar y strwythur yn gynharach na'r dyddiad bwriedig o 31 Mawrth 2015. Canlyniad hyn yw fod 120 diwrnod yn llai o adnoddau archwilio ar gael na'r hyn oedd wedi ei gynllunio ar ei gyfer ar ddechrau'r flwyddyn.

3.3 Yn ogystal â'r gostyngiad mewn adnoddau a ddisgrifir uchod, rwyf wedi derbyn cais gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i gynnal archwiliadau penodol yn eu maes gwaith hwy, gan ddechrau o ganol mis Chwefror. Rwyf yn cyfrifo y bydd hyn yn ddefnydd o 35 diwrnod archwilio, a bydd angen addasu'r cynllun archwilio er mwyn adlewyrchu hyn.

3.4 Er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn, rwyf yn argymell yr addasiadau hyn i Gynllun Archwilio 2014/15:

**Tabl 1: Archwiliadau sydd wedi eu tynnu o'r cynllun:**

| **Teitl** | **Rheswm ac Oblygiadau** | **Effaith (dyddiau)** |
|---|---|---|
| GwE *(Addysg)* | Bwriad yr archwiliad yma oedd adolygu cydymffurfiaeth gyda'r "model newydd". Gan nad yw GwE yn anelu i weithio i'r model yma tan Medi 2015, bydd yr archwiliad yma yn digwydd yn 2015/16. | -20 |
| Arlwyaeth Ysgolion *(Addysg)* | Nid oedd gwaith wedi dechrau ar yr archwiliad yma, a gan fod adnoddau archwilio wedi cael eu torri, bydd yn cael ei raglennu ar gyfer 2015/16. | -20 |
| Teleofal *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | Ni fyddai wedi bod yn ddefnydd priodol o adnoddau i gynnal yr archwiliad yma yn 2014/15 gan fod adolygiad system yn digwydd yn y gwasanaeth. | -15 |
| Cronfa Byw yn Annibynnol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | Roedd y maes yma hefyd yn destun adolygiad system. Fodd bynnag, mae newid yn nhrefniadau'r gronfa yn un o brif risgiau'r Cyngor, a bydd yn cael blaenoriaeth yn 2015/16. | -20 |
| Cyfathrebu Gydag Ysgolion *(Addysg)* | Y marn Archwilio Mewnol, roedd modd symud yr archwiliad yma i 2015/16 heb effaith andwyol ar y risgiau. | -10 |
| Cyd-Bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig *(Addysg)* | Gan nad oedd yr archwiliad yma wedi dechrau, bydd yn cael ei symud i fisoedd cynnar 2015/16. | -20 |
| Cynllun Potensial *(Economi a Chymuned)* | Mae'r cynllun bellach wedi dod i ben. Felly, ystyriwyd na fyddai gwaith ar y maes yma yn ddefnydd da o adnoddau archwilio. | -25 |
| System Treth Cyngor – iPortal *(Cyllid / Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | Nid yw iPortal (neu iConnect fel y'i gelwir bellach) wedi cael ei gyflwyno eto, felly nid oedd unrhyw beth i'w archwilio. Disgwylir cynnal archwiliad yn 2015/16. | -10 |
| Academi Hwylio *(Economi a Chymuned)* | Mae'r archwiliad yma wedi ei symud i 2015/16 oherwydd y toriad yn adnoddau Archwilio Mewnol. Bydd yn cael ei gynnal yn gynnar yn y flwyddyn. | -15 |

**Tabl 2: Archwiliad wedi ei ychwanegu i'r cynllun:**

| **Teitl** | **Rheswm** | **Effaith (dyddiau)** |
|---|---|---|
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru *(Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru)* | Gwaith ychwanegol ar gais yr Asiantaeth Cefnffyrdd. | **+35** |

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2014/15 a cynnig sylwadau arno, cymeradwyo'r addasiadau, a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2014/15

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-07/2015 | System Swyddi - diogelwch a chywirdeb | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **5.96** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-08/2015ffon | Ffonau Symudol | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **17.72** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-08/2015tech | Defnydd o dechnoleg - astudiaeth gwerth am arian | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **3.96** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-09/2015hyff | Trefniadau Dysgu a Datblygu | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **12.99** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-09/2015ol | Cynllun Olyniaeth a Chynllunio'r Gweithlu | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **5.11** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-11/2015 | Trefniadau Diogelu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **12.03** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-12/2015 | Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **12.47** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-14/2015cof | Cofrestr Diogelwch Staff | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.07** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-14/2015unig | Iechyd a Diogelwch - Gweithio'n Unig | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.16** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-18/2015 | Adolygiad o Gymorth y Wladwriaeth | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **3.68** | Wedi ei gau |
| 1-CPGV-01/2015a | Protocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.97** | Adroddiad Drafft |
| 1-CPGV-01/2015ags | Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.69** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-01/2015f | Llywodraethu Corfforaethol - Gweithredu Penderfyniadau Pwyllgor | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **10.42** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| 1-CPGV-02/2015 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **4.97** | Wedi ei gynllunio |
| 2ADN-ADY-SAL/2015 | Trefniadau Salwch – cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **21.09** | Adroddiad Terfynol |
| AO-ARL-05/2015 | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **30.31** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BB-YSG-10/2015 | Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **18.85** | Adroddiad Terfynol |
| **Cynllunio Argyfwng** | | | | | | |
| BC-PER-01/2015tyw | Cynllun Tywydd Garw | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.15** | Adroddiad Terfynol |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2015gad | Grant Amddifadedd Disgyblion | 8.00 | -1.00 | **7.00** | **12.57** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2015ol16 | Grant Darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **3.11** | Wedi ei gynllunio |
| 4-DAT-X-ADD/2015pres | Grant Presenoldeb Ysgol y Consortia | 0.00 | 1.00 | **1.00** | **0.41** | Wedi ei gynllunio |
| 4-DAT-X-ADD/2015syl | Grant Refeniw y Cyfnod Sylfaenol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **7.55** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDA02/2015 | TGCh mewn Ysgolion Uwchradd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **10.84** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDA03/2015 | Cyfathrebu gydag Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.23** | Wedi ei ganslo |
| EADDY-01/2015 | Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **4.18** | Wedi ei ganslo |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| EADDA06/2015hlon | Ysgol newydd Hafod Lon | 15.00 | -15.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Arlwyo** | | | | | | |
| M-GMG-A04/2015 | Arlwyaeth Ysgolion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei ganslo |
| **GwE** | | | | | | |
| 4-GWE/2015 | GwE | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDAYC/2015a | Ysgolion Cynradd - Modelu'r Gweithlu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **1.46** | Wedi ei gynllunio |
| EADDAYC/2015c | Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **21.09** | Adroddiad Terfynol |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | | | | | |
| 3-AMG-ACGC/2015 | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | 0.00 | 35.00 | **35.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Archwilio a Risg** | | | | | | |
| AM-YS-03/2015 | Trefniadau Rheoli Risg | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.27** | Wedi ei gynllunio |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2015kc | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **15.32** | Adroddiad Drafft |
| AE-TAL-01/2015kc | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **10.09** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AE-TAL-01/2015kcx | System Taliadau - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **12.16** | Adroddiad Terfynol |
| **Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** | | | | | | |
| AN-ACY-05/2015 | Rheolaeth Trysorlys | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **18.00** | Adroddiad Terfynol |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-01/2015 | Taliadau CHAPS | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.88** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-02/2015asd | Cofrestrau Asedion Sefydlog (Cerbydau) | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **12.05** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| AN-ACY-02/2015kc | Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **15.07** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-13/2015kc | Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.77** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AN-ACY-13/2015kcx | Cysoni Banc - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 5.00 | **10.00** | **10.59** | Adroddiad Terfynol |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AL-CYF-01/2015kc | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **9.28** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AL-CYF-01/2015kcx | System Gyflogau - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **6.18** | Adroddiad Terfynol |
| AL-CYF-01/2015mj | Cyflogau - Swyddi Lluosog | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **10.55** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AP-PEN-01/2015kc | Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **9.58** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AP-PEN-01/2015kcx | Cronfa Bensiwn Gwynedd - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **7.07** | Adroddiad Terfynol |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AB-BD-01/2015kc | System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.95** | Wedi ei gynllunio |
| AB-BD-01/2015kcx | System Budd-daliadau - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.00** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2015ipo | System Treth Cyngor - iPortal | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.16** | Wedi ei ganslo |
| AC-TR-01/2015kc | System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **6.42** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-01/2015kcx | System Treth Cyngor - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **4.99** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-11/2015kc | System Treth Di-Annedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **7.19** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-11/2015kcx | System Treth Di-Annedd - Cau i lawr 2013-14 | 2.00 | 0.00 | **2.00** | **2.18** | Adroddiad Terfynol |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| AW-TG-08/2015 | TG - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **6.14** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AW-TG-09/2015 | Cydgyfeiriant Rhwydwaith | 20.00 | -15.00 | **5.00** | **3.15** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AW-TG-12/2015 | Systemau TG | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| BE-POL-10/2015pot | Cynllun Potensial | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **3.04** | Wedi ei ganslo |
| EADDZ-01/2015 | Cronfa Degwm | 0.00 | 15.00 | **15.00** | **10.81** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-C04/2015 | Cymunedau'n Gyntaf - Y Rhaglen Newydd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **27.80** | Adroddiad Terfynol |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | | | | | |
| EDIW-MU-03/2015 | Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **20.05** | Adroddiad Drafft |
| **Hamdden** | | | | | | |
| E-DGO-01/2015 | Canolfannau Hamdden | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **44.16** | Adroddiad Terfynol |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMM-01/2015 | Yr Hafan, Pwllheli | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **16.21** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMT-01/2015 | Traethau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.97** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Sylweddol** | | | | | | |
| DDAT-AH-01/2015 | Academi Hwylio | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.24** | Wedi ei ganslo |
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| 4-DAT-X-GRANT/2015h | Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Hyfforddi | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **6.69** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-GRANT/2015r | Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **7.70** | Adroddiad Terfynol |
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | | | | | |
| DDAT-BS-02/2015 | Unedau Diwydiannol a Thechnoleg | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **22.33** | Adroddiad Terfynol |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| GTG-SYS01/2015 | System Gwybodaeth Gwasanaeth Cymdeithasol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **8.04** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cefnogi Pobl** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2015 | Cefnogi Pobl | 15.00 | -15.00 | **0.00** | **0.74** | Wedi ei ganslo |
| **Cyswllt Cwsmer** | | | | | | |
| BD-PW-02/2015 | Galw Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **12.07** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Digartrefedd a Thai Cefnogol** | | | | | | |
| T-TAI-D01/2015 | Digartrefedd | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **24.47** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-G11/2015 | Tai Gofal Ychwanegol | 10.00 | -10.00 | **0.00** | **4.66** | Wedi ei ganslo |
| **Oedolion** | | | | | | |
| GGWAS-C01/2015 | Cronfa Byw yn Annibynnol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **3.07** | Wedi ei ganslo |
| GGWAS-H07/2015tel | Teleofal | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **7.90** | Wedi ei ganslo |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART/2015c | Trefniadau sifft mewn Cartrefi Preswyl | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **17.13** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1333/2015 | Plas Maesincla, Caernarfon | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.85** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1339/2015 | Plas Ogwen, Bethesda | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **15.71** | Adroddiad Terfynol |
| GDAPR-H01/2015 | Asedau Preswylwyr Cartrefi | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **22.78** | Disgwyl Adolygiad |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| 5-GOF-X-PL/2015ddg | Grant Refeniw Dechrau'n Deg | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **14.49** | Disgwyl Adolygiad |
| 5-GOF-X-PL/2015tay | Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **7.95** | Adroddiad Terfynol |
| BE-POL-11/2015tyg | Grant Teuluoedd yn Gyntaf | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.67** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GCC-05/2015 | Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **38.38** | Disgwyl Adolygiad |
| GGWAS-P06/2015 | Gwasanaethau Plant - Comisiynu Gofal | 16.00 | 0.00 | **16.00** | **22.30** | Disgwyl Adolygiad |
| GGWAS-PLANT8/2015 | Plant mewn Gofal - asesiadau addysg ac iechyd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **27.68** | Adroddiad Terfynol |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PGW-TR-02/2015 | Depos a Gweithdai - Rheolaeth Stoc | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.04** | Gwaith Maes ar y gweill |
| PPR-GW03/2015 | Rheolaeth Fflyd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **7.23** | Wedi ei gau |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | | | | | |
| M-GMG-C01/2015 | Meysydd Chwarae | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **8.90** | Adroddiad Terfynol |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| PBW-03/2015cyt | Cytundebau Gwaredu Gwastraff | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.84** | Adroddiad Terfynol |
| PBW-03/2015gr | Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | 25.00 | -15.00 | **10.00** | **11.38** | Adroddiad Terfynol |
| PBW-10/2015saf | Diogelwch Safleoedd Ailgylchu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **6.97** | Adroddiad Terfynol |
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | |
| 3-AMG-GWLAD/2015llw | Llwybrau Cyhoeddus a Lonydd Glas | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.89** | Adroddiad Terfynol |
| **Cynllunio** | | | | | | |
| BE-POL-19/2015 | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.39** | Adroddiad Terfynol |
| DCYN-RD-01/2015pen | Gwasanaeth Cynllunio - Penderfyniadau Cynllunio | 10.00 | 15.00 | **25.00** | **31.14** | Adroddiad Terfynol |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| 2ADN-GGYC-GYC/2015bw | Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch | 0.00 | 25.00 | **25.00** | **30.61** | Adroddiad Terfynol |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| 3-AMG-FFYRDD/2015 | Gorchmynion Ffyrdd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **19.68** | Adroddiad Terfynol |
| 3-PROJ-TRAF/2015briw | Pont Briwet | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.65** | Adroddiad Terfynol |
| DDAT-CC-01/2015 | Uned Trafnidiaeth Integredig | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **6.26** | Gwaith Maes ar y gweill |
| PPE-P-01/2015 | Gorfodaeth Parcio | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **7.30** | Gwaith Maes ar y gweill |
| PPR-RS-03/2015 | Cydweithio - Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.09** | Adroddiad Terfynol |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | | | | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BE-POL-08/2015 | Strategaeth Caffael | 40.00 | 0.00 | **40.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | | | | | |
| PYM01/2015 | Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **20.81** | Adroddiad Terfynol |
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | | | | | |
| 3-YMG-CTRT/2015rr | Cofrestrau Risg Prosiectau Ymgynghoriaeth Gwynedd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.78** | Adroddiad Terfynol |

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **17 CHWEFROR 2015** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2015/16** |
| PWRPAS | **CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2015 - 31 MAWRTH 2016** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R CYNLLUN YN YR ATODIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir cynllun drafft o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2015/16 er sylwadaeth a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio.

1.2 Mae'r adroddiad yma'n egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor.

## 2. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Archwilio Mewnol 2012-2015 gan y Pwyllgor Archwilio yn Chwefror 2012. Y strategaeth yma sydd yn sail i waith Archwilio Mewnol am y cyfnod dan sylw, ac mae'n esbonio sut y bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cynnig sicrwydd am y rheolaethau mewnol sydd yn eu lle o fewn Cyngor Gwynedd.

2.2 Mae'r gwaith o baratoi Strategaeth newydd ar gyfer 2015-2018 wedi dechrau, ond mae'r cynllun a gyflwynir yma yn seiliedig ar y Strategaeth gyfredol. Nid oes gennyf unrhyw reswm i feddwl y byddai'r cynllun fel a gyflwynir yma yn anghyson ag unrhyw strategaeth newydd.

2.3 Mae rhaglen waith Archwilio Mewnol wedi ei gynllunio a'i baratoi yn unol â'r camau a amlinellir yn y Strategaeth Archwilio Mewnol; mae'r Strategaeth hefyd yn esbonio sut bydd yn cynorthwyo'r Cyngor i wella er lles y dinesydd. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r adnoddau y disgwylir y bydd ar gael iddo, ac yn datgan y rhagolygon o safbwynt cydweithio ag eraill.

## 3. ADNODDAU SYDD AR GAEL

3.1 Mae lefel staffio Archwilio Mewnol wedi lleihau yn sylweddol ers cyflwyno Cynllun Archwilio 2014/15. Mae tri swydd llawn amser wedi cael eu diddymu oddi ar y strwythur oherwydd yr angen i ddarganfod arbedion ariannol. Lle roedd cynllun gwreiddiol 2014/15 yn rhagweld 1,506 o ddyddiau cynhyrchiol, rhagwelir y bydd oddeutu 960 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2015/16. Mae hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys ystyried cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, rheolaeth a chyfarfodydd ac ar ôl ystyried y darpariaethau canlynol:

- Darpariaeth ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb — 55 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol — 65 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer dilyniant — 45 diwrnod

3.2 Fel ymateb i'r toriad mewn adnoddau, bydd rhaid i Archwilio Mewnol ystyried y ffordd y mae'n gweithio a sut y gellir cwblhau yr nifer tebyg o archwiliadau gyda llai o adnoddau. Bydd hyn yn golygu newid graddol mewn meddylfryd, a tra nad wyf yn disgwyl gweld yr effaith yn 2015/16, rwyf yn disgwyl y gellir cwblhau archwiliadau mewn llai o amser mewn blynyddoedd sydd i ddod.

## 4. CYNLLUN ARCHWILIO GWEITHREDOL

4.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol yn gosod disgwyliadau y bydd Archwilio Mewnol yn rhoi ystyried i'r trefniadau rheoli risg sydd eisoes yn eu lle yn y Cyngor wrth lunio ei raglen waith, a lle nad yw'r trefniadau hyn ddigon cryf, fod Archwilio Mewnol yn cynnal ei ddadansoddiad risg ei hun.

4.2 Rhoddwyd ystyriaeth i'r cofrestrau risg corfforaethol, trawsadrannol ac adrannol wrth baratoi'r cynllun drafft yma. Roddwyd blaenoriaeth hynny i'r risgiau uchel hynny sydd, yn ôl yr adrannau, wedi eu rheoli. Mae hyn yn caniatáu i Archwilio Mewnol roi barn annibynnol ar ddigonolrwydd y rheolaethau mewnol hynny.

4.3 Ar ôl ystyried y trefniadau rheoli risg, rhoddir ystyriaeth i faterion sydd rhai eu cynnwys yn y cynllun pob blwyddyn, sef:

- Adolygiad o Reolaethau Allweddol y Prif Systemau Ariannol (yn unol â chytundeb gyda Swyddfa Archwilio Cymru)
- Materion Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn seiliedig ar gynnwys y Cod Llywodraethu Lleol
- Archwiliadau sydd yn angenrheidiol oherwydd amodau ariannu
- Meysydd ble mae gwendidau rheolaeth cyson wedi eu hadnabod
- Adolygiadau ar sail thema yn sefydliadau'r Cyngor.

4.4 Mae'r cynllun archwilio drafft ar gyfer 2015/16 sy'n ganlyniad i'r gwaith yma wedi ei gynnwys yn yr Atodiad. Mae esboniad byr o'r rheswm am gynnwys pob archwiliad yn y cynllun drafft wedi ei nodi.

4.5 Bwriedir cynnal trafodaethau gyda'r penaethiaid adran a rheolwyr perthnasol cyn cychwyn ar yr archwiliadau hyn. Lle'n briodol, bydd eu hawgrymiadau yn cael eu hymgorffori yn y cynllun terfynol.

## 5 ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016, yn ddarostyngedig i addasiadau yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.

# Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2015/16

| | Archwiliad | Rheswm | Dyddiau |
|---|---|---|---|
| **Addysg** | | | |
| | Arlwyaeth Ysgolion | Wedi ei dynnu o gynllun 2014/15 oherwydd lleihad mewn adnoddau. | **20** |
| | Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig | Wedi ei dynnu o gynllun 2014/15 oherwydd lleihad mewn adnoddau. | **20** |
| | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | Mae'r grant yma yn gyfuniad o sawl grant blaenorol oedd yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. | **20** |
| | GwE | Mae GwE yn anelu i fod yn cydymffurfio â'r model newydd erbyn Medi 2015. Bydd yr archwiliad yn gyfle i gynnal gwiriad annibynnol. | **20** |
| | Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | Disgwylir i'r gwaith adeiladu gychwyn yn ystod 2015/16. | **15** |
| | Ysgolion - Iechyd a Diogelwch tripiau ysgol | Cyfle i wirio fod trefniadau cadarn yn eu lle i liniau'r risgiau uchel. | **20** |
| | Ysgolion - Llywodraethu | Mae'r archwiliad yma wedi ei gynnwys yn y cynllun ar gais y Pwyllgor Archwilio. Ei fwriad yw gwirio bod Llywodraethwyr yn mynychu cyrsiau mandadol. | **20** |
| **Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru** | | | |
| | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cafwyd cais gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd i Archwilio Mewnol gynnal cyfres o adolygiadau yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn. | **50** |
| **Corfforaethol** | | | |
| | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | Wrth i nifer yr adolygiadau gynyddu, bydd Archwilio Mewnol yn cynnig cyngor a chefnogaeth i staff a rheolwyr ar faterion rheoli risg a rheolaeth fewnol. | **20** |
| | Defnydd Ymgynghorwyr | Gall y defnydd o ymgynghorwyr allanol fod yn faes o risg o safbwynt gwerth am arian. | **25** |
| | Grantiau Amrywio | Yr union grantiau i'w penderfynu yn ystod y flwyddyn, pan fydd yr holl wybodaeth i law. | **20** |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | Gwaith sydd i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i ymdrin â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth. | **20** |
| | Llywodraethu Gwybodaeth - Deddf Diogelu Data | Mae risgiau yn ymwneud â diogelu gwybodaeth sy'n golygu fod angen trefniadau lliniaru cadarn yn eu lle. | **20** |
| | Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion - Gwasanaethau Risg Uchel | Mae'r archwiliad yma wedi ei gynnwys ar gais y Gweithgor Gwella Rheolaethau, fel bod Archwilio Mewnol yn targedu meysydd o risg uchel, yn sgil yr archwiliad "lefel uchel" yn 2014/15. | **15** |
| | Taliadau Cymorth Cyntaf | Mae nifer o staff yn derbyn taliadau i rhoi cymorth cyntaf i'w cydweithwyr. Credir fod angen archwiliad i wirio fod y trefniadau'n briodol. | **7** |
| | Y Fenter Twyll Genedlaethol | Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y fenter hwn sy'n cael ei redeg gan yr archwiliwr allanol. | **50** |

| Archwiliad | Rheswm | Dyddiau |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Gweithwyr Llaw | Cynhaliwyd arolwg i staff swyddfa yn 2014/15, a bwriedir cynnal ymarferiad tebyg gyda gweithwyr llaw yn 2015/16. | **25** |

**Cyllid**

| | | |
|---|---|---|
| Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **10** |
| Cronfa Bensiwn - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **10** |
| Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **10** |
| Cysoni Banc - Cau i Lawr 2014-15 | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **5** |
| Diogelwch Systemau TG | Bwriedir cynnal ystod o archwiliadau o dan y pennawd yma, yn edrych ar faterion penodol yn y maes technoleg gwybodaeth. | **30** |
| PSG - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **10** |
| PSG gan gynnwys Dyledwyr a Taliadau - Cau i Lawr 2014-15 | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **8** |
| Rhyngwyneb Siebel / eFinancials | Mae angen derbyn sicrwydd annibynnol am ddiogelwch y rhyngwyneb rhwng y ddwy system allweddol yma. | **10** |
| System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **12** |
| System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **12** |
| System Gyflogau - Cau i Lawr 2014-15 | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **5** |
| System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **12** |
| System Treth Cyngor - iConnect | Disgwylir y bydd y system yma yn cael ei chyflwyno yn ystod 2015/16. | **10** |
| Systemau Refeniw - Cau i Lawr 2014-15 | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **10** |
| Taliadau Tai Dewisol | Archwiliad i sicrhau priodoldeb y trefniadau, a chydymffurfiaeth â pholisi. | **10** |
| Terfynu Gweithwyr oddi ar Systmau TG | Gall y methiant i dynnu cyn-weithwyr oddi ar ein systemau cyfrifiadurol gyfaddawdu eu diogelwch. | **15** |
| Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **8** |
| Treth Di-Annedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Yn y cynllun yn unol â'r Protocol ar y Cyd gyda SAC. | **8** |

**Economi a Chymuned**

| | | |
|---|---|---|
| Academi Hwylio | Mae archwiliad o ddatblygiad y ganolfan newydd wedi ei dynnu o gynllun 2014/15 oherwydd toriad mewn adnoddau. | **15** |
| Cronfa Degwm | Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000. | **10** |

| Archwiliad | Rheswm | Dyddiau |
|---|---|---|
| Prosiectau Byw’n iach | Un o'r prosiectau yng Nghynllun Strategol y Cyngor. | **20** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

| | | |
|---|---|---|
| Cefn Rodyn, Dolgellau | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2015/16 yw'r ail flwyddyn o dair). | **12** |
| Dilysrwydd Anfonebau Darparwyr Preifat | Mae yna wariant arwyddocaol ar ddarparwyr gofal trydydd parti. Byddai archwiliad i adolygu'r rheolaethau mewnol yn amserol yn 2015/16. Bydd yn cynnwys Tai Gofal Ychwanegol, os yn briodol. | **20** |
| Gofal Cartref | Maes gyda nifer uchel o staff yn gweithio heb gyswllt a'u rheolwyr. Heb gael sylw ers rhai blynyddoedd. | **25** |
| Hafod Mawddach, Abermaw | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2015/16 yw'r ail flwyddyn o dair). | **12** |
| Llywodraethu trefniadau cydweithio gyda'r 3ydd Sector | Mae'r cynnydd yn y gwaith ar y cyd gyda'r 3ydd sector yn gadael y Cyngor yn agored i risgiau diangen heb drefniadau llywodraethu cadarn. | **20** |
| Newidiadau i ILF | Mae'r newidiadau i ILF sydd ar y gweill wedi ei adnabod fel un o brif risgiau'r Cyngor. | **15** |
| Plas Hedd, Bangor | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2015/16 yw'r ail flwyddyn o dair). | **12** |
| Plas y Don, Pwllheli | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2015/16 yw'r ail flwyddyn o dair). | **12** |
| Rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Gofal | Mae sicrhau hyfforddiant priodol i weithwyr gofal yn reolaeth allweddol i liniaru risg sylweddol o fewn y gwasanaethau Gofal. | **20** |
| Rhestr Aros Tai | Gwirio'r trefniadau rhwng y Cyngor a'r Cymdeithasau Tai. | **15** |

## Plant a Chefnogi Teuluoedd

| | | |
|---|---|---|
| Cynnal cynllun gweithredu Estyn ar ôl y dilyniant | Rhoi sicrwydd annibynnol fod y gwelliannau yn dilyn yr adolygiad yn parhau. | **20** |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

| | | |
|---|---|---|
| Arolygiadau | Mae'r trefn arolygiadau wedi bod yn gadarn, ond mae'r trefniadau angen eu hadolygu yn sgil cynnydd mewn hawliadau yswiriant priffyrdd. | **20** |
| Cynnal a chadw adeiladau a safleoedd | Mae hwn wedi ei adnabod yn risg uchel iawn yn y gofrestr risg adrannol, gyda dibyniaeth ar y rheolaethau mewn lle i'w dod i lawr i risg isel. Mae angen gwiriad ar y rheolaethau yma, felly. | **10** |
| Rheolaeth Fflyd | Cynhaliwyd adolygiad allanol yn ystod 2015/16. Bydd yr archwiliad yma yn fodd i ddilyn i fyny ar y trefniadau i reoli'r risgiau hyn. | **25** |

## Rheoleiddio

| | | |
|---|---|---|
| Incwm Meysydd Parcio | Nid yw'r maes yma wedi cael sylw Archwilio ers peth amser. | **20** |

| Archwiliad | Rheswm | **Dyddiau** |
|---|---|---|
| Pont Briwet | Cynllun cyfalaf o risg gymharol uchel a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2015/16. | **15** |
| Trafnidaeth Gyhoeddus | Maes o risg uchel sydd wedi bod yn destun ymchwiliadau troseddol yn 2014/15. | **25** |

**<u>Strategol a Gwella</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Hyfforddi a Datblygu Aelodau | Mae hwn yn reolaeth allweddol i sicrhau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gadarn. | **10** |

**<u>Tîm Arweinyddiaeth</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa'r Cadeirydd | Nid yw hwn yn faes o risg uchel, ond nid yw wedi cael ei wirio ers sawl blwyddyn. | **10** |

**<u>YGC</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Recriwtio a Phenodi | Amserol i wirio fod y trefniadau recriwtio a phenodi yn dryloyw ac yn gyson â gweddill y Cyngor. | **15** |
| | | **960.00** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **17 CHWEFROR 2015** |
| **TEITL** | **NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CYFANSODDIAD YN DILYN Y DEDDF PENSIYNAU GWASANAETH CYHOEDDUS 2013 A'R RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (DIWYGIAD) (LLYWODRAETHU) 2014** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID**<br><br>**IWAN EVANS – PENNAETH CYFREITHIOL** |
| **AELOD CABINET** | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

## 1. Crynodeb

Mae'r adroddiad hon yn gofyn i aelodau ystyried newidiadau i adrannau'r Cyfansoddiad sydd yn perthyn i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (CBLlL). Mae'r newidiadau wedi cael eu drafftio er mwyn sicrhau bod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd, yn cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2014 ynglŷn â sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn diffinio'r swyddogaethau, aelodaeth a strwythur gweithredu'r Bwrdd Pensiwn Gwynedd. (Atodiad 3).

## 2. Cefndir

2.1 Roedd y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (DPGC) 2013, yn ganlyniad adolygiad sylfaenol o'r ddarpariaeth pensiwn gwasanaethau gan yr Arglwydd Hutton ar ran y llywodraeth ("Adolygiad Hutton"). Yr amcan oedd hwyluso cyflwyniad o newidiadau i'r trefniadau llywodraethu; methodoleg prisio; strwythur buddion y cynllun; trefniadau rhannu costau ayyb ar draws cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus ac am y tro cyntaf dod a nhw i gyd o dan un fframwaith statudol.

2.2 Heblaw'r rheoliadau ynglŷn a llywodraethu a rheolaeth costau, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2014 (y Rheoliadau Llywodraethu), nid yw'r newidiadau o dan y DPGC mewn perthynas i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (CBLlL) yn cael effaith ar Gyfansoddiad y Cyngor ac maent wedi cael eu gweithredu yn llawn gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.

2.3 Mae'r Rheoliadau Llywodraethu yn ymofyn am newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor. Mae hyn oherwydd bod y DPGC yn gosod y gofyniad i bob cynllun

pensiwn gwasanaethu cyhoeddus i sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol erbyn 1af Ebrill 2015.

2.4 Mae aelodau'r Pwyllgor Pensiynau wedi derbyn crynodeb o'r newidiadau i'r trefniadau llywodraethu ac mae'r swyddogion wedi gweithio gydag Awdurdodau Gweinyddol eraill er mwyn penderfynu'r ffordd gorau i ymateb i'r gofynion rheoleiddiol.

2.5 Er mwyn sicrhau cyrraedd y dyddiad cau statudol a bod Bwrdd Pensiwn Lleol Gwynedd yn cael ei sefydlu yn unol a'r rheoliadau cynigir yr ychwanegiadau a'r diwygiadau atodol i'r Cyfansoddiad a'r strwythur rheoli'r cynllun pensiwn (Atodiadau 1, 2 a 3). Mae'r newidiadau yn cynnwys y meysydd canlynol:

2.5.1 Diweddaru'r dirprwyaethau i'r Swyddog Adran 151 er mwyn cynnwys awdurdodi gwariant Bwrdd Pensiwn Gwynedd. (Atodiad 1)

2.5.2 Diweddaru'r swyddogaethau'r Pwyllgor Pensiynau i roi sylw ac ystyried argymhellion Bwrdd Pensiwn Lleol Gwynedd. (Atodiad 2)

2.5.3 Cynnwys strwythur y Bwrdd Pensiwn (Atodiad 3)

2.5.4 Mabwysiadu'r swyddogaethau, aelodaeth a strwythur gweithredu Bwrdd Pensiwn Gwynedd (Atodiad 3)

- Mae'r Bwrdd Pensiwn yn adrodd i'r Cyngor fel Awdurdod Gweinyddol y Gronfa.
- Mae gan y Bwrdd Pensiwn gyfrifoldeb allanol i'r Rheolydd Pensiynau, sydd gyda rôl cydymffurfiaeth a goruchwyliaeth ar draws holl gynlluniau pensiwn sector cyhoeddus, yn unol a'r DPGC.
- Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cael ei gyfansoddi fel corff sydd dim yn gwneud penderfyniadau er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddol gyda:
    - sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau'r cynllun, deddfwriaeth arall ynglŷn a llywodraethu a gweinyddiaeth ynghyd a gofynion y Rheolydd Pensiynau a
    - sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon i'r Gronfa.

## 3. Argymhelliad

2.1 Argymhellir i'r Cyngor adolygu adrannau'r o'r Cyfansoddiad sydd yn perthyn i'r CPLlL, er mwyn sicrhau fod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Lleol Gwynedd, yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu).

2.2 Sefydlu Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol a'r adroddiad ar sail y Cylch Gorchwyl a Llywodraethu. ( Atodiad 3)

## Atodiad 1: Newidiadau Arfaethedig y Cyfansoddiad i dirprwyaeth i Pennaeth Cyllid

### 5. Pennaeth Cyllid

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor**

5.1 Bod y swyddog priodol at bwrpas Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol l972 ac Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol l988.

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet**

5.2 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Archwilio Mewnol
- Cyfrifeg
- Rheolaeth Risg ac Yswiriant
- Y Gronfa Bensiwn a'r Cynllun Pensiwn
- Rheolaeth Trysorlys (gan gynnwys buddsoddiadau)
- Treth y Cyngor a Threthi Annomestig
- Budd-daliadau Tai a Gostyngiadau Treth Cyngor
- Taliadau
- Incwm a Chredydwyr
- Cyflogau
- Technoleg Gwybodaeth

5.3 Bod y swyddog priodol at ddibenion Adran 115 ac 146 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5.4 Hawl i lofnodi tystysgrif fod contractau yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol (Cytundebau) 1997.

5.5 Enwebu swyddogion atal twyll budd-dal

5.6 Awdurdodi dileu dyledion hyd at y symiau a nodir yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

5.7 Bod y Swyddog Awdurdodi ar gyfer dibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a caiff awdurdodi swyddogion eraill o fewn y gwasanaeth i fod yn Swyddog Awdurdodi yn yr un modd.

**5.8 Awdurdodi gwariant Bwrdd Pensiwn Gwynedd**

## Atodiad 2: Geiriad Arfaethedig y Cyfansoddiad:

# PWYLLGOR PENSIYNAU

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1**.** Swyddogaeth sy'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol, a.y.b. | Rheoliadau o dan adran 7, 12 neu 24 o Ddeddf Blwydd-dal 1972 (p.11), **Adran3 Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol 2013** | |
| 2. Swyddogaethau o dan Gynlluniau Pensiwn presennol mewn perthynas â phersonau a gyflogir gan awdurdodau tân ac achub yn unol ag Adran 1 Deddf Gwasanaethau tân ac Achub 2004. | Adrannau 34 a 36 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, **rheoliadau o dan Adran3 Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol 2013** | |
| **3. I dalu sylw ac ystyried argymhellion Bwrdd Pensiwn Lleol Cronfa Bensiwn Gwynedd.** | | |

DRAFT

Atodiad 3

# Cylch Gorchwyl a Llywodraethu  ar gyfer Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd

Cylch Gorchwyl a Hawliau wedi'u Dirprwyo

**1) Cyflwyniad**

Pwrpas y ddogfen hon yw pennu cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Pensiwn lleol Cronfa Bensiwn Gwynedd.

**2) Rôl y Bwrdd Pensiwn Lleol**

2.1 Rôl y Bwrdd Pensiwn Lleol fel y'i diffinnir gan adrannau 5 (1) a (2) Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yw:

- Cynorthwyo Awdurdod Gweinyddu Gwynedd fel Rheolwr y Cynllun; –
    - i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ("CPLlL") ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r CPLlL
    - i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion a osodir mewn perthynas â'r CPLlL gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
    - gyda materion eraill a gynhwysir yn rheoliadau'r CPLlL
- Sicrhau bod CPLlL yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu yn effeithiol ac yn effeithlon ar gyfer Cynllun Pensiwn Gwynedd

2.2 Bydd y Bwrdd Pensiwn yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio yn effeithiol ac yn effeithlon gyda'r cod ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Bwrdd Pensiwn hefyd yn cynorthwyo i sicrhau fod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei rheoli a'i gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon ac yn cydymffurfio gyda'r cod ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Rheoliadau'r Cynllun a Rheolwr y Cynllun fydd yn penderfynu ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd.

2.3 Bydd y Bwrdd Pensiwn yn adrodd ddwy waith y flwyddyn i'r Pwyllgor Pensiynau ar faterion sydd wedi'u hadolygu ac yn gwneud awgrymiadau i'w hystyried ganddo. Cynhelir y cyfarfodydd yn ystod oriau gwaith arferol ac o fewn ffiniau'r Sir. Bydd y Bwrdd yn cynnal o leiaf ddau gyfarfod ar wahân bob blwyddyn.

2.4 Dylai'r Bwrdd Pensiwn weithredu o fewn ei gylch gorchwyl bob amser.

2.5 Mae'r Bwrdd wedi'i ffurfio o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) (Llywodraethu) 2014 ac felly nid yw'n ddarostyngedig i ofynion Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw gylch gwaith fel corff gwneud penderfyniadau.

**3) Penodi aelodau'r Bwrdd Pensiwn**

3.1 Rhaid cael cynrychiolaeth gyfartal rhwng cyflogwyr y cynllun ac aelodau'r cynllun.

Yn ddarostyngedig i reol 107 (3) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 Bydd 6 aelod o'r Bwrdd Pensiwn, a bydd yn cynnwys:

- 3 chynrychiolydd y cyflogwr (un ohonynt yn cynrychioli'r Awdurdod Gweinyddu);
- 3 chynrychiolydd aelodau'r cynllun;

Cyn belled â'i bod yn ymarferol rhesymol, bydd ymgais i geisio sicrhau fod y Bwrdd yn cynrychioli ystod grwpiau'r cyflogwr a'r aelodau o fewn y gronfa.

3.2 Gofynnir i gyflogwyr a gweithwyr enwebu cynrychiolwyr i'r Bwrdd Pensiwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn trefnu cyfarfod o'r panel i ddethol aelodau'r Bwrdd Pensiwn. Bydd y Panel Penodi yn cynnwys y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a'r Aelod Cabinet dros Gyllid. Detholir yr aelodau Bwrdd unigol ar gyfer pob categori ar sail cydbwysedd cyffredinol y profiad a'r sgiliau yn y grŵp.

3.3 Yn amodol ar 3.4 a 3.7 gwneir y penodiadau am bedair blynedd, ac ni fydd cyfyngiad ar sawl gwaith y gellir ail-benodi aelodau i'r Bwrdd.

3.4 Os bydd Aelod o'r Bwrdd a benodir mewn capasiti cynrychioladol i'r cyflogwr neu aelodau yn rhoi'r gorau i gynrychioli cyflogwr neu aelodau mewn capasiti o'r fath, bydd eu haelodaeth o'r Bwrdd yn cael ei ddiddymu ar unwaith.

3.5 Bydd yr Awdurdod Gweinyddu felly yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Pensiwn o blith aelodau'r Bwrdd. Caiff y swyddogaethau eu rhannu, gydag un ohonynt yn cynrychioli'r cyflogwr ac un yn cynrychioli'r aelodau, gan eu cyfnewid bob dwy flynedd.

3.6 Rôl y Cadeirydd fydd sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn dangos parch dyledus tuag at y broses, fod pob barn yn cael ei chlywed a'i hystyried yn llawn, ac i benderfynu pryd y bydd consensws wedi'i gyrraedd.

3.7 Dylai pob aelod o'r Bwrdd geisio mynychu pob cyfarfod o'r bwrdd yn ystod y flwyddyn. Ni chaniateir eilyddion.

3.8 Petai aelod o'r bwrdd yn absennol yn gyson o gyfarfodydd y Bwrdd neu hyfforddiant, bydd eu haelodaeth yn cael ei adolygu gan aelodau eraill y Bwrdd ar y cyd â Rheolwr y Cynllun, a gall Rheolwr y Cynllun benderfynu diddymu eu haelodaeth. Mae gan Reolwr y Cynllun ddisgresiwn i ddiddymu aelodaeth unrhyw aelod o'r Bwrdd os yw'n credu ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol i wneud hynny.

3.9 Bydd treuliau ar gyfer mynychu cyfarfodydd a sesiynau hyfforddiant yn cael eu had-dalu'n unol â pholisïau a chyfraddau'r Cyngor y cytunwyd arnynt ar gyfer aelodau etholedig.

3.10 Gan nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, nid oes gan y Bwrdd yr hawl i sefydlu Gweithgorau nac Is-grwpiau.

**4) Cworwm**

4.1 Bydd cworwm mewn cyfarfod o'r Bwrdd os yw 3 Aelod o'r Bwrdd yn bresennol, gan gynnwys y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd a rhaid i'r cworwm gynnwys o leiaf un cynrychiolydd cyflogwr ac un cynrychiolydd aelodau.

4.2 Bydd gan bob aelod un bleidlais ond yn ôl yr angen, bydd pleidlais fwrw gan y Cadeirydd.

**5) Buddiannau sy'n Gwrthdaro**

5.1 Cyn eu penodi i'r Bwrdd, bydd yn rhaid i'r holl aelodau gytuno i gydymffurfio â Chod Ymddygiad y Bwrdd. Gan ei fod yn gorff sy'n cynrychioli buddion y cyhoedd, bydd Cod Ymddygiad aelodau'r Bwrdd Pensiwn yr un fath â'r cod sy'n berthnasol i Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, sydd i'w weld ar wefan y Cyngor. Er osgoi amheuaeth, nid yw "buddiannau sy'n gwrthdaro" yn golygu

buddiant ariannol na buddiant arall sy'n bodoli dim ond drwy gyfrwng aelodaeth o'r cynllun neu gynllun cysylltiedig
(Adran 5 (5) Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013).

5.2 Bydd yn ofynnol i Aelodau'r Bwrdd Pensiynau gydymffurfio â gofynion y Cod Ymddygiad wrth ymwneud â'u dyletswyddau fel Aelodau o'r Bwrdd.

**6) Ymgynghorwyr i'r Bwrdd**

6.1 Mae gan y Bwrdd yr hawl i gael cefnogaeth ymgynghorwyr profiadol, a bydd yn cael mynediad at ymgynghorwyr yr Awdurdod Gweinyddu gan gynnwys yr actwari, Rheolwyr Buddsoddi, Ymgynghorwyr Buddsoddi, ac ymgynghorwyr eraill a gymeradwyir gan Reolwr y Cynllun.

6.2 Rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i sicrhau gwerth am arian, ac ystyried a fyddai Swyddogion yn medru darparu'r gefnogaeth angenrheidiol yn y lle cyntaf. Rhaid i'r Swyddog Adran 151 gymeradwyo eitemau o wariant gan y Bwrdd ymlaen llaw.

**7) Gwybodaeth a Sgiliau**

7.1 Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn fod yn gyfarwydd â:

- Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).
- Unrhyw ddogfen sy'n cynnwys polisi ynghylch gweinyddiaeth y CPLIL sydd wedi'i fabwysiadu ar y pryd gan Gronfa Pensiwn Gwynedd.

Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth am –

- Y gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau, ac
- Unrhyw faterion eraill sydd wedi'u pennu mewn rheoliadau.

7.2 Rhaid i'r awdurdod gweinyddu sicrhau fod pob person a benodir i'r Bwrdd yn meddu ar y profiad a'r gallu perthnasol i gynrychioli cyflogwyr neu aelodau (fel sy'n briodol) y Gronfa. I ddechrau, yr Awdurdod Gweinyddu fydd yn dethol, ond ar ôl eu penodi, mae'n gyfrifoldeb ar Aelod Bwrdd unigol i sicrhau eu bod yn bresennol ym mhob sesiwn hyfforddiant er mwyn cyflawni'r gofynion o ran gwybodaeth a sgiliau. Darperir hyfforddiant llawn a bydd y gronfa'n talu am yr holl gostau rhesymol.

7.3 Yn unol â'r gofyniad hwn, mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn fedru arddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a diweddaru eu gwybodaeth. Felly mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn gadw cofnod ysgrifenedig o hyfforddiant a datblygiad perthnasol.

7.4 Bydd aelodau'r Bwrdd Pensiwn yn cynnal dadansoddiad o'u hanghenion hyfforddiant personol, ac yn adolygu eu sgiliau, eu cymwyseddau a'u gwybodaeth yn gyson i adnabod unrhyw fylchau neu wendidau.

7.5 Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn gydymffurfio â pholisi hyfforddiant Rheolwr y Cynllun.

8) Cyfarfodydd Bwrdd – Rhybudd a Chofnodion

8.1 Bydd Rheolwr y Cynllun yn rhoi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn am bob cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn. Bydd y Rhybudd yn cynnwys yr agenda, cofnodion y cyfarfod blaenorol ac unrhyw adroddiad sydd i'w ystyried yn y cyfarfod. Dylid anfon y Rhybudd i'r aelodau dim hwyrach na 5 diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod, ac eithrio pan fo mater brys.

Bydd Rheolwr y Cynllun yn sicrhau y cynhelir cofnod ffurfiol o drafodion y Bwrdd Pensiwn. Ar ôl i Gadeirydd y Bwrdd neu bwyllgor y Bwrdd gymeradwyo'r cofnodion, fe'u dosberthir i'r holl aelodau.

**9) Cylch Gwaith y Bwrdd**

9.1 Rhaid i'r Bwrdd Pensiwn gynorthwyo Rheolwr y Cynllun gyda materion a bennir yn rheoliadau'r cynllun. Mater i reoliadau'r cynllun a Rheolwr y Cynllun yw penderfynu yn union beth yw cynnwys rôl y Bwrdd.

**10) Cyhoeddi gwybodaeth y Bwrdd Pensiwn**

10.1 Bydd angen i aelodau'r cynllun a phartïon eraill â diddordeb wybod bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae angen iddynt fod yn hyderus fod y Bwrdd Pensiwn wedi'i sefydlu'n gywir, wedi'i hyfforddi ac yn gymwys i gydymffurfio â rheoliadau'r cynllun, llywodraethu a gweinyddu'r cynllun a gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau.

10.2 Bydd y wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

10.3 Cyhoeddir papurau, rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd ar wefan Cyngor Gwynedd. Yn ôl disgresiwn Rheolwr y Cynllun, gellir eu golygu i eithrio eitemau a allai fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a bennir yn Rhan 1 atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, neu sy'n gyfrinachol at ddibenion Adran 100A(2) y Ddeddf honno a/neu sy'n cynnwys data sy'n destun y Ddeddf Diogelu Data 1998.

10.4 Bydd Rheolwr y Cynllun hefyd yn ystyried ceisiadau i wybodaeth ychwanegol gael ei chyhoeddi neu ei darparu i aelodau unigol o'r cynllun i annog aelodau i ymgysylltu ac i hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw.

**11) Atebolrwydd**

11.1 Bydd y Bwrdd Pensiwn a'i aelodau yn atebol ar y cyd ac yn unigol i Reolwr y Cynllun.

DRAFT